

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

65/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

14/06/2023

Adolygiad 24 mis o Gyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-091-1

Adolygiad 24 mis o Gyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru

Wulf Livingston¹, Iolo Madoc-Jones¹, Katy Holloway², Andy Perkins³,
Marian Buhociu², Shannon Murray²

¹ Prifysgol Glyndŵr (Wrecsam)

² Prifysgol De Cymru

³ Figure 8 Consultancy Services Ltd (Dundee)



Adroddiad Ymchwil Llawn: Livingston, Madoc-Jones, Holloway, Perkins, Buhociu a Murray (2022). Adolygiad 24 mis o Gyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 65/2023
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/isafbris-am-alcohol-dadansoddi-cyfraniad>

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Janine Hale

Adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr o dablau	2
Rhestr o ffigurau.....	3
Cydnabyddiaethau	4
Geirfa 5	
1. Cyflwyniad	7
2. Cefndir a chyd-destun	13
3. Methodoleg.....	24
4. Crynodeb o'r Llenyddiaeth.....	29
5. Fframwaith Gwerthuso	35
6. Gwersi a ddysgwyd hyd yma – gwerthusiadau yng Nghymru.....	46
7. Data Cymreig Arall	57
8. Ffactorau eraill.....	64
9. Data sylfaenol CA newydd.....	78
10. Gwersi a ddysgwyd hyd yma – gwerthusiadau'r Alban.....	89
11. Trafodaeth	103
12. Negeseuon sy'n dod i'r amlwg ac ystyriaethau cynnar	111

Rhestr o dablau

Tabl 1.1: Cynnwys penodau'r adroddiad	11
Tabl 2.1: Cymharu dulliau polisi camddefnyddio alcohol a sylweddau	17
Tabl 3.1 Gweithgareddau a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn	26
Tabl 4.1: Crynodeb o themâu'r llenyddiaeth a'r prif negeseuon	32
Tabl 5.1 Damcaniaeth Newid MPA – tybiaethau a risgiau.....	40
Tabl 5.2: Gweithgareddau a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn	41
Tabl 5.3 Cadwyn canlyniadau – enghraifft	45
Tabl 6.1: Crynodeb werthusiadau MPU yng Nghymru	47
Tabl 6.2: Crynodeb o'r llenyddiaeth a'r adroddiadau gwerthuso MPA yng Nghymru sydd wedi'u cyhoeddi	48
Tabl 6.3: Crynodeb o'r prif negeseuon o werthusiadau gweithredu cyn-MPA	49
Tabl 6.4: Crynodeb o'r prif negeseuon o werthusiadau gweithredu ôl-MPA.....	50
Tabl 9.1: Negeseuon craidd am COVID-19, yfed alcohol, ac MPA	66
Tabl 10.1: Crynodeb o adroddiadau gwerthuso'r Alban ac erthyglau mewn cyfnodolion	92
Tabl 10.2: Adroddiadau Cysylltiedig Public Health Scotland	96
Tabl 10.3: Erthyglau cysylltiedig mewn cyfnodolion (sy'n benodol i MUP yn unig)...	96

Rhestr o ffigurau

Ffigur 2.1: Damcaniaeth Newid Sylfaenol ar gyfer polisiau isafbris am alcohol	21
Ffigur 2.2: Damcaniaeth Newid gychwynnol Llywodraeth Cymru - MUP Cymru	23
Ffigur 5.1: Damcaniaeth Newid Sylfaenol ar gyfer polisiau isafbris am alcohol	36
Ffigur 5.2: Cynnig craidd MPA	36
Ffigur 5.3: Damcaniaeth Newid Public Health Scotland ar gyfer MUP	38
Ffigur 5.4: Damcaniaeth Newid Astudiaeth 'Harmful Drinkers' yr Alban.....	38
Ffigur 5.5: Iteriad wedi'i fireinio o Ddamcaniaeth Newid MPA sy'n benodol i Gymru yng ngoleuni'r gwerthusiad o'r Dadansoddiad o Gyfraniad	44

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i lawer o bobl am eu cymorth gyda'r prosiect hwn. Heb eu cefnogaeth ni fyddem wedi gallu casglu cymaint o gyfraniadau gwerthfawr. Yn benodol:

- Y rheini a roddodd eu hamser i ni gael eu cyfweld, a rhannu eu dealltwriaeth o rai o'r ystyriaethau cyd-destunol ehangach.
- Claire Beeston am ei hamser yn gwirio cywirdeb cynnwys MUP uniongyrchol yr Alban.
- Janine Hale yn Llywodraeth Cymru am ei hymateb difflino i ffrwd ddiddiwedd o gwestiynau technegol a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol, yn ogystal â rheoli'r prosiect mor ofalus a phroffesiynol.

Hoffem ddiolch hefyd i Grŵp Cyngori'r Prosiect am eu sylwadau ar fersiynau drafft o'n hadnoddau casglu data yn ogystal â'u cefnogaeth barhaus gyda'r ymchwil.

Geirfa

Acronym/allweddair	Diffiniad
ABV	Alcohol yn ôl cyfaint (% cryfder y gwerthir diod alcohol)
APB	Byrddau Cynllunio Ardal (comisiwn lleol ar gyfer defnyddio sylweddau ac unedau darparu – Cymru)
APOSM	[Cymru] – Panel Cyngori ar Gamdefnyddio Sylweddau
AUDIT	Prawf Adnabod Anhwylderau Defnyddio Alcohol
MESAS	[Public Health Scotland] – Uned Monitro a Gwerthuso Strategaeth Alcohol yr Alban
MHH	Yfwyr Cymedrol, Peryglus a Niweidiol
MPA	Isafbris am Alcohol – (i) a ddefnyddir i gyfeirio at y polisi o bennu isafbris am alcohol (ii) Cyfeiriad llaw-fer at Bolisi Llywodraeth Cymru
MUP	Isafbris Uned – (i) isafswm lefel pris fesul uned a ddefnyddir fel mecanwaith ar gyfer pennu isafswm pris am alcohol. (ii) Cyfeiriad llaw-fer at Bolisi Llywodraeth yr Alban, cyfeirir at y polisi ei hun hefyd fel MUP.
GIG	Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
NPS	Sylweddau Seicoweithredol Newydd (gweler hefyd Sbeis)
PAG	Grŵp Cyngori'r Prosiect
PHS	Public Health Scotland
PPU	Ceiniog yr uned, a fynegir fel 50ppu er enghraifft
OTC	Meddyginiaeth dros y cownter
RTD	Diodydd 'parod i yfed' sy'n seiliedig ar wirodydd
SARG	Sheffield Alcohol Research Group
Sbeis	Enw cyffredin ar gyfer math(au) penodol o NPS (h.y. canabinoidau synthetig).
<p>NODER: Mae nifer o acronymau sy'n cael eu defnyddio mewn paragraffau/rhannau unigol – ond yn unman arall yn yr adroddiad. Maent yn benodol i'r pwynt a wnaed ac nid ydynt yn gyffredinol i'r adroddiad cyfan. Nid yw'r</p>	

rhain wedi'u rhestru yma ond rhoddir teitl llawn i bob un ohonynt y tro cyntaf y cânt eu defnyddio.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanyleb ar gyfer gwerthusiad a fyddai'n asesu proses ac effaith cyflwyno isafbris am alcohol (MPA) yng Nghymru.
- 1.2 Rhannwyd y contract yn bedwar 'lot':
- Lot 1 – Dadansoddiad o Gyfraniad;
 - Lot 2 – gwaith gydag Adwerthwyr;
 - Lot 3 – gwaith ansoddol gyda gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth; a
 - Lot 4 – asesiad o'r effaith ar y boblogaeth ehangach o yfwyr.
- 1.3 Dyfarnwyd tri o'r contractau (Lot 1, 3, a 4) i gonsortiw m o ymchwilwyr sydd wedi'u lleoli ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam, Figure 8 Consultancy, a Phrifysgol De Cymru¹. Dyfarnwyd y contract Adwerthwyr i'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r Dadansoddiad o Gyfraniad (Lot 1), sy'n ceisio syntheseiddio a rhoi sylwadau ar y cyfraniad cynnar y mae cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru wedi'i wneud i ymddygiad, yfed a chanlyniadau manwerthu sy'n gysylltiedig ag alcohol.
- 1.4 Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r daith isafbris yng Nghymru hyd yma. Mae'n ddogfen synthesis sy'n cynnig gwerthusiad cyffredinol o weithredu'r isafbris, effaith gynnar (24 mis), ac ystyriaethau cychwynol cyflwyno MPA i Gymru. Wrth wneud hynny, mae'r adroddiad hwn wedi dod ag amrywiaeth o ddeunydd data eilaidd a sylfaenol at ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys yr adroddiadau interim gan y tair lot arall fel uchod, rhywfaint o ddata a deunyddiau cyfweliadau sylfaenol newydd ychwanegol o werthusiadau a myfyrdodau ar weithredu polisiâu prisio mewn awdurdodaethau eraill, yn enwedig yr Alban. Er mwyn cynnal swmp hawdd ei drin a darllenadwyedd, nid yw'n fwriadol wedi ailadrodd (yn ormodol) manylion sydd mewn manau

¹Mae Lot 1 yn cael ei harwain gan Brifysgol Glyndŵr (Wrecsam); mae Lot 3 yn cael ei harwain gan Figure 8 Consultancy Services Ltd (Dundee); ac mae Lot 4 yn cael ei harwain gan Brifysgol De Cymru.

eraill, gan ganolbwyntio yn hytrach ar y prif ddysgu tra'n cyfeirio at y llwybr tystiolaeth presennol.

Nodau ac Amcanion

- 1.5 Adroddiad interim yw hwn ac o'r herwydd nid yw'n darparu unrhyw negeseuon am gasgliadau penodol am effaith gyffredinol polisi MPA Cymru. Bydd hyn yn cael ei gyfyngu i'r adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi ddechrau 2024. Mae'r gwaith o werthuso MPA yng Nghymru, yn ogystal â'r gwerthusiad mwy sylweddol o'r Isafbris Uned (MUP) yn yr Alban, yn parhau i fynd rhagddo. Bwriad yr adroddiad hwn yw tynnu sylw at yr hyn sy'n ymddangos sy'n dod i'r amlwg hyd yma.
- 1.6 Nodau cyffredinol yr astudiaeth Dadansoddi Cyfraniad yw: asesu'r cyfraniad (os o gwbl) y mae cyflwyno MPA yng Nghymru wedi'i wneud i unrhyw newidiadau (mesuradwy a gweladwy) mewn canlyniadau ymddygiadol, yfed a manwerthu sy'n gysylltiedig ag alcohol. Wrth wneud hynny, rhoddwyd sylw i'r amcanion canlynol:
- Mireinio a gwerthuso cyfraniad yn erbyn Damcaniaeth Newid.
 - Darparu gwerthusiad synthesis o werthusiadau penodol eraill o MPA yng Nghymru.
 - Dadansoddi llenyddiaeth ehangach, setiau data eraill yng Nghymru a gwerthusiadau awdurdodaethol (yr Alban yn benodol).
 - Casglu data sylfaenol penodol ychwanegol i roi cyfrif am gyfraniadau ac esboniadau posibl eraill.
- 1.7 Dylid nodi ei fod, fel adroddiad synthesis cyffredinol, yn coladu negeseuon ar draws y boblogaeth gyfan, ac felly'n archwilio ystyriaethau ar gyfer y boblogaeth gyffredinol, yfwyr cymedrol, peryglus, niweidiol, yfwyr sy'n chwilio am driniaeth ac yfwyr dibynnol. Mae gweddill yr adroddiad yn dadansoddi'r diffiniadau hyn a'r effeithiau posibl ar bob grŵp yn fwy manwl.

laith (labeli a disgrifyddion)

- 1.8 Drwy'r adroddiad hwn, mae'r term Isafbris am Alcohol (MPA) yn cael ei ddefnyddio'n gyson mewn dau gyd-destun:

- fel yr ymadrodd cyffredinol i gofnodi'r holl wahanol ddulliau polisi rhyngwladol o weithredu isafbris am alcohol, a
- lle mae'n cyfeirio'n benodol at bolisi Llywodraeth Cymru.

1.9 Mae'r term Isafbris am Alcohol (MUP) yn cael ei ddefnyddio'n gyson mewn dau gyd-destun:

- wrth ystyried yn benodol bod y mecanwaith pris fesul uned yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o weithredu MPA; a
- lle mae'n cyfeirio'n benodol at bolisi Llywodraeth Yr Alban.

1.10 Yn fwy cyffredinol, mae'r adroddiad hwn yn mabwysiadu agwedd sensitif at yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio'r rheini sy'n yfed alcohol. Mae hyn yn gyson â'r angen am hynny, fel y nodwyd mewn gwerthusiad polisi blaenorol gan Lywodraeth Cymru². Wrth wneud hynny mae'n:

- osgoi defnyddio termau y gellir eu hystyried yn wahaniaethol neu'n stigmatiddio, yn benodol alcoholig neu adict/dibyniaeth;
- mabwysiadu'r term 'yfwyr/yfwyr' i ddynodi unrhyw un sydd wedi yfed alcohol yn y flwyddyn ddiwethaf, ni waeth faint a yfwyd;
- gyson ag ymchwilwyr eraill, mae'n defnyddio'r termau cymedrol, peryglus, niweidiol a dibynnol (yfed), yn y ffordd y maent yn cyd-fynd yn fras â sgoriau AUDIT, ac yn cael eu diffinio ar sail sgoriau AUDIT³; a
- mae'n fwriadol yn ei ddefnydd i wahaniaethu rhwng yfwyr niweidiol, yn aml y rheini sy'n mynd y tu hwnt i lefelau yfed a argymhellir gan y llywodraeth, a'r rhai sydd naill ai'n ddibynnol neu'n ceisio/yn derbyn gwasanaethau trin alcohol arbenigol.

Strwythur yr adroddiad

1.11 Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf o ddau adroddiad a gynhyrchir mewn perthynas â'r prosiect hwn⁴. Mae wedi'i rhannu'n un ar ddeg o benoda, sydd wedi'u nodi yn **Nhabl 1.1** isod, ac mae pob un ohonynt yn ystyried ystyriaeth dystiolaethol wahanol y gellir ei hystyried yn berthnasol i ddeall y cyfraniad y

² [Adolygiad o Gweithio Gyda'n Gilydd I Leihau Niwed Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau 2008 I 2018 LLYW CYMRU](#)

³ [AUDIT : the Alcohol Use Disorders Identification Test : guidelines for use in primary health care \(who.int\)](#)

⁴Yr ail yw ein hadroddiad terfynol, a bydd yn cael ei gynhyrchu ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei rhoi ar waith, a bydd yn cael ei gyflwyno ar ffurf drafft yng ngwanwyn 2024.

mae MPA wedi'i achosi yng Nghymru ar ganlyniadau ymddygiadol, yfed a manwerthu sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Tabl 1.1: Cynnwys penodau'r adroddiad

Pennod	Disgrifiad o'r cynnwys
Pennod 2	Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer MPA yng Nghymru. Mae'n ystyried yr esblygiad polisi penodol yng Nghymru yn ogystal â'r daith ehangach o brisio ar gyfer polisïau alcohol yn rhyngwladol. Wrth wneud hynny, mae'n cyflwyno'r prif fodel theori newid sy'n sail i'r dulliau gweithredu hyn.
Pennod 3	Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r fethodoleg dadansoddi cyfraniad sydd wedi cael ei defnyddio i ddatblygu ein dull synthesis.
Pennod 4	Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r negeseuon allweddol o'r lluo o adolygiadau llenyddiaeth sydd ar gael ar isafswm prisiau. Wrth wneud hynny, mae'n crynhoi ac yn cyfeirio at y prif adroddiadau cryno ar lenyddiaeth, gan gynnwys yr hyn sydd wedi cael ei ddefnyddio yn arfarniadau Cymru a'r Alban.
Pennod 5	Mae'r bennod hon yn edrych ar y fframwaith cyffredinol a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad polisi cyfan. Mae'n adeiladu ar bennod 2 i roi dealltwriaeth o'r theori newid sydd wedi dilysu'r dadleuon dros isafswm prisiau. Mae wedyn yn amlinellu sut rydym wedi datblygu model rhesymeg manwl i nodi'r nifer helaeth o ystyriaethau yn hyn o beth. Mae'n cloi drwy gynnig manylion y model rhesymeg hwnnw.
Pennod 6	Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r gwersi sydd wedi cael eu dysgu hyd yma yng Nghymru drwy gyfuniad o'r tri gwerthusiad pwrpasol arall a gomisiynwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.
Pennod 7	Mae'r bennod hon yn crynhoi amrywiaeth o negeseuon sydd ar gael o setiau data allweddol penodol yng Nghymru, gan gynnwys y rheini sy'n edrych ar yfed alcohol, marwolaeth o ganlyniad i alcohol, derbyniadau i'r ysbyty a data troseddau.
Pennod 8	Mae'r bennod hon yn edrych ar amrywiaeth o ffactorau eraill y mae'n rhaid eu hystyried wrth geisio deall y sefyllfa gyd-destunol ehangach gymhleth y mae MPA yn cael ei gwerthuso ynddi. Mae llawer o'r rhain yn cynnig cyfraniadau eraill posibl ar gyfer patrymau yfed alcohol.
Pennod 9	Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r negeseuon sy'n deillio o gynnal rhai cyfweiliadau penodol gyda rhanddeiliaid allweddol. Mae'r cyfweiliadau/negeseuon hyn yn rhoi sylw penodol i unrhyw negeseuon ychwanegol nad ydynt o reidrwydd yn cael eu cyfleu drwy'r tair astudiaeth ymchwil arall a gomisiynwyd.

Pennod 10 Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r gwersi sydd wedi cael eu dysgu hyd yma o werthusiad yr Alban o'r MUP.

Pennod 11 Mae'r bennod hon yn bennod drafod lle deuir â'r llinynnau a'r casgliadau at ei gilydd o'r penodau blaenorol.

Pennod 12 Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r negeseuon sy'n dod i'r amlwg a'r argymhellion cynnar.

2. Cefndir a chyd-destun

2.1 Mae'r cefndir ar gyfer cyflwyno polisi isafbris am alcohol (MPA) gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei nodi'n fanwl mewn nifer o adroddiadau blaenorol⁵. Mae'r bennod hon yn crynhoi cyd-destunau cyfreithiol a pholisi'r polisi ac yn egluro datblygiadau yng Nghymru. Daw'r bennod i ben drwy gyflwyno'r fframwaith allweddol neu'r model damcaniaeth newid sy'n sail i ddulliau gweithredu o ran MPA.

Datblygiad polisi

2.2 Mae isafbris am alcohol wedi dod yn ymateb polisi sydd wedi'i sefydlu fwyfwy ledled y byd. Mae'n rhan o amrywiaeth o fframweithiau polisi sy'n ceisio rheoleiddio marchnad gyfreithiol a mynd i'r afael â'r niwed hysbys a achosir gan ddefnyddio gormod o alcohol.

Polisiau alcohol cyffredinol a rôl prisio

2.3 Mae'r defnydd o alcohol yn cael ei wau i lawer o wead diwylliannol a chymdeithasol Cymru. I lawer, gall fod yn ddiniwed i raddau helaeth, ac mae mannau sy'n gwerthu alcohol (fel tafarndai) yn darparu llawer o'u cysylltiadau economaidd a chymdeithasol i lawer o bobl. Fodd bynnag, mae'r niwed sy'n aml yn gysylltiedig â defnyddio gormod o alcohol yn glir, a gall unigolion, teuluoedd, cymunedau a'r gymdeithas ehangach ei brofi. Y niwed hwn sy'n arwain llywodraethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ddatblygu polisiau iechyd y cyhoedd ar alcohol, gyda'r nod o leihau'r defnydd niweidiol o alcohol⁶.

2.4 Mae rheoli fforddiadwyedd alcohol yn cael ei ystyried yn un o elfennau effeithiol allweddol polisi alcohol llwyddiannus⁷. Gellir ystyried mai'r tair elfen allweddol arall yw argaeledd, marchnata a gwleidyddiaeth⁸. Tra bod

⁵ [Ymchwil i'r potensial ar gyfer newid sylweddau ar ôl cyflwyno isafswm prisio ar gyfer alcohol yng Nghymru: Asesu effaith isafbris am alcohol ar boblogaeth ehangach o yfyrwr: gwaelodlin](#)

⁶ [Livingston 2022 Minimum pricing – what can we say so far?](#)

⁷ [Burton et al 2017 A rapid evidence review of the effectiveness and cost-effectiveness of alcohol control policies:](#)

⁸ [About Us « UK-Ireland Alcohol Research Network \(Acorn\) \(alcoholresearch-uk-irl.net\)](#)

fforddiadwyedd yn canolbwyntio ar bris, mae argaeledd yn ystyried ble a phryd y gellir gwerthu alcohol, h.y. rheolaeth ar drwyddedu ac amgylcheddau adwerthu. Mae dulliau marchnata yn rhoi sylw penodol i rôl hysbysebu a hyrwyddo a'i effaith ar annog pobl i yfed alcohol. Mae gwleidyddiaeth yn gysylltiedig â gweithgarwch agendâu economaidd a chymdeithasol ehangach.

- 2.5 Mae polisi alcohol cyfannol effeithiol yn debygol o gynnwys cyfuniad o weithgareddau yn erbyn pob un o'r pedwar maes hyn. Er enghraifft, mae biliau deddfwriaethol lechyd y Cyhoedd [Alcohol] Llywodraeth Iwerddon a'r Alban yn cynnwys nid yn unig bolisi ar isafbris alcohol ond hefyd mesurau i effeithio ar argaeledd a marchnata alcohol.
- 2.6 Mae llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes yn edrych ar faterion yn ymwneud ag argaeledd, marchnata a phris (gweler **Atodiad 1.1, 1.2 ac 1.3**). Mae gwerthuso effeithiolrwydd, fel y modelu a nodir ym **Mhenodau 4 a 5**, yn tueddu i gael ei ddominyddu gan nifer o grwpiau arbenigol, ac ysgolion o academyddion sydd ag arbenigedd yn y meysydd penodol hyn. Mae datganiadau cryno yn y tablau yn yr atodiadau hyn yn amlygu'n gyson mai un o'r camau gweithredu mwyaf effeithiol sydd ar gael i lywodraethau i ddylanwadu ar yfed alcohol yw rheoli pris ac felly ei fforddiadwyedd.
- 2.7 Gall MPA ddigwydd ar sawl ffurf. Gall y rhain gynnwys dulliau isafswm uned (MUP), ond gallant hefyd gynnwys polisïau sy'n canolbwyntio ar drethu alcohol, gwahardd gwerthu alcohol o dan y gost cynhyrchu, neu dargedu cynhyrchion penodol. Mae gwahanol amrywiadau o MPA wedi cael eu cyflwyno ledled y byd (gweler adran **2.21-2.12** isod). Mae'r rhain yn tueddu i fod yn bolisïau poblogaeth gyfan, h.y. maent yn effeithio ar bawb sy'n prynu (defnyddio) alcohol, er y gallent gael effeithiau gwahaniaethol ar wahanol is-grwpiau o'r boblogaeth. Efallai fod rhai Llywodraethau wedi bwriadu targedu poblogaethau penodol o fewn y cyfan, yn dibynnu ar y dull prisio a fabwysiadwyd ganddynt.
- 2.8 Gall polisïau nad ydynt yn benodol yn bwriadu targedu'r defnydd o alcohol effeithio ar ei ddefnydd. Gallai hyn gynnwys polisi economaidd a

chymdeithasol ehangach gwlad. Gellir rhoi sylw i yfed alcohol mewn datblygiadau polisi iechyd a gofal cymdeithasol cysylltiedig.

2.9 Yng Nghymru, er enghraifft, mae alcohol, ac yn benodol delio â rhai o ganlyniadau yfed mwy parhaus, yn cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru, yn enwedig y ddwy ddeddfwriaeth allweddol, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014 a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol [Cymru] 2016. Mae'n bosibl y dylanwadir ar yfed alcohol hefyd gan ddulliau gweithredu sydd wedi'u cynnwys mewn polisïau ehangach ar gamddefnyddio sylweddau y gallai gwlad eu datblygu. Er enghraifft, mae strategaethau camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru⁹ yn dylanwadu ar y gwasanaethau y gallai asiantaethau penodol eu datblygu i fynd i'r afael ag ymddygiad sy'n gysylltiedig â defnydd niweidiol o alcohol.

2.10 Amlinellwyd strategaeth camddefnyddio sylweddau ddiweddaraf Llywodraeth Cymru yn y ddogfen *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed (2008-2018)*¹⁰. Yn fwy diweddar, ac yn cyd-fynd â'i dull llesiant a chenedlaethau'r dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael cynlluniau cyflawni penodol sy'n rhan o'r dulliau strategol cymunedol, atal a phartneriaeth ehangach hyn. Mae'r cynllun cyflawni presennol ar gamddefnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol) ar gyfer 2019-2022¹¹. Mae hyn yn adeiladu ar y strategaeth flaenorol ar gyfer 2008-2018 ac mae'n cynnwys pum nod cyffredinol:

- atal niwed;
- cefnogaeth i unigolion;
- cefnogi ac amddiffyn teuluoedd;
- cymunedau; a
- phartneriaethau cryfach.

⁹Mae strategaethau Llywodraeth Cymru yn parhau i gael eu henwi ac yn cyfeirio at gamddefnyddio yn hytrach na defnyddio, er gwaethaf yr argymhellad ar t81

⁹ [Livingston et al 2018 Adolygiad o Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau:](#)

¹⁰ [Livingston et al 2018 Adolygiad o Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau](#)

¹¹ [Cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2019 i 2022](#) (Noder, cafodd hwn ei ddiweddarau mewn ymateb i COVID-19).

2.11 Mae'r ddau ddull polisi gwahanol, sy'n gorgyffwrdd, mewn ymateb i'r defnydd o alcohol, yn cael eu dangos ochr yn ochr â'i gilydd yn **Nhabl 2.1** isod.

Tabl 2.1: Cymharu dulliau polisi camddefnyddio alcohol a sylweddau

Thema Polisi Alcohol	Ystyriaethau (Poblogaethau cyfan a phenodol, pob cynnyrch alcohol a chynnyrch alcohol penodol)	Thema'r strategaeth ar gyfer defnyddio sylweddau	Ystyriaethau (Alcohol a chyffuriau anneddfol, anghyfreithlon, cyfreithlon a chyffuriau eraill ar bresgripsiwn)
Argaeledd	<ul style="list-style-type: none"> • Trwyddedu, h.y. pwy, ble a phryd y gellir gwerthu alcohol • Dwysedd manau gwerthu, h.y. nifer y manwerthwyr mewn unrhyw gymuned 	Argaeledd	<ul style="list-style-type: none"> • Gwerthu dan oed
Marchnata	<ul style="list-style-type: none"> • Hysbysebu • Arddangos cynnyrch, h.y. lle mewn gofod manwerthu 	Atal	<ul style="list-style-type: none"> • Hybu Iechyd • Lleihau Niwed • Ymyriadau Byr
Pris	<ul style="list-style-type: none"> • Isafbris • Hyrwyddiadau sy'n sensitif i brisiau, h.y. 'Oriau Hapus' • Disgownt Cynnyrch Lluosog, h.y. prynu dau am werth un 	Triniaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Rhagnodi Cymunedol • Dadwenwyno (cleifion mewnol a chymunedol) • Ailsefydlu mewn Cyfleusterau Preswyl
Gwleidyddiaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Cyd-destun economaidd, gan gynnwys anghydraddoldebau, twristiaeth ac ati • Rôl Diwydiant • Rôl gymdeithasol a diwylliannol alcohol 	Cymunedau	<ul style="list-style-type: none"> • Dosbarthiad ar y farchnad anghyfreithlon/gorfodaeth • Trwyddedu • Safonau masnach • Economi'r Nos

MPA yng Nghymru

2.12 Mae deddfwriaeth MPA Llywodraeth Cymru yn ymwneud â fforddiadwyedd yn unig¹². Mae hyn yn adlewyrchu rhywfaint o natur gyfyngedig pwerau'r

¹²Cafwyd sgyrsiau yn 2014 ynghylch cynnwys isafswm prisiau ym mil iechyd y cyhoedd ehangach Llywodraeth Cymru, ond penderfynwyd tynnu'r MPA a setlo ar fil ar wahân. Roedd y ffaith bod y mesur penodol wedi'i gyfyngu i bris yn hytrach na chynnwys, dyweder, amcanion iechyd y cyhoedd mewn amodau trwyddedu, yn adlewyrchu terfynau datganoli (gweler **Pennod 9** ac **Atodiad 1.2**).

Llywodraeth ddatganoledig yng Nghaerdydd, h.y. bod ganddynt gyfrifoldeb datganoledig dros bolisi iechyd y cyhoedd, ond bod llawer o'r rheolaeth ddeddfwriaethol dros faterion sy'n ymwneud â hysbysebu, trwyddedu a threthu alcohol yn dal i fod dan reolaeth llywodraeth y DU (y Deyrnas Unedig) ar lefel senedd San Steffan. Yn y pen draw, roedd amseriad Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), ochr yn ochr â'r dystiolaeth ryngwladol gynyddol a thaith yr Alban, yn benodol i sefydlu Deddf Cymru 2017, lle'r oedd y datgysylltiad a ddiffiniwyd rhwng Caerdydd a San Steffan yn awgrymu na fyddai Deddf Cymru 2017 ar MPA ar ôl y dyddiad hwn yn bosibl, mae'n debyg¹³¹⁴.

Datblygu polisi MPA Cymru

- 2.13 Roedd cyflwyno polisi MPA yng Nghymru yn destun tri cham ymgynghori:
- yn gyntaf yn 2014 fel rhan o'r Papur Gwyn ar Iechyd y Cyhoedd¹⁵;
 - yn ail yn 2015 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) drafft¹⁶; a
 - yn olaf, yn 2018, ymgynghoriad ar reoliadau drafft yn nodi'r lefel a ffafrir ar gyfer MUP o 50ppu¹⁷.
- 2.14 Wrth bennu pris o 50pcu, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei pholisi i *'dargedu yfed alcohol ymysg yfwyr peryglus a niweidiol, gyda'r nod o sicrhau mwy o fanteision iechyd i'r rheini sydd fwyaf mewn perygl, gan ystyried yr effeithiau ar yfwyr cymedrol ac ymyriant yn y farchnad'*¹⁸. Wrth benderfynu ar y lefel 50ppu, roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn ymwybodol o'r dadleuon hirsefydlog a'r ystyriaethau terfynol brwydr gyfreithiol Llywodraeth yr Alban i sefydlu dilysrwydd ei pholisi MUP (50ppu).
- 2.15 Dylid nodi mai peryglus a niweidiol yw'r ddau gategori canol o yfwyr yn y pedwar categori sy'n gysylltiedig ag AUDIT. Maent rhwng a) yfwyr cymedrol nad yw eu hyfed yn cael ei ystyried yn beryglus, a b) yfwyr dibynnol yr ystyrir bod eu hyfed yn arbennig o nychus ac yn arwain at anghenion triniaeth ar

¹³ [Livingston et al 2021 Perceptions of substance switching and implementation of minimum pricing](#)

¹⁴ [Lesch and McCambridge 2021 Policy communities, devolution and policy transfer:online.com](#).

¹⁵ [Datganiad Ysgrifenedig - Lansio ymgynghoriad Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd](#)

¹⁶ [Bil drafft Iechyd y Cyhoedd \(Isafbris Alcohol\) | LLYW.CYMRU](#)

¹⁷ [Dogfen Ymgynghori-mup_0.pdf \(gov.wales\)](#)

¹⁸ [Datganiad Ysgrifenedig - Bil Iechyd y Cyhoedd \(Isafbris am Alcohol\) \(Cymru\) \(23 Hydref 2017\) | LLYW.CYMRU](#)

unwaith. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru, o ran datblygu ei pholisi MPA, yn targedu'r grwpiau hyn, gan ystyried y rheini a oedd yn 2017 yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir gan y DU, sef 14 uned yr wythnos (gweler **Pennod 7**).

- 2.16 Roedd camau datblygu polisi Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys gweithio gyda Grŵp Ymchwil Alcohol Prifysgol Sheffield (SARG) i ddadansoddi amrywiol effeithiau modelau cyflwyno isafbris uned ar wahanol lefelau yng Nghymru¹⁹. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ar 22ain Chwefror 2018. Roedd y gwaith modelu a wnaed gan Brifysgol Sheffield yn amcangyfrif y byddai angen cynnydd mawr yn y dreth alcohol er mwyn cyflawni'r un effeithiau ag Isafbris Uned o 50pcu. Yn bwysig, roedd hefyd yn amcangyfrif y byddai'r gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol yn is o dan y codiadau cyfatebol hynny mewn treth²⁰.
- 2.17 Cafodd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) ei basio drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2018 a chafodd Gydsyniad Brenhinol, gan ddod yn Ddeddf, ar 9 Awst 2018. Gosododd isafbris am alcohol yn seiliedig ar bris uned alcohol o 50ppu. Daeth y ddeddfwriaeth i rym ar 2 Mawrth 2020.

MPA yn y DU

- 2.18 Yn y DU, dim ond Cymru a'r Alban sydd â pholisi isafbris am alcohol. Ers 2022 mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi bod yn cynnal ymgynghoriad ar Isafbris Uned ar gyfer Alcohol²¹. Ar ben hynny, mae Llywodraeth San Steffan drwy bolisi trwyddedu wedi gweithredu gwaharddiad ers 2014 ar werthu alcohol sy'n is na lefel y dreth alcohol a TAW (Treth ar Werth). Beth bynnag am hynny, mae llywodraeth San Steffan wedi nodi nad oes '*unrhyw gynlluniau i gyflwyno MUP yn Lloegr*', er y byddai'n parhau i fonitro cynnydd MUP yn Yr Alban ac yn ystyried tystiolaeth

¹⁹ [Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisiâu Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: adroddiad terfynol \(llyw.cymru\)](#)

²⁰ [Datganiad Ysgrifenedig - Bil Iechyd y Cyhoedd \(Isafbris am Alcohol\) \(Cymru\) \(23 Hydref 2017\) | LLYW.CYMRU](#)

²¹ [Consultation on Minimum Unit Pricing of Alcohol in NI | Department of Health \(health-ni.gov.uk\)](#)

am ei effaith.²² Trafodir ymhellach y drafodaeth ar rôl treth a tholl gartref, a newidiadau diweddar yn 2022 ym **Mhennod 8**.

2.19 Oherwydd y pwerau deddfwriaethol mwy helaeth a gedwir gan senedd yr Alban, mae iechyd y cyhoedd, trwyddedu a phwerau eraill wedi'u datganoli'n llawnach yn yr Alban nag yng Nghymru. Pasiodd Llywodraeth yr Alban Ddeddf Alcohol (Isafbris) yr Alban yn 2012. Gweithredwyd rhai elfennau polisi'r ddeddf, o ran argaeledd a marchnata, yn gyflym. Fodd bynnag, bu oedi sylweddol wrth weithredu'r elfen Isafswm Pris Uned yn dilyn her gyfreithiol aflwyddiannus gan y Scottish Whisky Association (gweler **Pennod 8** am archwiliad ehangach o gyfraniad y diwydiant alcohol at bolisi alcohol a phrisiau alcohol yn benodol). Yn y pen draw, cyflwynodd yr Alban isafbris uned o 50c ar 1 Mai 2018.

2.20 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi cynnal ymgynghoriad estynedig ar gyflwyno MUP o 50ppu²³. Mae hyn yn cyd-fynd â'r lefelau prisiau a gyflwynwyd yng Nghymru a'r Alban yn hytrach na phris Eire (Gweriniaeth Iwerddon) sy'n uwch. Mae gan hyn rai goblygiadau ar gyfer gweithgarwch trawsffiniol, a) gwahaniaeth pris uwch o bosibl na'r goblygiadau ar gyfer gweithgarwch trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr, a b) lle mae gweithgarwch trawsffiniol arall yn ymwneud â chyfleoedd ar ôl Brexit.

MPA yn fyd-eang

2.21 Yn agos at Gymru, mae Eire (Gweriniaeth Iwerddon) bellach wedi dod y drydedd wlad yn y byd ar ôl i Gymru a'r Alban gyflwyno polisi isafbris ar gyfer y wlad gyfan. Daeth hyn i rym ym mis Ionawr 2022. Roedd yn debyg i ddull gweithredu'r Alban o ran ei fod wedi'i wreiddio mewn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Alcohol)²⁴ ehangach a chafodd ei lofnodi mewn cyfraith yn 2018. Mae'n ddull sy'n mynd i'r afael ag argaeledd, marchnata, yn ogystal â phris, ac mae'n cynnwys rheoli gwerthu, hyrwyddo, pris a labelu alcohol. Mae pris Iwerddon yn cael ei gyfrifo'n wahanol i Gymru a'r Alban (h.y. fesul gram o alcohol yn hytrach nag mewn unedau), ac mae'n cael ei gyfrifo'n wahanol yn

²² [Alcohol: minimum pricing \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk)

²³ [Extension of Consultation on Minimum Unit Pricing for Alcohol | Department of Health \(health-ni.gov.uk\)](https://www.health-ni.gov.uk)

²⁴ [Public Health \(Alcohol\) Act 2018 \(irishstatutebook.ie\)](https://www.irishstatutebook.ie)


arian cyfred yr Ewro (€1 ar gyfer uned o alcohol 10g) ac mae'n cyfateb yn fras i 70c yr uned²⁵ (ar adeg ysgrifennu, gan ei fod yn dibynnu ar gyfradd gyfnewid gyfnewidiol).

- 2.22 Mae isafbris [unedau] ar gyfer alcohol wedi cael ei ddefnyddio mewn cyd-destunau penodol llai mewn taleithiau, yn enwedig yn Awstralia a Chanada. Mae isafbris am alcohol drwy fecanweithiau eraill wedi cael ei fabwysiadu mewn mannau eraill. Er enghraifft, mae Uzbekistan yn gwahardd gwerthu rhatach na chost (gwerthu am bris sy'n llai na'r gost cynhyrchu) ac mae gan Belarws, Rwsia, Wcráin a Moldofa lefelau gwahanol o isafbris yn dibynnu ar y math o alcohol (h.y. cwrw, gwin, gwirodydd)²⁶.

Damcaniaeth Newid Cyffredinol ar gyfer polisiau priso a Man Cychwyn Llywodraeth Cymru

- 2.23 Mae polisiau isafbris am alcohol yn seiliedig ar ddamcaniaeth newid syml. Yn greiddiol i hyn y mae'r cynnig canlynol:

Ffigur 2.1: Damcaniaeth Newid Sylfaenol ar gyfer polisiau isafbris am alcohol



- 2.24 Mae'r fformiwla graidd hon yn cael ei throsi'n aml yn ddamcaniaeth newid ddiagramatig un dudalen Mae'r ddamcaniaeth newid gyda chamau gweithredu, allbynnau a chanlyniadau tybiedig, wedyn yn dod yn fframwaith craidd ar gyfer unrhyw werthusiad²⁷. Yn y cyd-destun hwn, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei damcaniaeth newid gychwynol ar gyfer MPA, yn gyntaf yn ystod camau craffu'r bil²⁸, ac yna ar ffurf ddiwygiedig drwy lythyr ffurfiol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol

²⁵ [First Results of Alcohol Minimum Unit Pricing in Ireland - Movendi International](#)

²⁶ [Livingston et al 2021 Perceptions of substance switching and implementation of minimum pricing](#)

²⁷ [The evaluation of Minimum Unit Pricing \(MUP\) for alcohol: Summary \(healthscotland.scot\)](#)

²⁸ [Letter from the Cabinet Secretary for Health and Social Services to the Chair of the Health Social .pdf \(senedd.wales\)](#)

a Chwaraeon ym mis Rhagfyr 2018²⁹ (gweler **Ffigur 2.2** isod, a *gynhyrchwyd gennym wrth iddo gael ei gyhoeddi, gan gynnwys ei ddefnydd o MUP yn hytrach nag MPA*).


- 2.25 At ddibenion yr adroddiad interim hwn, mae'r awduron wedi trosi'r man cychwyn hwn yn fframwaith gwerthuso cyffredinol mwy cynhwysfawr sy'n cynnwys damcaniaeth newid mwy datblygedig gyda modelau rhesymeg cysylltiedig. Mae hyn yn gyson â'r fethodoleg dadansoddi cyfraniadau y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio i werthuso MPA yng Nghymru. Mae'r fethodoleg hon wedi'i hamlinellu ym **Mhennod 3** ac mae manylion ynghylch sut rydym wedi esblygu'r fframwaith gwerthuso i'w gweld ym **Mhennod 5**. Mae'r fersiynau a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru a'n gwerthusiad dilynol yn debyg iawn i'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer gwerthusiad yr Alban o'r Isafswm Pris Uned (gweler **Penodau 5 a 10**).

²⁹ [Llythyr gan Lywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon f \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru)

Ffigur 2.2: Damcaniaeth Newid gychwynnol Llywodraeth Cymru - MUP Cymru

(Dangosir astudiaethau presennol mewn mannau eraill ac astudiaethau ychwanegol posibl i'w comisiynu)

NODER: Testun mewn coch yn amlinellu gwaith i ystyried ei gomisiynu. Astudiaeth Albanaid yw'r testun mewn glas.



3. Methodoleg

Crynodeb

- Dadansoddi Cyfraniad oedd y dull methodolegol a ddewiswyd gan Lywodraeth Cymru yn y broses gomisiynu.
- Mae'r dull hwn wedi cael ei fabwysiadu'n flaenorol gan Lywodraeth Cymru a'r tîm ymchwil i werthuso polisïau eraill ar gamddefnyddio alcohol a sylweddau eraill.
- Mae'r dull wedi'i gynllunio'n benodol i edrych ar werthuso systemau cymhleth, lle mae nifer o weithredwyr, camau gweithredu ac allbynnau i'w hystyried.
- Mae gan y dull methodolegol gamau, ac mae'r rhain yn gorgyffwrdd cymaint ag y maent yn llinol. Mae'r gwerthusiad cyffredinol o'r MPA yng Nghymru yn broses barhaus sy'n defnyddio nifer o ystyriaethau dilyniannol ac sy'n gorgyffwrdd (ffynonellau data).

Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o fethodoleg Dadansoddi Cyfraniad.
- 3.2 Mae'n fethodoleg werthuso a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y comisiwn penodol hwn ac mae'n cael ei defnyddio gan Lywodraeth yr Alban i werthuso ei pholisi MUP (gweler **Pennod 10**). Mae Llywodraeth Cymru, a thîm ymchwil yr adroddiad hwn, wedi mabwysiadu dull Dadansoddi Cyfraniad o'r blaen ar gyfer gwerthusiad blaenorol o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gamddefnyddio sylweddau³⁰.
- 3.3 Mae Dadansoddi Cyfraniad ymhlith grŵp o fethodolegau gwerthuso sy'n cynnig cyfuniad o elfennau realidd a damcaniaethol ac a ddefnyddir yn aml

³⁰ [Adolygiad o Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau, 2008 i 2018 LLYW.CYMRU](#)

wrth werthuso systemau newid mwy cymhleth sy'n cynnwys gwahanol actorion a gweithredoedd uniongyrchol ac anuniongyrchol.³¹

Dadansoddiad Cyfraniad: Camau'r broses werthuso

- 3.4 Mae Dadansoddiad Cyfraniad yn mabwysiadu'r camau canlynol³²:
- (i) Nodi'r broblem achos-ffaith (neu'r broblem priodoli) y dylid rhoi sylw iddi.
 - (ii) Datblygu'r ddamcaniaeth newid a bennwyd, a'r risgiau iddi.
 - (iii) Casglu'r dystiolaeth bresennol ar y ddamcaniaeth newid.
 - (iv) Casglu ac asesu'r stori cyfraniad, a'r heriau iddi.
 - (v) Ceisio tystiolaeth ychwanegol.
 - (vi) Adolygu a chryfhau'r stori cyfraniad.
- 3.5 Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod y gwerthusiad yn defnyddio'r rhagosodiad craidd, y rhagdybiaeth, neu'r ddamcaniaeth newid fel man cychwyn neu sgaffald ar gyfer yr astudiaeth. Yn yr achos hwn, y rhagdybiaeth/tybiaeth graidd yw y canfyddiad presennol o niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio gormod o alcohol, a'r ddadl y gellir lleihau hynny drwy gynyddu pris sy'n arwain at lai o ddefnydd.
- 3.6 Nod y gwerthusiad yn y pen draw yw gwneud rhai honiadau credadwy am ganlyniad y gweithgareddau cysylltiedig. Mae'r honiadau o hygredd yn deillio o:
- tystiolaeth bod gweithgareddau wedi'u cynllunio wedi digwydd mewn gwirionedd (h.y. polisi wedi'i roi ar waith a'i ddilyn);
 - dadansoddi canlyniadau disgwylidig (ac annisgwyl) (h.y. y ffynonellau data lluosog); ac
 - adroddiadau am ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar y canlyniadau a welwyd (h.y. yn yr achos hwn, beth arall allai fod yn gyfrifol am y cynnydd mewn prisiau a newidiadau mewn ymddygiad ac yfed sy'n gysylltiedig ag alcohol).

³¹ [Livingston et al 2020 The potential of contribution analysis to alcohol and drug policy](#)

³² Mayne, J. (2011). *Contribution analysis: Addressing cause and effect*. Yn: R. Schwartz, K. Forss, & M. Marra (Eds.), *Evaluating the complex* (pp. 53–96). New Brunswick, NJ: Transaction Publishers.

Y prif weithgareddau a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn

- 3.7 Mae **Tabl 3.1** isod yn rhoi crynodeb o'r prif weithgareddau a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn erbyn y chwe cham craidd uchod o Ddadansoddi Cyfraniad.

Tabl 3.1 Gweithgareddau a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn

Camau'r model proses	Prif weithgareddau'r gwerthusiad hwn
1. Nodi'r broblem achos- effaith (neu'r broblem priodoli) y dylid rhoi sylw iddi.	<ul style="list-style-type: none">• Mabwysiadu ac addasu modelau prisiau isaf a'u Damcaniaethau Newid a Modelau Rhesymeg cysylltiedig (Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, a Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield³³).
2. Datblygu'r ddamcaniaeth newid a bennwyd, a'r risgiau iddi.	<ul style="list-style-type: none">• Nodi rhagdybiaethau a risgiau sy'n gynhenid yn y gwaith modelu, ac yn enwedig y cyd-destun a'r fersiwn Gymreig ar gyfer hynny.
3. Casglu'r dystiolaeth bresennol ar y ddamcaniaeth newid.	<ul style="list-style-type: none">• Syntheseiddio chwiliadau llenyddiaeth presennol ar bolisi alcohol a'r isafswm prisiau.• Crynhoi astudiaethau prisiau blaenorol sydd wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi, gan gynnwys y rheini yn yr Alban.
4. Casglu ac asesu'r stori cyfraniad, a'r heriau iddi.	<ul style="list-style-type: none">• Syntheseiddio dadansoddiad o'r gwerthusiadau o MPA yng Nghymru sydd wedi'u cwblhau a rhai sy'n mynd rhagddynt.• Archwilio setiau data cysylltiedig eraill yng Nghymru.• Talu sylw i ymddygiadau cadarnhaol ac amgen ac esboniadau.
5. Ceisio tystiolaeth ychwanegol.	<ul style="list-style-type: none">• Cynnal rhai cyfweiliadau ansoddol sylfaenol newydd ychwanegol gyda rhanddeiliaid allweddol.
6. Adolygu a chryfhau'r stori cyfraniad.	<ul style="list-style-type: none">• Ymgynghori ar y fframwaith adrodd a'i naratif cysylltiedig a'i ddatblygu.

- 3.8 Gan fod gan yr adroddiad hwn sawl pennod, ac mae'n cynnwys canfyddiadau o'r astudiaethau eraill, mae manylion amserlenni, samplau ymchwil a dulliau casglu data wedi'u nodi ym mhob un o'r penodau hynny a'u gwahanol elfennau/astudiaethau. Wedi dweud hynny, o ran

³³ [Sheffield Alcohol Research Group: Publications | SchARR | The University of Sheffield](#)

mabwysiadu'r fethodoleg dadansoddi cyfraniad yn gyffredinol, gellir gwneud y sylwadau canlynol:

- Mae llawer o'r gweithgarwch ar gyfer yr adroddiad hwn wedi'i gwblhau ochr yn ochr â gweithgarwch mewn perthynas â chydrannau eraill y gwerthusiad.
- O ganlyniad i'r tîm ymchwil yn ymwneud â thri o bob pedwar o'r prosiectau hyn, mae wedi bod yn bosibl cael rhybudd ymlaen llaw a thrawsffrwythloni dau o'r prosiectau eraill yn yr adroddiad hwn.
- Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu fersiynau drafft amserol ac adroddiadau terfynol sy'n ymwneud â'r astudiaeth manwerthwyr.
- Mae dau o'r tîm ymchwil (AP a WL) hefyd wedi cyfrannu'n gyfochrog at un o'r prosiectau a oedd yn sail i werthusiad yr Alban. Mae'r profiadau hynny hefyd wedi llywio a thrawsffrwythloni rhywfaint o'r adroddiad hwn.
- Mae casglu data ac ysgrifennu adroddiadau ar gyfer y cam interim hwn wedi bod yn gronnus dros y cyfnod gweithredu cyfan, gyda'r camau olaf yn dwysáu.

3.9 Gellir crynhoi'r ffynonellau data allweddol ar gyfer y gwerthusiad cyffredinol hwn fel a ganlyn:

- (i) llenyddiaeth ryngwladol;
- (ii) gwerthusiadau pwrpasol o MPA Cymru;
- (iii) setiau data allweddol eraill am alcohol yng Nghymru;
- (iv) cyfweiliadau ansoddol sylfaenol newydd pwrpasol; a
- (v) Gwerthusiadau'r Alban o MUP.

3.10 Mae **Pennod 10** yn edrych ar yr angen i roi sylw cyson i werthusiadau'r Alban³⁴.

3.11 Wrth ddadansoddi'r data, mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu mabwysiadu'r hyn y gellir ei ystyried yn ddull ansoddol yn fras. Mae tystiolaeth wedi cael ei harchwilio yn erbyn cyfuniad o bwyntiau cychwyn arfaethedig a dealltwriaethau amgen sy'n dod i'r amlwg. Defnyddiwyd y dull dadansoddol hwn fel fframwaith a oedd yn cynnwys yr ystyriaethau canlynol:

- (i) polisi;
- (ii) gweithredu;
- (iii) newidiadau mewn yfed a phrynu alcohol;

³⁴ [Protocol for the evaluation of Minimum Unit Pricing for alcohol \(healthscotland.scot\)](https://www.healthscotland.scot)

- (iv) ffyrdd eraill o ymdopi ar gyfer fforddiadwyedd;
- (v) ffactorau a dylanwadau allanol; a
- (vi) bylchau yn y dystiolaeth bresennol a'r dystiolaeth newydd.

4. Crynodeb o'r Llenyddiaeth

Crynodeb

- Mae corff cynyddol o lenyddiaeth ryngwladol sy'n cefnogi isafbris am alcohol fel un o'r ffyrdd effeithiol o gyfrannu at leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.
- Mae nifer o adolygiadau o lenyddiaeth polisi prisio alcohol penodol eisoes wedi cael eu cynnal a'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at nifer o negeseuon craidd ynghylch effaith gwahanol lefelau prisiau a newidiadau disgwylidig.

Cyflwyniad

4.1 Dros y degawd diwethaf, mae llawer iawn o lenyddiaeth wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- y gwahanol ffyrdd o effeithio ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, h.y. diogelwch cymunedol, cyfiawnder troseddol, epidemioleg, hybu iechyd, polisi, triniaeth ac ati; a
- y rôl mae prisiau a pholisïau prisiau yn ei chwarae yn y darlun hwn (Gweler **Atodiadau 1.1, 1.2, ac 1.3**).

Mae llawer o'r sylfaen dystiolaeth hon wedi cefnogi dull gweithredu Llywodraeth Cymru a chyfeiriwyd ato i gefnogi'r broses o roi'r ddeddfwriaeth ar waith. Nid yw'r adroddiad hwn yn ailadrodd manylion y dadleuon hynny ond yn hytrach yn darparu:

- crynodeb byr o'r negeseuon allweddol o'r llenyddiaeth a'r disgwyliadau ar gyfer polisïau isafswm prisiau; a
- chyfeiriadau penodol at grynodebau a synthesisau eraill o'r llenyddiaeth, gan gynnwys y rheini'n benodol o fewn naill ai gwerthusiadau blaenorol MPA/MUP Cymru neu'r Alban.

Pris fel mesur polisi effeithiol

- 4.2 Mae polisi alcohol wedi'i seilio ar safbwynt eang sy'n seiliedig ar broblemau ers degawdau lawer, gyda phwyslais yn cael ei roi ar atal a/neu liniaru niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ar draws y boblogaeth³⁵. Fel y nodwyd ym mhennod un, mae ymateb i'r problemau hynny, yn enwedig triniaeth, yn aml wedi cael ei ysgwyddo gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, gan gynnwys dadleuon a strategaethau sy'n ymwneud â defnyddio sylweddau. Mae polisi prasio alcohol yn rhan o drafodaethau lleihau niwed o'r fath yn bennaf. Un o'r adroddiadau mwyaf cynhwysfawr a dylanwadol ar effeithiolrwydd dulliau o'r fath yw adroddiad diweddar iawn 2022 ar werth posibl isafbris gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)³⁶. Maent yn nodi bod polisiau prasio ymysg y mesurau mwyaf effeithiol y gall llunwyr polisi eu defnyddio i fynd i'r afael â niwed alcohol. Mae eu hymchwil yn awgrymu bod cydberthynas gref rhwng gostyngiad mewn defnydd a niwed yn dilyn cyflwyno mesurau isafswm prisiau. Mae'n ymddangos mai'r neges graidd o hyn i Lywodraeth Cymru yw y dylai polisi prasio alcohol fod ymysg un o'r mesurau a gyflwynir i helpu i fynd i'r afael â niwed yfed gormod o alcohol.
- 4.3 Daw'r llenyddiaeth ar gyfer y dystiolaeth o blaid polisi isafswm prisiau mewn tair ffurf graidd: adolygiadau systematig; astudiaethau modelu; a gwerthusiadau o senarios gweithredu yn y byd go iawn. Mae adolygiadau systematig yn tynnu sylw at effeithiolrwydd cryf o ran polisiau sy'n seiliedig ar brisiau alcohol. Mae modelu'n dangos bod effaith neu effeithiolrwydd posibl prisiau yn cynyddu gydag unrhyw gyfradd o gynnydd mewn prisiau.
- 4.4 Mae'n bwysig nodi, fel y nodwyd ym **Mhennod 2**, bod llawer o'r llenyddiaeth hon yn cydnabod, o fewn y gostyngiad posibl hwn mewn yfed cyffredinol o'r boblogaeth a'r niwed cysylltiedig, ei bod yn debygol y bydd effaith fwy amlwg ar rai poblogaethau sy'n yfed alcohol rhad iawn a/neu sydd ag incwm isel, felly gallai effeithiolrwydd cyffredinol y polisi hefyd ddibynnu ar ddefnyddio ymyriadau byr wedi'u targedu a darpariaeth triniaeth ar gyfer yfwyr dibynnol (eto, gweler **Pennod 1**, ac **Atodiadau 1.1 ac 1.2**).

³⁵ [Edwards 1997 Alcohol policy and the public good](#)

³⁶ [Launch of the WHO/Europe report on minimum pricing of alcohol](#)

4.5 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r manylion hyn o'r negeseuon craidd am brisio fel mesur polisi effeithiol, ond mae hefyd yn neilltuo rhywfaint o'r gwerthusiad penodol o'r camau gweithredu yng Nghymru a'r Alban mewn bywyd go iawn i'w penodau perthnasol (**Penodau 6 a 10**).

Adolygiadau o lenyddiaeth polisi MPA ar gyfer Llywodraeth Cymru

4.6 Fel rhan o ymchwil a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar MPA, mae nifer o adolygiadau o lenyddiaeth sy'n ymwneud ag effaith isafbris am alcohol wedi cael eu cyhoeddi hyd yma:

- Roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar astudiaethau sy'n ymchwilio i botensial cyfnewid sylweddau a chanlyniadau anfwriadol eraill cyflwyno MPA (Holloway et al, 2019)³⁷.
- Roedd yr ail adolygiad yn diweddarar'r adolygiad hwnnw i gynnwys cyhoeddiadau mwy diweddar ac yn ei ymestyn i gynnwys astudiaethau a oedd wedi ymchwilio i effaith MPA yn ehangach (Buhociu et al, 2021)³⁸.
- Yn ychwanegol at hyn mae diweddariadau pellach wedi'u cynnwys yn (a) yr adroddiad yn syth ar ôl gweithredu/COVID 19³⁹ i'r ymchwil sy'n archwilio'r effaith ar y boblogaeth ehangach o yfwyr, a (b) yr adroddiadau interim o'r astudiaeth honno ac o'r gwaith gyda gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth.

4.7 O fewn gwerthusiadau'r Alban, ceir hefyd rai adolygiadau llenyddiaeth manwl o fframweithiau polisi alcohol ac isafbris yn fwy penodol.

4.8 Rhoddir trosolwg o'r ystyriaethau llenyddiaeth posibl, y ffynonellau a'r themâu allweddol yn **Nhabl 4.1** isod. Ymhelaethir ar rai o'r negeseuon hyn mewn penodau dilynol, h.y. gwerthusiadau gweithredu polisi yng Nghymru a'r Alban (**Penodau 6 a 10**), setiau data craidd am droseddau ac ieched (**Pennod 7**), a rôl elfennau/ffactorau economaidd a gwleidyddol eraill (**Pennod 8**).

³⁷Roedd yr 'Astudiaeth Cyfnewid' yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth llawn ar y pwnc hwn a oedd yn rhoi sylw i astudiaethau hyd at ac yn cynnwys 2018. [Ymchwil i'r potensial ar gyfer newid sylweddau ar ôl cyflwyno isafswm prasio ar gyfer alcohol yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

³⁸ [Aseu effaith isafbris am alcohol ar boblogaeth ehangach o yfwyr: gwaelodlin \(llyw.cymru\)](#)

³⁹ [Effaith COVID-19 a'r isafbris am alcohol: effaith ar y boblogaeth ehangach | LLYW.CYMRU](#)

Tabl 4.1: Crynodeb o themâu'r llenyddiaeth a'r prif negeseuon

Thema	Math y ffynhonnell	Neges
Pris fel mecanwaith polisi	<ul style="list-style-type: none"> • Ymchwil ac adolygiadau polisi • Adolygiadau o dystiolaeth systematig 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae polisïau prisio alcohol yn ddull effeithiol o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. • Mae angen gwreiddio dulliau polisi prisio mewn ystod eang o fesurau polisi alcohol.
Newidiadau disgwylidig (prisiau a defnydd) o ganlyniad i unrhyw weithredu polisi	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau modelu • Astudiaethau gweithredu cyn polisi • Data safonau masnach 	<ul style="list-style-type: none"> • Gellir cydymffurfio â pholisïau alcohol a'u rhoi ar waith yn llwyddiannus.
Gwir newidiadau (prisiau a defnydd) ar ôl cyflwyno polisi	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi data gwerthiannau • Adroddiadau uniongyrchol (ansoddol ac ansoddol) gan yfwyr • Astudiaethau manwerthu 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae prisiau'n newid ar ôl gweithredu polisïau, gan gynnwys codiad sylweddol i'r cynnyrch alcohol rhad iawn. • Mae cynnydd mewn prisiau yn arwain at newidiadau mewn ymddygiad prynu ac argaeledd cynnyrch. • Gostyngiadau y gellir eu gweld o ran prynu ymysg y boblogaeth yn gyffredinol ac felly defnydd tybiedig.
Effaith ar boblogaethau penodol	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau uniongyrchol (meintiol ac ansoddol) gan boblogaethau penodol o yfwyr a/neu weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae llawer o yfwyr/grwpiau o boblogaethau yn dweud nad oes effaith o ganlyniad i isafswm pris (nid yw'r cynnyrch o ddewis yn cael ei effeithio, mae lefelau incwm yn ddigon uchel, nid yw'r pris yn ffactor mewn yfed ac ati). • Mae rhai poblogaethau'n dweud eu bod yn cael trafferth rheoli fforddiadwyedd alcohol gyda chynnydd mewn prisiau (h.y. poblogaethau dibynnol neu incwm isel).
Cynnal fforddiadwyedd	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau uniongyrchol (meintiol ac ansoddol) gan 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae llawer o yfwyr yn newid rhwng gwahanol gynhyrchion a'r math o alcohol er mwyn yfed cymaint ag y bo modd o fewn y gyllideb.

	<p>boblogaethau penodol o yfwyr a/neu weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae mecanweithiau ymdopi yn aml yn golygu ymestyn ymddygiad a oedd yn bodoli cyn gweithredu polisi; h.y. benthycu, defnyddio dyled, mynd heb fwyd, peidio â thalu biliau na rhent. • Mae newid o alcohol i ddefnyddio cyffuriau eraill yn gysylltiedig yn bennaf â'r rheini a oedd â phrofiad blaenorol o hynny. • Mae rhywfaint o dystiolaeth, ond cyfyngedig, o droseddu, prynu alcohol anneddfol ac anghyfreithlon, dwyn o siopau ac ati fel ffordd o gynnal fforddiadwyedd. • Mae rhywfaint o dystiolaeth o brynu trawsffiniol yn achos y rheini sydd ag incwm a thrafnidiaeth/cyfle ac agoswydd at y ffin.
<p>Gwir effaith ac effaith ddisgwyliedig ar ymddygiadau eraill</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Troseddau arferol, setiau data iechyd ayb. 	<ul style="list-style-type: none"> •
<p>Cyfyngiadau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Llennyddiaeth polisi ehangach • Astudiaethau ar ystyriaethau economaidd, iechyd a gofal cymdeithasol eraill gan gynnwys cwestiynau am ddefnyddio alcohol 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r maes gwerthuso yn flêr: <ul style="list-style-type: none"> ○ Fforddiadwyedd yr effeithir arno gan fudd-daliadau, economïau byd-eang, pandemig ac ati ○ Rôl ffactorau eraill wrth lunio polisi alcohol, ymddygiad yfed ac arferion prynu.

Negeseuon craidd

- 4.9 Nid yw'r dadansoddiad disgrifiadol o'r llenyddiaeth wedi cael ei ailadrodd yma'n fwriadol gan ei fod ar gael mewn mannau eraill. Mae digon o gyfeiriadau at y llenyddiaeth honno wedi cael eu darparu yn y testun a'r troednodiadau. Ar ben hynny, mae'r tri atodiad sy'n rhoi trosolwg o lenyddiaeth sy'n ategu Pennod 1 a'r Bennod hon (gweler **Atodiad 1.1: Llenyddiaeth polisi alcohol; Atodiad 1.2: Llunio polisi prisio; ac Atodiad 1.3: Y diwydiant alcohol**) yn cynnig manylion clir a dolenni at rai o'r brif lenyddiaeth sy'n sail i'r naratif cryno hwn.
- 4.10 Yn gryno, mae'r negeseuon craidd wedi'u nodi isod.
- Mae rheoli prisiau yn ddull effeithiol o leihau defnydd.
 - Mae modelu'n awgrymu y bydd rheoli prisiau yn arwain at lai o niwed o ganlyniad i alcohol.
 - Mae angen gwreiddio dulliau prisio mewn dulliau polisi alcohol cyfannol ehangach
 - Mae rheoli prisiau yn arwain at newidiadau disgwylidig a gwirioneddol ym mhrisiau cynnyrch ac argaeledd.
 - Mae effeithiolrwydd ac effaith yn dibynnu ar y lefel pris a bennir.
 - Mae'r polisi, er ei fod yn effeithio ar bob cynnyrch ac felly ar bob poblogaeth, yn debygol o gael effaith wahanol ar boblogaethau penodol.
 - Yr yfwyr trwm hynny ar incwm isel sy'n cael eu heffeithio fwyaf, a byddant yn addasu ymddygiad i reoli fforddiadwyedd yn unol â hynny.
 - Nid yw unrhyw bolisi prisio yn gweithredu mewn gwagle ac mae amrywiaeth o ystyriaethau economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol eraill yn effeithio arno.
- 4.11 Mae'r dadleuon llenyddiaeth cyffredinol o blaid a'r dystiolaeth o effaith bosibl isafbris alcohol wedi'u hen sefydlu. Mae gweithredu MPA Cymru a'i gyfres bwrpasol o werthusiadau bellach yn ychwanegiad arall at y darlun hwn. O'r herwydd, mae gweddill yr adroddiad hwn yn parhau â'r cyfraniad at ein tystiolaeth a'n dealltwriaeth o hynny.

5. Fframwaith Gwerthuso

Crynodeb

- Mae mabwysiadu methodoleg dadansoddi cyfraniad wedi arwain at ddatblygu damcaniaethau newid penodol ar gyfer isafbris, sydd yn eu tro wedi sefydlu modelau cysylltiedig; modelau rhesymeg, tybiaethau, risgiau cynhenid ac ystyried ystyriaethau amgen ehangach ac esboniadau posibl ar gyfer unrhyw effeithiau posibl ar MPA yng Nghymru.

Cyflwyniad

- 5.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r fframwaith gwerthuso a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn. Mae'n dadbecynnu'r manylion sy'n gysylltiedig â Damcaniaethau Newid craidd sydd wedi dilysu'r dadleuon o blaid isafswm prisiau, ac yn benodol yr un cychwynnol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru (gweler **Pennod 2**). Mae wedyn yn amlinellu sut rydym wedi deall y gweithgareddau, y tybiaethau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn a sut mae nifer o ystyriaethau a modelau rhesymeg o fewn y dull damcaniaeth newid cyffredinol yn ategu'r dadansoddiad. Mae'n cloi drwy gynnig y ddamcaniaeth newid benodol a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn (**Ffigur 5.5**).

Nodi manau cychwyn ar gyfer Damcaniaeth Newid MPA

- 5.2 Ffocws cyffredinol cytunedig (wedi'i gomisiynu) yr astudiaeth hon, ac felly'r gwerthusiad cyffredinol yw: asesu'r cyfraniad (os o gwbl) y mae cyflwyno MPA yng Nghymru wedi'i wneud at unrhyw newidiadau (mesuradwy a gweladwy) mewn ymddygiad, yfed a chanlyniadau manwerthu sy'n gysylltiedig ag alcohol.
- 5.3 Gellir ystyried bod hyn yn cyfateb yn fras i'r ddau gwestiwn gwerthuso cryno a bennwyd gan Public Health Scotland [PHS] ar gyfer gwerthuso MUP:
- I ba raddau y mae gweithredu MUP yn yr Alban wedi cyfrannu at leihau niwed cymdeithasol ac iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol?


- A effeithir yn fwy ar rai pobl a busnesau (yn gadarnhaol neu'n negyddol) nag eraill?⁴⁰

5.4 Mae'n dod yn amlwg felly bod angen i unrhyw fframwaith gwerthuso cyffredinol fod yn ganolog i'r newidiadau o ran pris, defnydd, ymddygiad a niwed, gan ystyried ar yr un pryd y tybiaethau a wnaed ynghylch esboniadau o (ac elfennau sy'n drysu) newidiadau o'r fath.

Mannau cychwyn – Damcaniaeth Newid


5.5 Fel y nodwyd ym mhennod dau, gellir crynhoi'r ddamcaniaeth newid graidd ar gyfer dulliau isafbris alcohol i'r honiad canlynol:

Ffigur 5.1: Damcaniaeth Newid Sylfaenol ar gyfer polisiau isafbris am alcohol



5.6 Mae'r tair elfen hyn yn cael eu hadlewyrchu yn Namcaniaeth Newid Llywodraeth Cymru (gweler **Ffigur 2.2** ym **Mhennod 2**), sydd â phum elfen graidd, fel y nodir yn **Ffigur 5.2** isod⁴¹:

Ffigur 5.2: Cynnig craidd MPA



5.7 Nododd Damcaniaeth Newid Llywodraeth Cymru y set ganlynol o ystyriaethau pellach:

- *Effeithiau posibl eraill*: cyfnewid am alcohol a chyffuriau eraill; dadleoli gwariant; newidiadau o ran cynnyrch a marchnata; effaith economaidd ar y diwydiant alcohol; a normau/agweddau cymdeithasol tuag at y polisi.
- *Astudiaethau penodol*: ' yfwyr niweidiol' a 'manwerthwyr bach'.
- *Ffynonellau data posibl*: data monitro (Awdurdod Lleol); data Kantar a data arall am werthiant alcohol/trawsffiniol; data'r Arolwg Cenedlaethol; data arferol am

⁴⁰ [The evaluation of Minimum Unit Pricing \(MUP\) for alcohol: Summary \(healthscotland.scot\)](https://www.healthscotland.scot)

⁴¹ [Llythyr gan Lywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon f \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru)

ysbytai/marwolaethau; agweddau cymdeithasol (Arolwg Omnibws); a dadansoddiad o wariant aelwydydd.

- **Gweithgaredd a awgrymir:** gwaith ansoddol gyda gwasanaethau a gwaith gyda manwerthwyr.

5.8 Cafodd y rhan fwyaf o'r ystyriaethau hyn wedyn eu trosi'n bedair astudiaeth werthuso a gomisiynwyd yn benodol, y manylir arnynt ym **Mhennod 1**.

5.9 Ochr yn ochr â'r manau cychwyn hyn, rydym hefyd wedi ystyried yr elfennau canlynol o dystiolaeth ryngwladol er mwyn datblygu Damcaniaeth Newid fanylach (gweler **Ffigur 5.5** isod) sy'n ymwneud â'r gwerthusiad hwn o weithredu'r MPA ledled Cymru, ac ystyried yr ystyriaethau penodol sy'n sail i bortffolio gwerthuso MPA Cymru (gweler **Penodau 2 a 3**):

- Model Polisi Alcohol Sheffield, wedi'i addasu ar gyfer Llywodraeth Cymru at ddibenion rhoi MPA ar waith^{42,43}.
- Damcaniaeth Newid y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus ar gyfer Isafswm Pris Uned (gweler Ffigur **5.3** isod) a'r portffolio llawn o dystiolaeth a gyhoeddwyd o werthusiad MESAS PHS o'r rhaglen Isafswm Pris Uned⁴⁴.
- Y Ddamcaniaeth Newid fanwl a amlinellir yn astudiaeth *Harmful Drinkers* Yr Alban⁴⁵ (gweler **Ffigur 5.4** isod) a oedd yn fersiwn ddilynol o Ddamcaniaeth Newid PHS, a ddatblygwyd i fynd i'r afael â chwestiynau penodol sy'n berthnasol i amcanion yr astudiaeth.⁴⁶
- Natur gyd-destunol benodol polisïau Cymru, gan gynnwys alcohol a thriniaeth (**Pennod 2**).

⁴² [The Sheffield Alcohol Policy Model \(SAPM\) – SARG](#)


⁴³ [Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: adroddiad terfynol \(llyw.cymru\)](#)

⁴⁴ [Evaluation of minimum unit pricing \(MUP\) - Alcohol - Health topics - Public Health Scotland](#)


⁴⁵ [Evaluating the impact of Minimum Unit Pricing in Scotland on people who are drinking at harmful levels - Publications - Public Health Scotland](#)

⁴⁶ Mae'n werth nodi y gellir dadansoddi unrhyw Ddamcaniaeth Newid ynghylch polisi isafswm prisiau cyffredinol, mewn perthynas â phob un o'r gwahanol elfennau sy'n rhan o unrhyw bolisi isafswm prisiau. Enghraifft dda o hyn yw un sy'n gysylltiedig ag yfwyr peryglus a niweidiol neu'r rhai sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n derbyn triniaeth. Enghraifft o'r lefel nesaf hon o fodel Damcaniaeth Newid yw'r un a ddatblygwyd gan Holmes et al. (2022) i gefnogi eu gwerthusiad o'r boblogaeth hon yn yr Alban (gweler Atodiad **1.2**).

Ffigur 5.3: Damcaniaeth Newid Public Health Scotland ar gyfer MUP⁴⁷



Ffigur 5.4: Damcaniaeth Newid Astudiaeth ‘Harmful Drinkers’ yr Alban



⁴⁷[Protocol for the evaluation of Minimum Unit Pricing for alcohol \(healthscotland.scot\)](https://www.healthscotland.scot)

- 5.10 Mae datblygu damcaniaeth newid yn golygu rhoi sylw ychwanegol i'r ystyriaethau canlynol:
- egluro'r tybiaethau sy'n sail i pam y disgwylir i'r polisi/ymyriad weithio;
 - diffinio'r risgiau sy'n gysylltiedig i'r tybiaethau hyn;
 - nodi esboniadau posibl eraill dros newid;
 - amserlenni ar gyfer canlyniadau disgwylidig yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.
- 5.11 Mae gan ddamcaniaethau newid rai mewnbynnau (gweithgareddau) ac allbynnau tybiedig. Maent hefyd yn ceisio rhagweld canlyniadau disgwylidig (effeithiau).
- 5.12 At ddibenion gwerthuso, mae modelau'n nodi'r ffynonellau data tebygol a allai egluro rhai neu'r holl elfennau. Wrth fapio manylion yr ystyriaethau hyn, defnyddiwyd nifer o *gadwyni canlyniadau*⁴⁸ (y gellid cyfeirio atynt fel y Modelau Rhesymegol). Ceir enghreifftiau yn **Nhabl 5.3** (isod) ac yn **Atodiad 1.4**.
- Mannau cychwyn – tybiaethau a risgiau*
- 5.13 Mae'r dybiaeth amlycaf ar gyfer y gwerthusiad a'r fframwaith hwn yn seiliedig ar effaith y pris y cytunwyd arno a'i roi ar waith yn derfynol yng Nghymru, sef 50ppu (gweler **Pennod 2**).
- 5.14 Mae'n werth nodi y bydd unrhyw bris penodol yn creu effeithiau wedi'u modelu sy'n debygol o fod yn rhai ar adeg y modelu yn hytrach nag adeg gweithredu'r pris ei hun. Mewn penodau dilynol (**11 a 12**) rhoddir sylw i sut y mabwysiadwyd 50ppu fel gwerth dewisol, ac i ba raddau y mae chwyddiant a chynnydd mewn costau a phrisiau eraill yn tanseilio unrhyw effaith bosibl y pris hwn a ddewiswyd.
- 5.15 Mae'r Ddamcaniaeth Newid ac unrhyw lefel pris a ddewisir yn cynnwys **tybiaethau** cynhenid (h.y. digwyddiadau ac amodau amlwg sy'n angenrheidiol, neu sy'n debygol o fod yn angenrheidiol, er mwyn i'r gadwyn benodol o ddigwyddiadau ddigwydd – er mwyn i'r achos blaenorol arwain at

⁴⁸Mae modelau rhesymeg *cadwyn canlyniadau* yn cynrychioli damcaniaeth newid fel proses linol gyda mewnbwn a gweithgareddau ar y pen blaen, a chanlyniadau tymor hir a'r effeithiau ar y diwedd.

yr effaith ddilynol), a **risgiau**: (h.y. digwyddiadau ac amodau amlwg a fyddai'n debygol o atal y Model Rhesymeg rhag mynd rhagddo).

Tabl 5.1 Damcaniaeth Newid MPA – tybiaethau a risgiau

Tybiaethau	Risgiau
<ul style="list-style-type: none"> • Mae 50ppu yn bris uned digonol i ddylanwadu ar lefelau defnydd, gan sbarduno newid ymddygiad. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae 50ppu yn bris uned annigonol i ddylanwadu ar lefelau defnydd, ac i sbarduno newid ymddygiad.
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfraddau chwyddiant ac economi sefydlog. 	<ul style="list-style-type: none"> • Economi ansefydlog a lefelau uwch o chwyddiant.
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cynnydd mewn cost uned o alcohol yn arwain at lai o yfed (h.y. mae'r defnydd o alcohol yn amodol ar ffactorau arferol o ran galw/cyflenwad). 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r defnydd o alcohol yn cynyddu er gwaethaf y cynnydd mewn prisiau (ffactorau eraill yn fwy dylanwadol).
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cyflwyno MPA yn cael ei gysylltu â mwy o ymwybyddiaeth o'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio alcohol a bydd yn cynyddu i ba raddau y mae yfed yn ddiogel ar agendâu datblygu cyhoeddus, gwleidyddol ac ymarfer. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw cyflwyno MPA yn cyfrannu at unrhyw niwed ehangach o weithgareddau atal alcohol na newid ymddygiad.
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd lleihau faint o alcohol sy'n cael ei yfed drwy leihau nifer yr unedau o alcohol y gellir eu prynu gyda chyllideb benodol yn arwain at newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad cymdeithasol ac iechyd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd unigolion yn gwrthbwysu cynnydd mewn MPA ym mhris y math presennol o alcohol drwy; gynyddu eu gwariant ar alcohol, newid i fathau eraill o alcohol ac ati (h.y. dim gostyngiad amlwg mewn yfed o ganlyniad i unrhyw gynnydd mewn prisiau yn unig).
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth (gan Lywodraeth Cymru) cyn-MPA yn arwain at ddealltwriaeth eang bod y polisi wedi'i dargedu at yfwyr peryglus a niweidiol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw negeseuon Llywodraeth Cymru am MPA yn cael eu derbyn neu'n cael eu camddehongli.
<ul style="list-style-type: none"> • Ni fydd y rhan fwyaf o yfwyr niweidiol a pheryglus yn ceisio cynnal eu 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae lefelau yfed alcohol yn cael eu cynnal drwy amrywiaeth o

harferion yfed ar lefelau sefydledig drwy ddulliau eraill e.e. gwaith, troseddu, dyled; siopa trawsffiniol, bragu gartref.	ymddygiadau niweidiol eraill gan y rhan fwyaf o yfwyr peryglus a niweidiol.
<ul style="list-style-type: none"> Ni fydd cynnydd yn y defnydd o gyffuriau eraill o ganlyniad i brisiau alcohol uwch. 	<ul style="list-style-type: none"> Dilynir cyflwyno MPA gan gynnydd yn y defnydd o gyffuriau eraill.
<ul style="list-style-type: none"> Bydd y tueddiadau presennol o ran yfed alcohol (a chanlyniadau problemus cysylltiedig) yn aros yn gymharol sefydlog dros gyfnod hir. 	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw tueddiadau yn y dyfodol o ran yfed alcohol (a chanlyniadau problemus cysylltiedig) yn sicr ac mae'n bosibl y byddant yn newid. Er enghraifft, cynnydd ymysg pobl hŷn, pobl dros 50 oed, a phoblogaethau penodol (digartrefedd, agored i niwed, ifanc ac ati).
<ul style="list-style-type: none"> Dim newidiadau sylfaenol i'r gyfraith ynghylch cyfreithlondeb alcohol nac anghyfreithlondeb cyffuriau eraill (yn sicr yn ystod y 3 blynedd nesaf). 	<ul style="list-style-type: none"> Mae newidiadau yn neddfwriaeth alcohol neu gyffuriau eraill y DU yn amharu ar gyfraniad MPA.
<ul style="list-style-type: none"> Parhad o ran argaeledd/gwerthiant cynnyrch alcohol o gryfder/maint penodol. 	<ul style="list-style-type: none"> Y diwydiant yn addasu cryfder/maint cynnyrch alcohol, i gadw cynhyrchion yn ddeniadol ac yn dybiedig fforddiadwy.
•	• .

Mannau cychwyn – esboniadau eraill dros newid

5.16 Wrth ddatblygu'r fframwaith gwerthuso ac ystyried pa ddata ychwanegol y gallai fod angen ei gaffael, datblygwyd fframwaith o ystyriaethau eraill ynghylch ffactorau a allai gael effaith negyddol neu gadarnhaol ar gyfraddau yfed alcohol yn gyffredinol ac ymddygiad prynu hefyd.

5.17 Mae'r rhain yn cael eu crynhoi yn **Nhabl 5.2** isod.

Tabl 5.2: Gweithgareddau a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn

Effeithiau negyddol	Effeithiau cadarnhaol
<ul style="list-style-type: none"> Gwthio'n ôl yn erbyn "gwladwriaeth faldodus" dybiedig sy'n ymyrryd mewn dewisiadau ffordd o fyw personol. 	<ul style="list-style-type: none"> Gostwng y terfynau yfed a argymhellir.

<ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo ymgyrchoedd marchnata sy'n cael eu rhedeg gan y diwydiant alcohol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Newid diwylliannau yfed – yfed llai o alcohol ymhlith pobl ifanc – a sylw gan y cyfryngau.
<ul style="list-style-type: none"> • Llai o gredyd/benthyca ar gael neu fwy o ddyled. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o ddiodydd alcohol isel a diodydd di-alcohol ar gael, ac yn fwy fforddiadwy.
<ul style="list-style-type: none"> • Diwedd y cyni a mwy o fforddiadwyedd alcohol, yn enwedig o'i gymharu ag incwm. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o bwyslais ar wasanaethau lles a rhagnodi cymdeithasol.
<ul style="list-style-type: none"> • Newid blaenoriaethau iechyd y cyhoedd (gan roi mwy o bwyslais ar risgiau dietegol a gordewdra). 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen ddogfen ar gyfrifon 'enwogion' am yfed anodd ac adferiad/ataliad cadarnhaol.
<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau alcohol pwrpasol yn cael eu torri a phwysau ar y gwasanaethau sy'n weddill. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o wybodaeth am hunangymorth ar gael.
<ul style="list-style-type: none"> • Newidiadau i'r 'cymysgedd marchnata' – cynhyrchu, pris, hyrwyddo, a lle. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mudiadau cymdeithasol fel Ionawr Sych, Soberistas.
<ul style="list-style-type: none"> • Hinsawdd wleidyddol e.e. canolbwyntio ar Brexit yn golygu bod y strategaeth alcohol yn cael ei gohirio (ffiniau datganoli). 	<ul style="list-style-type: none"> • Brexit – cynnydd mewn prisiau gwin.
<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o newid diwylliannol o yfed mewn tafarndai i yfed gartref. 	<ul style="list-style-type: none"> • Newid barn Llywodraeth San Steffan o blaid polisiau prisio alcohol.
<ul style="list-style-type: none"> • Tywydd anarferol o boeth/cynhesu byd-eang. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu'r ystod o wasanaethau sy'n benodol i alcohol.
<ul style="list-style-type: none"> • Digwyddiadau chwaraeon mawr o arwyddocâd penodol i Gymru a'r yfed cysylltiedig e.e. rygbi'r Chwe Gwlad/Pêl-droed Cwpan y Byd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd yn y dreth alcohol o San Steffan (h.y. gostyngiad mewn fforddiadwyedd cymharol alcohol).
<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno Credyd Cynhwysol (symiau mwy o arian yn fisol) (newidiadau eraill i fudd-daliadau). 	
<ul style="list-style-type: none"> • Dim cynnydd mewn treth alcohol o San Steffan (h.y. cynnydd mewn fforddiadwyedd cymharol alcohol). 	
<ul style="list-style-type: none"> • Alcohol di-doll yn dychwelyd o dan Brexit 'heb gytundeb' (h.y. alcohol rhatach ar gael). 	

Mannau cychwyn – llinellau amser (canlyniadau)

- 5.18 Mae Dadansoddiad o Gyfraniad a gwerthusiadau realydd eraill yn mynnu bod y ddamcaniaeth newid graidd wedyn yn cael ei rhannu'n gyfres o fodelau rhesymeg sy'n canolbwyntio ar amserlenni. Mae'r rhain yn ystyried mewnbynnau, allbynnau a gweithgareddau arfaethedig posibl, gan fapio'r rhain dros amser ac yn erbyn gweithgareddau posibl.
- 5.19 Wrth ddarparu fframwaith dadansoddi manwl i lywio ein dull a'n gweithgareddau gwerthuso, cafodd nifer o fodelau rhesymeg craidd eu datblygu gan y tîm gwerthuso. Roedd hyn yn cynnwys mapio gweithgareddau dros amser a thair effaith mewn dilyniant amser (ar unwaith, rhyngol a thymor hir), ffynonellau data posibl a sylwadau.


Ein Damcaniaeth Newid

- 5.20 Mae ein dull gwerthuso yn cyfuno'r holl ystyriaethau hyn mewn un fframwaith. Mae'r Ddamcaniaeth Newid yn cael ei hadlewyrchu yn **Ffigur 5.5** isod.

Ffigur 5.5: Iteriad wedi'i fireinio o Ddamcaniaeth Newid MPA sy'n benodol i Gymru yng ngoleuni'r gwerthusiad o'r Dadansoddiad o Gyfraniad

CONTEXT: Devolution has enabled the Welsh Government to introduce Minimum Pricing for Alcohol [MPA] legislation. This has been implemented at a minimum unit price [MUP] of 50 pence per unit of alcohol. Utilising price to affect alcohol affordability is identified as one of the recommend strands of effective policies designed to reduce the harms associated with excessive alcohol consumption.

RATIONALE: Implementation of a minimum unit price for alcohol will lead to reduced purchasing and consumption of previously low cost, high strength products, which in turn will lead to improvements in wellbeing, as well as reductions in harms and deaths.



ASSUMPTIONS: * 50ppu is a sufficient unit price to influence consumption levels, and invoke behavioural change. * Increases in cost per unit of alcohol will lead to reduced purchasing and by default consumption. * MPA implementation will be associated with increased awareness of the harms associated with alcohol use. * Reducing alcohol intake by reducing the number of units of alcohol purchasable for a set budget will lead to positive health and social behaviour changes. * There will not be an increase in the use of other drugs as a consequence of higher alcohol prices.

5.21 Mae'r modelau rhesymeg yn ystyried gweithgareddau gwahanol sydd wedi'u cynllunio, grwpiau targed arfaethedig, canlyniadau y gellir eu gweld o bosibl ac effeithiau disgwylidig mewn cyfres o gadwyni canlyniadau (ar gyfer pob elfen o'r Ddamcaniaeth Newid). Dangosir hyn yn yr enghraifft ganlynol o gyflwyno polisi'n dybiedig llwyddiannus.

Tabl 5.3 Cadwyn canlyniadau – enghraifft

Mewnbynnau		Deilliannau		
<i>Gweithgareddau</i>	<i>Grwpiau targed</i>	<i>Ar unwaith (3 mis)</i>	<i>Rhyngol (18 mis)</i>	<i>Tymor hir (42+ mis)</i>
<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno polisi 	<ul style="list-style-type: none"> • Poblogaeth gyfan (a grwpiau penodol o fewn i hynny) 	<ul style="list-style-type: none"> • Cydymffurfio • Newidiadau pris 	<ul style="list-style-type: none"> • Proffil uwch o ddefnyddio alcohol a niwed 	<ul style="list-style-type: none"> • Gostyngiad yn y defnydd cyffredinol ymysg y boblogaeth
Effaith				
<ul style="list-style-type: none"> • Gostyngiad mewn niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol 				
Ffynonellau Data Posibl				
<ul style="list-style-type: none"> • Data/cyfweliadau safonau masnach, Dadansoddi data manwerthu, Data Ffordd o Fyw Omnibws 				

5.22 Mae'r manau cychwyn manwl hyn yn parhau i gael eu mireinio dros y cyfnod gwerthuso. Nid yw Dadansoddi Cyfraniad yn ddull cwbl linol ac mae ailedrych ar y ddealltwriaeth a'r dehongliad o Ddamcaniaeth Newid a modelau rhesymeg yn broses barhaus sy'n seiliedig ar y prosesau casglu data a thystiolaeth.

6. Gwersi a ddysgwyd hyd yma – gwerthusiadau yng Nghymru

Crynodeb:

- Tystiolaeth glir bod y polisi wedi ei weithredu'n llwyddiannus, ac i raddau helaeth gyda lefel dda o gydymffurfiaeth.
- Cefnogaeth i'r polisi a mynd i'r afael â chynhyrchion rhad, iechyd y cyhoedd a thueddiadau rhyng-genedlaethau, ond mynegwyd pryder ynghylch yr effaith ar yfwyr dibynnol ac yfwyr incwm isel.
- Tystiolaeth o newidiadau mewn prisiau a chynnyrch.
- Tystiolaeth o newidiadau ymddygiad i gynnal a chefnogi fforddiadwyedd
- Cyfeirio'n gyson at COVID-19 a chostau byw fel ffactorau sy'n cymhlethu o ran siapio defnydd, prynu a phrofiadau cysylltiedig.

Cyflwyniad

- 6.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu yn uniongyrchol set lawer llai o werthusiadau pwrpasol na Llywodraeth yr Alban. Rydym wedi cyflwyno'r rhain mewn manau eraill.
- 6.2 Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r tri phrosiect arall a gomisiynwyd, eu gwahanol amserlenni adrodd, eu prif negeseuon, a synthesis o negeseuon meta a rennir.
- 6.3 Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu un astudiaeth MPA arall a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig, sef prosiect cyn gweithredu a oedd yn edrych ar y tebygolrwydd y bydd yfwyr unigol yn cyfnewid sylweddau o ganlyniad i unrhyw gynnydd yng nghost yfed, a elwir yn 'Astudiaeth Newid'⁴⁹. Cyfeirir at yr astudiaeth hon hefyd yn y bennod hon.

⁴⁹ [Ymchwil i'r potensial ar gyfer newid sylweddau ar ôl cyflwyno isafswm prasio ar gyfer alcohol yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

Crynodeb o werthusiadau Cymru

6.4 Mae'r astudiaethau penodol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar yr effaith bosibl ar yfwyr ac adwerthwyr. Mae gan bob un ffocws penodol ac mae'r rhain wedi'u crynhoi yn **Nhabl7.1** isod.

Tabl 6.1: Crynodeb werthusiadau MPU yng Nghymru

Astudiaeth	Crynodeb
• Astudiaeth newid	• Astudiaeth cyn gweithredu gyda defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaethau i archwilio i ba raddau y gallai newid rhwng sylweddau fod yn ganlyniad i gyflwyno deddfwriaeth lechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru).
• Dadansoddiad o Gyfraniad (yr adroddiad hwn)	• Astudiaeth synthesis gyffredinol sy'n archwilio effaith bosibl y ddeddfwriaeth a'r amrywiaeth o ystyriaethau eraill allai fod wedi effeithio ar weithredu.
• Astudiaeth manwerthwyr	• Astudiaeth benodol yn edrych ar ddata gwerthiant meintiol a chyfweliadau ansoddol gydag amrywiaeth o fanwerthwyr.
• Astudiaeth o'r boblogaeth sy'n derbyn triniaeth (defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaethau)	• Astudiaeth benodol sy'n asesu profiad ac effaith MPA ar ddefnyddwyr gwasanaethau (yfwyr niweidiol, peryglus a dibynnol) a gwasanaethau ledled Cymru (gan gynnwys edrych i ba raddau y gallai newid rhwng sylweddau fod wedi bod yn ganlyniad i'r ddeddfwriaeth ac effeithiau isafbris ar gyllidebau aelwydydd).
• Astudiaeth ehangach o'r boblogaeth	• Astudiaeth benodol sy'n asesu effaith y ddeddfwriaeth isafbris am alcohol ar y boblogaeth ehangach o yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol.

Mae manylion ynghylch pa asiantaeth sy'n arwain pa astudiaeth a phwy yw'r prif ymchwilyr i'w gweld yn **Atodiad 1.5**.

6.5 Mae'r pedwar prosiect wedi cael eu comisiynu o fewn amserlen hydredol eang. Mae hyn wedi ystyried casglu data cyn llinell sylfaen, gweithgarwch ôl-weithredu, adroddiadau interim (haf/ hydref 2022 ar hyn o bryd) ac adroddiadau terfynol. Roedd disgwyl i'r gwerthusiad cyffredinol gasglu data terfynol 42 mis ar ôl ei roi ar waith (Rhagfyr 2023), gydag adroddiadau terfynol o fewn chwe mis i hyn (Mehefin 2024). Mae manylion yr amserlenni hyn ar gyfer pob prosiect unigol i'w gweld yn **Atodiad 1.6**.

6.6 O ganlyniad i'r gweithgarwch cyn gweithredu, ac ar unwaith ar ôl gweithredu, mae nifer o'r astudiaethau eisoes wedi cyhoeddi adroddiadau ac erthyglau mewn cylchgronau sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae manylion y rhain i'w gweld yn **Atodiad 1.7** ac maent yn cael eu crynhoi isod.

Tabl 6.2: Crynodeb o'r llenyddiaeth a'r adroddiadau gwerthuso MPA yng Nghymru sydd wedi'u cyhoeddi

Astudiaeth	Statws cyhoeddi/cyhoeddwyd
'Astudiaeth newid'	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad terfynol y Prosiect ar wefan Llywodraeth Cymru • Erthygl cyfnodolyn ar gael
'Astudiaeth Dadansoddi Cyfraniad'	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad interim (yr astudiaeth hon)
'Astudiaeth manwerthwyr'	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad llinell sylfaen ar wefan Llywodraeth Cymru • Adroddiad interim (cyhoeddwyd)
'Astudiaeth o'r boblogaeth sy'n derbyn triniaeth'	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad interim (wedi'i gyflwyno)
'Astudiaeth ehangach o'r boblogaeth'	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad llinell sylfaen ar wefan Llywodraeth Cymru • Adroddiad yn syth ar ôl gweithredu ar wefan Llywodraeth Cymru • Adroddiad interim (cyhoeddwyd)

NODER: Cyhoeddir adroddiadau ar [dudalennau Ystadegau ac Ymchwil](#) gwefan Llywodraeth Cymru

6.7 Mae awduron yr adroddiad hwn wedi cael gweld pob un o'r tri adroddiad interim uchod cyn eu cyhoeddi, ac felly wedi gallu eu hystyried yn yr adroddiad hwn. Mae gweddill y bennod hon yn rhoi crynodeb o brif negeseuon pob astudiaeth ac yna synthesis o benawdau meta perthnasol.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau hyd yma o bob gwerthusiad

6.8 Mae pob un o'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol wedi darparu lefel sylweddol o fanylion, ac nid yw'n briodol ailadrodd yn ormodol yma. Yn hytrach, rydym wedi darparu crynodeb ar ffurf tabl o'r prif ganfyddiadau o'r elfennau gweithredu cyn gweithredu (**Tabl 6.3**) a'r elfennau ar ôl gweithredu (**Tabl 6.4**), a bydd pob un wedi cael eu cyhoeddi cyn yr adroddiad hwn.

Tabl 6.3: Crynodeb o'r prif negeseuon o werthusiadau gweithredu cyn-MPA

Astudiaeth	Negeseuon allweddol
'Astudiaeth newid'	<ul style="list-style-type: none">• Roedd y newid a disgwylieidig mwyaf tebygol rhwng cynnyrch a brandiau alcohol yn hytrach nag unrhyw fath arall o gyffur.• Addasiad disgwylieidig mewn ymddygiad presennol er mwyn cynnal fforddiadwyedd/blaenoriaethu alcohol; mynd heb fwyd, peidio â thalu biliau, benthyca ac ati.• Newid i gyffuriau eraill yn fwyaf tebygol ymysg y rhai sydd eisoes yn defnyddio cymysgedd o sylweddau yn hytrach nag alcohol yn unig.• Newid, os yw'n digwydd, yn fwyaf tebygol i bensodiasepin.• Yn gyffredinol, ychydig iawn o ymwybyddiaeth o'r polisi arfaethedig a gweithredu MPA, ac felly diffyg paratoi.• Mynegodd rhai bryderon ynghylch effaith bosibl dulliau ymdopi mwy dwys, yn enwedig mwy o straen ariannol ac effaith ar aelodau ehangach o'r teulu.• Peth pryder penodol am y cynnydd posibl mewn ymddygiad niweidiol megis symud tuag at yfed alcohol cryfach, cynnydd mewn troseddu (yn enwedig dwyn o siopau).
'Astudiaeth manwerthwyr'	<ul style="list-style-type: none">• Roedd ymwybyddiaeth o'r polisi ymysg manwerthwyr yn amrywio.• Mae ymwybyddiaeth a pharatoi yn fwy ymysg manwerthwyr cadwyn.• Roedd y camau paratoi'n cynnwys gwirio prisiau yn erbyn yr MPA, hyfforddi staff, rhoi gwybod i gwsmeriaid, ac addasu stoc.• Roedd rhai manwerthwyr yn disgwyl elwa drwy fwy o gystadleurwydd, ac roedd eraill yn gweld risg o ostyngiad mewn gwerthiant.• Disgwyl mai manwerthwyr sy'n agos at ffin Lloegr, a'r rheini sy'n gwerthu alcohol pris isel, fyddai'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf.• Disgwylir i'r effaith fod yn fach ac yn fyrhoedlog.• Gallai cefnogi'r polisi hwnnw leihau'r defnydd niweidiol ohono, ond mae hynny'n amheus ar lefel pris 50ppu.• Peth dyfalu y byddai pobl ar incwm isel gyda dibyniaeth ar alcohol yn parhau i brynu alcohol beth bynnag – gan adael

	llai o arian iddynt ar gyfer hanfodion – neu'n troi at ddwyn o siopau.
'Astudiaeth ehangach o'r boblogaeth'	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel gymysg o ymwybyddiaeth o bolisi MPA. Roedd agweddau tuag at y polisi yn cefnogi'r effaith gyffredinol ar y boblogaeth ond gyda phryder am y goblygiadau cost i rai yfwyr. • Dim llawer o deimlad o unrhyw baratoadau ar gyfer y gweithredu arfaethedig. • Ystyrir bod newid sylweddau yn annhebygol. • Roedd y rhan fwyaf o yfwyr yn credu ei bod yn annhebygol y byddai eu patrymau yfed yn newid o ganlyniad i MPA. (Alcohol yn fforddiadwy neu angen tybiedig i yfed). • Ymdeimlad a phryder y byddai MPA yn effeithio'n fras ar y grŵp dibynnol o yfwyr yn unig. Roedd pryderon penodol yn cynnwys; yr effaith ar aelwydydd, cynnydd mewn troseddau meddiangar a'r effaith ar berthnasoedd.

Ar unwaith ar ôl gweithredu

Tabl 6.4: Crynodeb o'r prif negeseuon o werthusiadau gweithredu ôl-MPA

Astudiaeth	Negeseuon allweddol
'Y boblogaeth gyffredinol a COVID-19'	<ul style="list-style-type: none"> • Mae dadansoddiad llenyddiaeth a chasglu data newydd yn adlewyrchu'r cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2020, hyd at 9 mis ar ôl rhoi'r MPA ar waith. • Roedd llenyddiaeth a chyfweliadau yn dangos bod (a) COVID-19/cyfnod clo wedi lleihau lefelau yfed cyffredinol y boblogaeth oherwydd atal gwerthiant mewn tafarndai a bwytai; a (b) bod defnydd unigolion wedi cynyddu i rai, gan ostwng i eraill a dim newid amlwg i'r gweddill. • Roedd y profiad o COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig yn gyfle i newid ymddygiad yfed a phrynu. • Roedd llawer o'r rhai a gyfwelwyd wedi nodi Llywodraeth Cymru a chyhoedduswyd arall yn y cyfryngau ynghylch y bwriad i roi'r MPA ar waith, er nad oedd llawer o dystiolaeth o baratoi ar gyfer y newid polisi, gan gynnwys y gweithgarwch disgwylidig o ran casglu stoc. • Yn y cyfweliadau, nid oedd llawer o rybudd am MPA a newidiadau mewn prisiau ymysg y boblogaeth hon, ar ôl mis Mawrth 2020, gan adlewyrchu a) cyfyngiadau symud a b) cynhyrchion o ddewis na effeithiwyd arnynt gan y newid

mewn prisiau. Fodd bynnag, sylwodd rhai o'r ymatebwyr ar newidiadau ym mhris ac argaeledd seidr cryf.

- Ym mhob achos ond un, nododd y rhai a gyfwelwyd fod unrhyw newidiadau i yfed yn cael eu priodoli'n uniongyrchol i COVID-19.
- Cadarnhaodd y data fod rhagfynegiadau astudiaeth blaenorol ynghylch yr effaith amlwg a/neu newid mewn ymddygiad i gynnal fforddiadwyedd wedi'u cyfyngu i nifer fach o unigolion mwy dibynnol a/neu ar incwm isel. Roedd fforddiadwyedd yn cael ei gynnal drwy addasu neu ymestyn strategaethau ymdopi presennol yn hytrach na rhai newydd. Roedd enghreifftiau o'r ymateb negyddol a ragwelwyd, sef dwyn o siopau neu droseddau eraill, yn brin.
- Dim ond i'r niferoedd bach oedd â phrofiad blaenorol o ddefnyddio mwy nag un sylwedd y digwyddodd newid i gyffuriau eraill.
- 'Y consensws barn cyffredinol oedd nad oedd MPA wedi gwneud fawr o wahaniaeth i fywydau ein cyfweleion' (t76).

'Astudiaeth manwerthwyr (adroddiad interim)'

- Gwelliant cymedrol mewn ymwybyddiaeth o fanwerthu a dealltwriaeth o bolisi ers y llinell sylfaen.
 - Cefnogaeth a chytundeb cyffredinol parhaus i'r polisi ond pryder ynghylch sut yr oedd yn effeithio ar y bobl dlotaf, a hynny yn cael ei waethygu gan y cynnydd diweddar mewn costau byw.
 - Dim ond ychydig/nifer cyfyngedig o gynhyrchion y canfuwyd bod y polisi'n effeithio arnynt.
 - Ymdeimlad ymysg manwerthwyr bod y polisi wedi cynyddu'r gystadleuaeth rhwng manwerthwyr llai a manwerthwyr cadwynau mwy.
 - Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar fusnesau, ac wedi effeithio ar y paratodau a'r gweithredu cynnar.
 - Roedd cynnydd mewn costau byw yn gwneud cynnydd mewn prisiau alcohol yn llai amlwg.
 - Roedd yr adroddiad yn cynnwys data meintiol, gan ddefnyddio dwy set ddata a chanlyniadau perthnasol drwy ddull Cyfres Amser ag Ymyrraeth a Reolir a chymariaethau rhwng Cymru a Lloegr. Ar wahân i'r cynnydd sylweddol mewn prisiau ar gyfer seidr a gostyngiad mewn gwerthiant yng Nghymru, nid oedd y rhan fwyaf o'r profion meintiol yn
-

	dangos unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol o ran y mesurau yng Cymru o'i gymharu â'r rhai yn Lloegr.
'Astudiaeth y boblogaeth sy'n derbyn triniaeth (adroddiad interim)'	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd y rhan fwyaf o unigolion fel arfer yn dod o hyd i ffordd o gynnal arferion yfed, er bod defnydd ychydig yn is wedi'i nodi ar gyfer rhai. Nododd darparwyr gwasanaethau gyfnewid pryniant ymysg yfwyr, i gynnyrch alcohol cryfach a brandiau rhatach. • Roedd llawer o unigolion eisoes yn gwneud aberth economaidd sylweddol i gynnal fforddiadwyedd alcohol, cyn rhoi unrhyw MPA ar waith. • Roedd unrhyw newidiadau mewn yfed neu ymddygiad arall yn aml yn gysylltiedig â nifer o ffactorau ac nid MPA. Soniwyd yn aml am COVID-19 a'r argyfwng costau byw. • Roedd y cyfweiliadau'n aml yn tynnu sylw at lawer o anghenion trin alcohol, iechyd, economaidd, cefnogaeth gymdeithasol ac iechyd, sydd heb eu diwallu ar draws y sampl. • Prin oedd yr adroddiadau am droseddau disgwylidig, e.e. dwyn o siopau ac ymatebion negyddol eraill i MPA. Soniodd darparwyr gwasanaeth am rywfaint o gynnydd yn y defnydd o gyffuriau eraill, yn enwedig defnyddio Bensodiasepin 'stryd'. • Roedd llawer o unigolion a darparwyr gwasanaethau o'r farn bod MPA yn gosbol ac wedi'i dargedu at bobl sy'n yfed yn ddibynnol. Roedd hyn yn dylanwadu ar agweddau'r gefnogaeth i'r polisi a'r ddealltwriaeth (camddealltwriaeth) o'r polisi. • Cyfeiriodd ymatebwyr hefyd at ddiffyg, pwysau ar, neu leihad mewn gwasanaethau cefnogi iechyd cyflenwol, triniaeth alcohol a gwasanaethau cymdeithasol ehangach.
'Astudiaeth y boblogaeth ehangach (adroddiad interim)'	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r polisi, ond ni ddangoswyd fawr o ddealltwriaeth fanwl ohono. Roedd agweddau'n ffafriol i'w botensial o ran newid tymor hir, ac yn negyddol o ran pryderon am yr effaith uniongyrchol ar yfwyr dibynnol. • Roedd yr arsylwadau ar bris ac argaeledd alcohol yn ailadrodd yr hyn a welwyd mewn astudiaethau cynharach. Ar gyfer y rheini nad oedd MPA yn effeithio ar eu diod o ddewis neu gyda digon o incwm, ni welwyd unrhyw newid mewn pris.

I eraill, gwelwyd y newid mewn prisiau ar gyfer alcohol cryf, yn enwedig seidr. Sylwodd rhai ar absenoldeb rhai cynigion arbennig yng Nghymru, o'i gymharu â Lloegr. Ychydig o gyfranogwyr a nododd unrhyw newid yn y cynnyrch alcohol sydd ar gael.

- Roedd y rhan fwyaf o'r yfwyr yn yr astudiaeth hon yn parhau i yfed yr un mor aml, a'r un faint ag yr oeddent cyn i'r MPA gael ei roi ar waith (nid oedd effaith ar y ddiod o ddewis neu nid oeddent yn yfed digon i deimlo'r effaith).
 - Ymysg y rhai a adroddodd am newidiadau yn eu hyfed, cafwyd adroddiadau am gynnydd a gostyngiad, gyda'r rhesymau a nodwyd amlaf yn ymwneud ag iechyd neu COVID-19.
 - Roedd nifer fach o achosion lle'r oedd MPA yn ysgogydd amlwg i newid.
 - Roedd newidiadau mewn ymddygiad yfed ymysg nifer fach o yfwyr risg uchel yn dangos newid o seidr gwyn cryf i wirodydd, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â gwin a lager cryf.
 - Roedd unrhyw newidiadau a gofnodwyd mewn gwariant ar alcohol yn ymwneud yn bennaf â COVID-19 a'r cynnydd mewn costau byw yn hytrach nag MPA.
 - Roedd llawer o yfwyr yn gallu ymdopi ag unrhyw gynnydd mewn prisiau, i'r nifer llai na allent, roedd fforddiadwyedd yn cael ei chynnal drwy ymestyn yr ymddygiadau ymdopi presennol fel: newid cyllidebau eu haelwyd i ryddhau arian ar gyfer alcohol, siopa ar draws ffiniau, siopa ar-lein, dwyn o siopau, ac mewn un achos bragu yn y cartref.
 - Ychydig iawn o yfwyr a ddywedodd am unrhyw newidiadau yn eu defnydd o sylweddau eraill, h.y. nid oedd y rhan fwyaf o yfwyr wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon o'r blaen ac nid oeddent wedi dechrau gwneud hynny yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.
 - Dywedodd nifer lai o unigolion, gyda chyfeiriad blaenorol at ddefnyddio cyffuriau eraill, eu bod yn parhau i wneud hynny ar ôl rhoi'r MPA ar waith.
 - I'r rhan fwyaf o yfwyr, ychydig iawn o effaith, os o gwbl, a gafodd MPA ar eu bywydau personol.
-

-
- Soniodd rhai yfwyr am welliannau yn eu hiechyd yn dilyn MPA gan fod y cynnydd mewn pris wedi eu hannog i roi'r gorau i yfed neu i yfed llai.
-

Crynodeb o negeseuon meta

Polisi

- 6.9 Er ei bod yn ymddangos bod ymwybyddiaeth o'r polisi wedi codi wrth ei roi ar waith, roedd lefel y ddealltwriaeth fanwl yn dal yn gyfyngedig ar draws pob grŵp o yfwyr, darparwyr gwasanaethau a manwerthwyr.
- 6.10 Roedd pob grŵp yn gefnogol ar y cyfan i'r polisi a'i botensial i leihau niwed a newid tueddiadau ymddygiad o un genhedlaeth i'r llall.
- 6.11 Mynegwyd pryder yn yr holl werthusiadau am yr effaith amlwg ar yr yfwyr trymaf sydd ar incwm isel.
- 6.12 Yn 2023 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad a oedd yn dadansoddi canfyddiadau o donnau 2018 a 2020 Arolwg Omnibws Cymru o ran agweddau'r cyhoedd at MPA yng Nghymru, ac ymwybyddiaeth ohono. Roedd yr adroddiad yn dangos bod ymwybyddiaeth a chefnogaeth ar gyfer MPA wedi cynyddu o 2014-2020. Roedd lleiafrif sylweddol a oedd ag agwedd fwy negyddol tuag at MPA ac a oedd yn credu na fyddai o reidrwydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth.

Effaith a welwyd ar ymddygiad, defnydd, cynnyrch a phrynu alcohol

- 6.13 Roedd yn ymddangos nad oedd MPA yn effeithio ar y rhan fwyaf o yfwyr ar y lefel pris o 50ppu. O ganlyniad, nid oedd y rhan fwyaf o'r newidiadau mewn ymddygiad yn cael eu hadrodd.
- 6.14 Cafodd newidiadau mewn ymddygiad eu nodi ymysg y nifer llai o yfwyr risg uchel neu ddibynnol. Ac yn fwy fyth, lle'r oedd ganddynt hefyd incwm isel.
- 6.15 Yr elfen fwyaf amlwg yn y newidiadau a welwyd oedd newid oddi wrth y cynhyrchion seidr a oedd yn arfer bod yn rhad tuag at wirodydd, gwin a lager cryf.
- 6.16 I'r rheini sy'n cael trafferth, roedd cynnal fforddiadwyedd fel arfer yn cael ei gyflawni drwy ymestyn y dulliau ymdopi presennol. Yn nodweddiadol, byddai hyn yn golygu mynd heb fwyd neu beidio talu biliau eraill.
- 6.17 Er bod adroddiadau am ddefnyddio rhai mathau eraill o gyffuriau, troseddu, a chanlyniadau negyddol estynedig eraill, roedd y rhain ymysg y lleiafrif o

yfwyr dibynnol yn bennaf yn hytrach na'r cyfan, ac yn aml roeddent yn cael eu dwysáu gan brofiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

COVID-19 a chostau byw cynyddol

- 6.18 Mae adroddiadau ar ôl gweithredu wedi tynnu sylw'n gyson at COVID-19 a chynnydd mewn costau byw fel rhywbeth sy'n chwarae rhan bwysig iawn mewn dewisiadau a newidiadau mewn ymddygiad.
- 6.19 Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ac amrywiol ar ymddygiad ac arferion yfed unigolion.
- 6.20 Mae'r cynnydd mewn costau byw wedi gwneud unrhyw gynnydd mewn prisiau yn llai amlwg.
- 6.21 Dywedwyd bod y ddwy flynedd ers rhoi'r cynllun ar waith wedi cael effaith negyddol ar argaeledd darpariaethau gwasanaeth, yn aml gyda chyfyngiadau COVID-19 a gwasgu adnoddau'n cael ei nodi fel y ffactorau achosol.

7. Data Cymreig Arall

Crynodeb:

- Mae rhai arwyddion o MPA yn effeithio ar faint o alcohol sy'n cael ei yfed os yw'r gwerthiannau'n cael eu defnyddio fel mesur procsi, ond yn llai felly pan ofynnir yn uniongyrchol i yfwyr.
- Cynnydd mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn debygol o fod oherwydd nifer o ffactorau yn hytrach nag unrhyw ddiffyg effeithiolrwydd o ran MPA.
- Gostyngiadau mewn derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol, er bod hynny yn debygol o fod oherwydd nifer o ffactorau yn hytrach nag effaith effeithiolrwydd enfawr MPA.

Cyflwyniad

7.1 Fel y nodwyd yn flaenorol, bwriad Llywodraeth Cymru ar gyfer MPA oedd targedu'r rheini sy'n cael eu hystyried yn yfwyr peryglus a niweidiol. Yn benodol, y rheini sy'n yfed ar lefelau a allai fod yn beryglus yn hytrach na'r rheini y mae eu lefelau yfed yn arbennig o uchel ac yn gyson â thriniaeth. Ymhlith canlyniadau dangosol y gwaith modelu oedd yr awgrym o ostyngiad mewn salwch sy'n gysylltiedig ag alcohol, marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, a derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r bennod hon yn edrych ar rywfaint o'r data penodol yng Nghymru sy'n adlewyrchu'r tueddiadau dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys ers cyflwyno'r MPA, yn erbyn rhai o'r mesurau hyn.

Defnydd o alcohol

7.2 Roedd y darlun gweithredu cyn-MPA yn awgrymu:

- Rhwng 2016 a 2019, nodwyd bod 60% o yfwyr yng Nghymru yn gymedrol, gydag oddeutu 15% yn niweidiol, a 2% yn beryglus⁵⁰.

⁵⁰ [National Survey for Wales 2016-17 to 2018-19: alcohol consumption prior to introduction of minimum price \(gov.wales\)](https://gov.wales/national-survey-for-wales-2016-17-to-2018-19-alcohol-consumption-prior-to-introduction-of-minimum-price)

- Yn 2017 roedd un oedolyn o bob pump yng Nghymru yn yfed mwy na 14 uned (h.y. yn uwch na'r canllawiau a argymhellir yn y DU⁵¹).
- Yn ddiweddar (2020) roedd data arolwg Omnibws Cymru yn nodi bod 10% o'r ymatebwyr yn yfed bedair gwaith yr wythnos neu fwy. Roedd yn tynnu sylw at amrywiadau bach iawn mewn patrymau amllder a swmp y defnydd o 2014. Mae'n parhau i ddangos bod dynion hŷn yn cynrychioli'r yfwyr sy'n wynebu'r risg fwyaf⁵².

7.3 Mae'r darlun gweithredu ôl-MPA yn awgrymu:

- Mae'r bennod flaenorol wedi sefydlu bod yr yfwyr hynny a gafodd eu harolygu a'u cyfweld mewn elfennau eraill o'r gwerthusiad wedi awgrymu nad yw MPA wedi cael fawr o effaith ar faint o alcohol maen nhw'n ei yfed.
- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-2022 yn dangos bod 16% o oedolion wedi dweud eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol. Er y gallai hyn awgrymu gostyngiad bach yn y ffigur o un o bob pump uchod yn 2017, ni ellir ei gymharu'n uniongyrchol â data blaenorol yr Arolwg Cenedlaethol oherwydd newidiadau mewn methodoleg a chwestiynau a ofynnwyd⁵³.
- Roedd Alcohol Change hefyd wedi adrodd ar arolwg o 1,000 o yfwyr a oedd yn awgrymu nad oedd y mwyafrif helaeth (92.5%) wedi lleihau eu hyfed o ganlyniad i MPA⁵⁴.
- Yn ogystal â'r hyn a nodir ym **Mhennod 8**, mae'n amlwg bod COVID-19 hefyd wedi effeithio ar batrymau yfed alcohol.

7.4 Mae'r bennod flaenorol wedi dangos yr effaith gynnar ar ostyngiad mewn gwerthiant yng Nghymru (a ddefnyddir yn aml fel procsi ar gyfer defnydd), fel y'i sefydlwyd yn yr 'Astudiaeth manwerthwyr'. Mae astudiaethau eraill hefyd wedi nodi hyn, gan ddod i'r casgliad bod cyflwyno MPA yng Nghymru wedi cael effaith gadarnhaol ar werthiant alcohol ar unwaith⁵⁵. Roedd data Cymru o'i gymharu â data gorllewin Lloegr yn dangos cynnydd o 8.2% mewn prisiau, a gostyngiad o 8.6% yn y pryniant ar ôl cyflwyno'r MPA⁵⁶. Mae

⁵¹ [Ffordd o fyw oedolion \(Arolwg Cenedlaethol Cymru\): Ebrill 2016 i Mawrth 2017 | LLYW.CYMRU](#)

⁵² roedd yr adroddiad yn cynnwys data ar yfed alcohol a fesurwyd drwy ddefnyddio'r tri chwestiwn AUDIT C. Cafodd y rhain eu casglu bob chwe mis rhwng 2020 a 2022

⁵³ [Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-2022](#)

⁵⁴ [Press release: Alcohol Change UK](#)

⁵⁵ [Arferion yfed Cymru: \(senedd.cymru\)](#)

⁵⁶ [Impact of minimum unit pricing on alcohol purchases in Scotland and Wales: controlled interrupted time series analyses - The Lancet Public Health](#)

darluniau tebyg wedi cael eu hamlygu ym **Mhennod 10** ar gyfer yr Alban hefyd.

Marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol

- 7.5 Yn ôl y gwaith modelu a wnaed gan Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield [SARG] yn 2018, byddai isafswm pris o 50ppu yn arwain at 66 yn llai o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol⁵⁷. Mae'r gwaith modelu'n nodi oedi sylweddol (20 mlynedd) ar gyfer rhai cyflyrau iechyd rhwng newidiadau mewn yfed a newidiadau mewn incwm iechyd negyddol. Felly, nid ydym yn debygol o weld unrhyw ganlyniadau o'r fath yn ystod cyfnod cychwynol y ddeddfwriaeth a'r pedair blynedd gyntaf o werthuso.
- 7.6 Fodd bynnag, mae'n amlwg dros y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys y cyfnod ers cyflwyno'r MPA, bod adroddiadau ar farwolaethau alcohol yng Nghymru, a'r rheini sy'n cyfrif am Gymru a Lloegr, yn dangos cynnydd nodedig yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae manylion y dolenni a'r dystiolaeth ar gyfer y darlun hwn i'w gweld yn **Atodiad 1.8**.

Golwg gyffredinol ar yr ystadegau cyfredol

- 7.7 Dyma'r ystadegau allweddol mewn perthynas â'r lefelau presennol o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol:
- Yn 2020, gwelwyd cynnydd o 18.2% yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru.
 - Mae ystadegau 2020-21 yn dangos cynnydd arall o tua 7%.
 - Mae cynnydd tebyg mewn cyfraddau marwolaethau yn amlwg yn Lloegr a'r Alban.
 - Mae cyfradd y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn sylweddol uwch ymysg dynion na menywod.
 - Yn ystod y cyfnod rhwng 2015 a 2020, roedd marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru ar eu huchaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Gyda'r cyfartaledd pum mlynedd ar gyfer dynion yn tua 20% yn uwch yn yr ardal fwyaf difreintiedig o'i gymharu â'r lleiaf difreintiedig.

⁵⁷ [Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisiau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol](#)

- Mae marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru wedi'u canoli o fewn poblogaethau trefol de a gogledd y wlad.
- Mae cyfraddau marwolaethau diweddar yn fwyaf amlwg yn eu niferoedd a'r cynnydd ymysg y rhai 45-69 oed.
- Mae cyfraddau marwolaethau diweddar yng Nghymru ychydig yn uwch na'r rhai ar gyfer Lloegr, ond yn amlwg yn is na'r cyfraddau ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Er gwaethaf y cynnydd ystadegol presennol hwn, mae'n bwysig peidio â cholli golwg ar y ffaith bod tueddiadau hirdymor ar gyfer marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn dangos gostyngiad⁵⁸.

7.8 Efallai fod amrywiaeth o ffactorau felly a allai gyfrif am y cynnydd hwn yn hytrach nag awgrymu unrhyw aneffeithlonrwydd yn yr MPA ei hun.

Ffactorau eraill a allai gyfrif am gynnydd yn nifer y marwolaethau

7.9 Un o'r anawsterau o ran cael eglurder ynghylch unrhyw gynnydd mewn ystadegau sy'n gysylltiedig â marwolaethau yw ystyried esboniadau posibl eraill am unrhyw gynnydd o'r fath, yn hytrach nag unrhyw lefel o yfed yn unig, hyd yn oed ar gyfer y rhai a gofnodwyd fel marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Dau ffactor nodedig sy'n cyfrannu at gynnydd mewn marwolaethau yn ystod y cyfnod hwn yw cyni (amddifadedd) a COVID-19.

- Roedd cyfraddau marwolaeth ledled y DU wedi peidio â gwella ar ddechrau'r 2010au. Mae cyfraddau marwolaethau cynyddol wedi cael eu gweld ymysg y tlotaf ar draws y DU ers 2010. Mae sylfaen dystiolaeth gynyddol wedi priodoli'r newidiadau hyn i bolisiau cyni Llywodraeth y DU sydd wedi lleihau incwm y tlotaf ac amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus pwysig⁵⁹. Yn yr Alban, roedd marwolaethau a oedd yn cael eu priodoli i alcohol 5.6 gwaith yn fwy tebygol yn ardaloedd mwyaf difreintiedig yr Alban o'i gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn fwy na'r bwlch amddifadedd ar gyfer pob achos marwolaeth, sef 1.9⁶⁰.
- Hyd at 16 Medi 2022, roedd cyfanswm o 10,814 o farwolaethau cysylltiedig â COVID-19 wedi digwydd yn ystod y pandemig yng Nghymru. Roedd y

⁵⁸ [Alcohol deaths rise sharply in England and Wales | The BMJ](#)

⁵⁹ [Bearing the burden of austerity: how do changing mortality rates in the UK compare between men and women? | Journal of Epidemiology & Community Health \(bmj.com\)](#)

⁶⁰ [Alcohol-specific deaths, 2021, Report \(nrscotland.gov.uk\)](#)

pandemig wedi arwain at tua 139,000 o farwolaethau ychwanegol yng Nghymru a Lloegr erbyn 29 Gorffennaf 2022, ac mae wedi achosi'r gostyngiad mwyaf mewn disgwyliad oes ers yr Ail Ryfel Byd⁶¹.

Derbyniadau i ysbytai

- 7.10 Yn ôl y gwaith modelu a wnaed gan SARG yn 2018, byddai MPA ar 50ppu yn y pen draw (ar ôl 20 mlynedd) yn arwain at 1,281 yn llai o dderbyniadau i ysbytai, sy'n gysylltiedig ag alcohol, bob blwyddyn⁶².
- 7.11 Yn 2015-16 yn unig, roedd 54,000 o dderbyniadau i ysbytai yng Nghymru oherwydd alcohol. Amcangyfrifir bod derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol yn costio £120 miliwn y flwyddyn i'r GIG⁶³.
- 7.12 Roedd derbyniadau i ysbytai oherwydd alcohol yng Nghymru wedi dangos gostyngiad sylweddol ar gyfer 2020-2021 (23%). Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer y derbyniadau eraill i ysbytai hefyd wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, oherwydd effaith a chyfyngiadau COVID-19⁶⁴.

Archwiliadau – Trwyddedu

- 7.13 Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2022 roedd Safonau Masnach Cymru wedi arolygu 3,013 o'r 3,157 o adeiladau a oedd wedi'u cofrestru â thrwyddedau i werthu alcohol oddi ar y safle. Mae hyn yn cynrychioli cywerthedd o 95.44% o safleoedd yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru. Cynhaliwyd yr arolygiadau gyda phwyslais ar gefnogi'r gweithredu. O'r herwydd, tynnodd arolygwyr sylw manwerthwyr at rai mân achosion o werthu dan yr isafbris (fel arfer pris anghywir o'i gymharu â chyfrifiadau cyfaint), a chafodd bron pob un o'r rhain eu cywiro mewn ail arolygiad. Dim ond chwe hysbysiad cosb benodedig a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod hwn lle'r oedd ail archwiliad yn parhau i dynnu sylw at fanwerthwyr nad oeddent yn cydymffurfio ag MPA⁶⁵.

⁶¹ [Deaths from COVID-19 \(coronavirus\): | The King's Fund \(kingsfund.org.uk\)](https://www.kingsfund.org.uk/deaths-from-covid-19)

⁶² [Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: adroddiad terfynol](#)

⁶³ [Plenary 24/10/2017 - Welsh Parliament \(assembly.wales\)](#)

⁶⁴ [Arferion yfed Cymru: faint sydd wedi newid ers cyflwyno'r isafbris am alcohol? \(senedd.cymru\)](#)

⁶⁵ Crynodeb o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Pennaeth Safonau Masnach yn y cyfweiliad ar gyfer pennod 9.

Alcohol Change Cymru

- 7.14 Mae Alcohol Change Cymru wedi cynnal cyfres o ddadansoddiadau sy'n cymharu prisiau detholiad o ddiodydd alcoholaidd poblogaidd mewn archfarchnadoedd yng Nghymru a Lloegr yn 2019, 2020, a 2022. Mae'r data a'r adroddiadau cryno ar gael i dimau ymchwil MPA a Llywodraeth Cymru.
- 7.15 Mae'r data hwn wedi bod yn ddefnyddiol iawn, gan ei fod wedi dangos lefel glir o gydymffurfiaeth yn y prisiau ôl-weithredu a welwyd. Yn ogystal, mae wedi darparu manylion sydd wedi dangos pa gynnyrch sydd wedi cynyddu yng Nghymru o ganlyniad i MPA, ond hefyd y rhai nad ydynt wedi cynyddu. Mae manylion eu hadroddiadau hefyd yn dal i ddangos amrywiaeth sylweddol ymysg y prif benawdau neu negeseuon.
- Roeddent yn gallu nodi amrywiaeth o gwrw, seidr, gwirodydd a gwinoedd a oedd ar gael ym mis Tachwedd 2019 am bris is na 50c yr uned.
 - Yn 2020 roedden nhw'n gallu gweld nad oedd rhai cynhyrchion, yn enwedig seidrau a lager cryf, ar gael i'w gwerthu mwyach.
 - Yn ogystal, roeddent yn sylwi bod archfarchnadoedd wedi cyflwyno ystod llawer mwy o gynnyrch gwirodydd 350ml a 500ml i'w galluogi i gael eu gwerthu mewn rhai pwyntiau pris allweddol (e.e. 500ml am £9.99).
 - Erbyn 2022 roedd yn ymddangos bod y duedd hon o boteli llai o faint wedi cael ei gwrthdroi i raddau helaeth.
 - Yn fwy cyffredinol erbyn 2022 roedd y rhan fwyaf o archfarchnadoedd fel petaent yn gwerthu gwirodydd brand eu hunain yn union ar y pwynt pris 50ppu (h.y. pris cyson o £13.13 am bob 700ml a £18.75 y litr).
 - Hefyd, erbyn 2022 fe wnaethant gofnodi amrywiaeth o ostyngiadau mewn ABV rhai cynhyrchion i helpu i gadw eu pris ar lefel is.
 - Yn olaf, roedd rhai cynhyrchion a oedd wedi diflannu i ddechrau yn 2020 wedi dychwelyd i siopau Cymru erbyn 2022.
- 7.16 Wrth adolygu'r data cronus ar gyfer y tair blynedd, mae Alcohol Change Cymru wedi nodi'r arsylwadau ychwanegol pwysig canlynol.
- Mae data'r arolwg yn gwrthbrofi'r syniad bod yr holl ddiodydd alcoholaidd yng Nghymru naill ai'n cael eu priso yr un fath â'r rhai yn Lloegr, neu'n ddrutach na'r rheini yn Lloegr. Er enghraifft, mae potel 70cl o Gin [Brand] yn [Archfarchnad] yn Lloegr yn costio £16 (61c yr uned); yn [yr un archfarchnad] yng Nghymru, mae ar gael am £13.30 (50c yr uned). Felly,

mae diodydd alcoholaidd sydd ar gael yn Lloegr sy'n cael eu gwerthu o dan drothwy Isafswm Pris Uned 50ppu ac sy'n cael eu gwerthu'n union ar y trothwy 50ppu yng Nghymru; ond mae achlysuron hefyd lle mae diodydd alcoholaidd eisoes yn cael eu priso'n uwch na'r trothwy 50ppu yn Lloegr, ond yn cael eu gwerthu'n union ar y trothwy 50ppu yng Nghymru.

- Effaith MPA ar brisiau a chynnyrch aml-brynu neu ddisgownt lluosog sydd ar gael. Yn eu harolwg, yr eitem rataf fesul uned ar werth yn Lloegr yw seidr [Brand] ar 27c yr uned, fel rhan o fargen aml-brynant lle mae 36 can (tri cas o 12 x 440ml) ar gael am £18.99. Byddai'n rhaid i'r cynnyrch cyfatebol yng Nghymru fod yn £35.64 ond nid oedd ar gael i'w brynu. At ei gilydd, roeddent yn nodi bod 21 o fargeinion aml-brynant wedi'u cofnodi yn siopau Lloegr, o'i gymharu â dim ond pump yng Nghymru.
- Yn fwy cyffredinol, mae rhai prisiau wedi parhau i aros yn sefydlog neu hyd yn oed ostwng lle y gellid bod wedi disgwyl iddynt godi o leiaf o dan chwyddiant. Canfuwyd nad oedd prisiau llawer o'r diodydd alcoholaidd yn 2019 wedi newid yn 2021, neu eu bod ychydig yn rhatach. Er enghraifft, pris pedwar can o lager [Brand] yn [archfarchnad] oedd £3.60 ym mis Rhagfyr 2019. Ym mis Rhagfyr 2021, £3.49 oedd y cynnyrch yn Lloegr a £3.52 yng Nghymru.

8. Ffactorau eraill

Crynodeb

- Tarodd COVID-19 yn syth ar ôl cyflwyno MPA, ac mae hynny wedi cael effaith sylweddol ar yfed alcohol ac ymddygiad prynu.
- Mae'r diwydiant alcohol yn chwaraewr dylanwadol, ac mae ei weithgareddau'n aml yn anghyson â gweithgareddau agenda lleihau niwed.
- Mae gan y cyfryngau rôl yn siapio, yn gadarnhaol neu'n negyddol, sut mae polisïau a negeseuon iechyd y cyhoedd yn cael eu fframio.
- Mae tystiolaeth o siopa trawsffiniol, er bod hyn yn cynrychioli cyfran fach o'r gwerthiannau cyffredinol.
- Mae cyd-destunau economaidd personol a chymdeithasol yn effeithio'n uniongyrchol ar fforddiadwyedd cymharol alcohol.
- Mae'r dreth alcohol wedi aros yn gymharol isel neu wedi'i rhewi ac, o'r herwydd, mae'n cynyddu fforddiadwyedd cymharol alcohol.

Cyflwyniad

- 8.1 Fel y sefydlwyd drwy'r penodau blaenorol, nid yw yfed alcohol, polisi na thriniaeth yn digwydd mewn gwagle. Mae amrywiaeth o ffactorau yn dylanwadu arnynt. Un o'r gwahaniaethau mwyaf trawiadol rhwng amseriad gweithredu'r Alban a'r gweithredu yng Nghymru yw bod yr olaf yn agos iawn at ymddangosiad COVID-19 ac mae wedi parhau i 'argyfwng costau byw' 2022. Ynghyd â'r ddau senario enfawr hyn, mae hefyd yn bwysig ystyried dylanwadau eraill ar yr effeithiau posibl sy'n cael eu harsylwi (neu ddim). Mae'r rhain yn cynnwys ystyried rôl y diwydiant alcohol a'r cyfryngau, ac maent yn cynnwys amrywiaeth o ystyriaethau polisi economaidd a chymdeithasol eraill. Mae'r bennod hon yn edrych ar rai o'r materion hyn sy'n ymwneud â chyfraniad ehangach⁶⁶.

⁶⁶Mae'r lluo o ddylanwadau ar un ymddygiad sy'n gysylltiedig ag iechyd yn cael ei ddangos yn glir yn y map meddwl [Foresight](#) ar ordewdra.

COVID-19

- 8.2 Mae hyd a lled effaith ehangach COVID-19 ar gymdeithas, iechyd a gwasanaethau Cymru wedi'i gofnodi'n helaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu dangosfwrdd ar-lein COVID-19 rhyngweithiol⁶⁷. Mae hyn yn nodi ystod o effeithiau niweidiol yn bennaf ar: farwolaethau; gweithgarwch y GIG; y farchnad lafur ac economaidd; a chymdeithas/gwasanaethau cyhoeddus. Mae COVID-19⁶⁸ hefyd wedi rhyngweithio'n benodol mewn nifer o ffyrdd â defnydd unigolion o alcohol ac ymddygiad prynu; yn fwyaf penodol, effeithio ar yfed, cyfyngu ar gyfleoedd prynu a'u newid, gan effeithio ar incwm a fforddiadwyedd, a darparu cymhellion a chyfleoedd gwahanol i yfed. Mae hefyd wedi arwain at nifer o newidiadau i natur y gwasanaethau cefnogi a ddarperir ar gyfer y rheini sy'n ceisio cymorth mewn perthynas â'u hyfed ac anghenion iechyd a chymdeithasol eraill. Cafodd hyn ei gydnabod mewn fersiwn diwygiedig o Gynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau⁶⁹. Mae'r rhain wedi bod yn arbennig o amlwg ac yn negyddol ymysg rhai grwpiau (h.y. pobl sy'n defnyddio cyffuriau⁷⁰, a'r rheini sy'n ddigartref⁷¹).
- 8.3 Mae'n amhosibl dianc rhag y ffaith bod gweithredu'r MPA yng Nghymru ar unwaith wedi cyd-daro ag effaith ffrwydrol COVID-19 a symud i'r cyfnod clo cenedlaethol llawn cyntaf (h.y. digwyddodd y ddau ddigwyddiad ym mis Mawrth 2020). Arweiniodd natur y digwyddiadau hyn, fel rhai oedd yn cyd-ddigwydd, at Lywodraeth Cymru yn comisiynu adroddiad ychwanegol a phenodol gan y prosiect a oedd yn edrych ar yr effaith ar y boblogaeth ehangach o yfwyr, i werthuso'r agosrwydd uniongyrchol hwn ac unrhyw ryngweithio ac effaith gweladwy⁷². Nodir prif negeseuon yr adroddiad hwnnw

⁶⁷ [COVID-19 yng Nghymru: dangosfwrdd rhyngweithiol | LLYW.CYMRU](#)

⁶⁸ Rydyn ni'n defnyddio'r amser presennol yn fwrriadol. Yn yr ystyr, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad (haf 2022) er bod gan arferion cymdeithasol ehangach ymdeimlad o rywffaint o 'dychwelyd i normal', mae unigolion yn dal i fod yn agored i'r feirws a'i effeithiau hirdymor, ac nid yw natur unrhyw brofiad o drydydd gaeaf yn hysbys eto.

⁶⁹ [Cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2019 i 2022 \(llyw.cymru\)](#)

⁷⁰ [Bancroft et al 2022 Illicit economy in time of COVID](#)

⁷¹ [Nyamathi et al 2022 Perceptions of Homeless Adults and Their Providers on Coping With the Impact of COVID-19 Pandemic on Mental Health, Substance Use, and Harm Reduction Services](#)

⁷² [Effaith COVID-19 a'r isafbris am alcohol: effaith ar y boblogaeth ehangach | LLYW.CYMRU](#)

ym **Mhennod 6** uchod, ac maent hefyd yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth penodol o effaith COVID-19 ar yfed alcohol.⁷³

- 8.4 Un o'r negeseuon, sydd wedyn wedi aros yn gyson dros y ddwy flynedd diwethaf, yw bod COVID-19 wedi bod yn 'ddigwyddiad' llawer mwy na chyflwyno MPA. Clywyd y neges hon yn glir hefyd gan yr unigolion a gyfwelwyd yn benodol ar gyfer yr astudiaeth hon (gweler **Pennod 9**). Mae'n hawdd dod i'r casgliad ei fod, i raddau mwy, wedi taflu cysgod ar weithredu MPA. Mae unigolion, gweinidogion a darparwyr gwasanaethau wedi neilltuo amser sylweddol iawn iddo. Mae hyn wedi golygu nad yw gwerthuso effaith MPA yng Nghymru wedi cael yr un ffocws na ffenestr lân â chyflwyno MUP yr Alban, er, wrth gwrs, gellir dadlau o hyd y gellir defnyddio Lloegr fel 'rheolydd' (h.y. roedd yn profi COVID-19 ond nid oedd ganddo MPA).
- 8.5 Yn syml iawn, mae wedi golygu bod 'ddadansoddi' data a gallu gweld unrhyw ganlyniadau amlwg i'r polisi y tu hwnt i'r rheini sy'n ymwneud â chydymffurfio, pris a newid cynnyrch, yn anodd iawn ac yn gynyddol aneglur. Fel y nodir isod, mae rôl fforddiadwyedd alcohol i unigolion bellach wedi cael ei dwysau ymhellach gan brofiadau o dlodi mwy dwys a phwysau ar incwm drwy'r 'argyfwng costau byw' sy'n dod i'r amlwg.
- 8.6 Er hynny, ac ar y cyfan, mae'n bosibl awgrymu rhai negeseuon craidd am berthynas COVID-19, yfed alcohol, ac MPA yn benodol.

Tabl 9.1: Negeseuon craidd am COVID-19, yfed alcohol, ac MPA

Neges	Sylwebaeth a ffynonellau gwybodaeth pellach
COVID-19 yn tynnu sylw	<ul style="list-style-type: none"> • COVID-19 yn tynnu sylw unigolion, cyfryngau, gwasanaethau a llywodraethau (gan gynnwys ailgyfeirio adnoddau).
COVID-19 fel ffactor a allai fod yn fwy o ran newid ymddygiad yfed	<ul style="list-style-type: none"> • Pennod 7 • Public Health Scotland - Alcohol sales and COVID-19 • Hardie et al 2022 COVID-19 article (Sheffield Group) • Barbosa et al 2002 COVID-19 Alcohol in US article
Efallai bod newidiadau i arferion yfed a achoswyd	<ul style="list-style-type: none"> • The-COVID-19-Hangover-report-July-2022.pdf (ias.org.uk)

⁷³ [Effaith COVID-19 a'r isafbris am alcohol: effaith ar y boblogaeth ehangach | LLYW.CYMRU](#)

gan COVID-19 yn arwain at effeithiau hirdymor

Gostyngodd gwerthiant alcohol yn gyffredinol (oherwydd atal gwerthiant ar y safle) yn 2020-21 os caiff ei fesur yn ôl cyfanswm derbyniadau treth alcohol

- Bwletinau Alcohol Cyllid a Thollau EM h.y. [HMRC Alcohol Bulletins Oct 2022](#)

Roedd COVID-19 wedi effeithio ar natur gwasanaethau cymorth a thriniaeth i unigolion/yfwyr.

- Adroddiad Asesu Effaith gynnar MPA a COVID-19
- [Barod Cymru - Lessons-from-COVID-19](#)
- [Seddon et al 2022 Older People Alcohol and COVID-19](#)
- [Richert and Nordgren, 2022 Social Work Drugs and COVID-19](#)

Mae COVID-19 yn arwain at fwy o gefnogaeth/cydymdeimlad â negeseuon penodol Caerdydd/Llywodraeth Cymru.

- [Arolwg o farn y cyhoedd ar y coronafeirws \(COVID-19\)-](#)
- Nid dim ond COVID-19 – mae enghreifftiau eraill o Gymru a'r Alban yn cynnwys: parcio am ddim mewn ysbytai; ffioedd addysg uwch ychydig yn wahanol; presgripsiynau am ddim; prydau ysgol am ddim; ac ati⁷⁴.

Nodiadau'r tabl: Gweler **Pennod 9** ac **Atodiad 1.10 ac 1.11** am ystyriaethau data sylfaenol newydd ychwanegol.

Y Diwydiant Alcohol

- 8.7 Mae alcohol yn gynnyrch sydd ar gael yn gyfreithiol i ddefnyddwyr. O'r herwydd, mae argaeledd, marchnata a phris yn digwydd gymaint (os nad mwy) o ganlyniad i weithredu (economaid) gan y diwydiant ag y mae o bolisi'r llywodraeth.
- 8.8 Wrth ystyried y 'diwydiant' alcohol a'i ddylanwad ar argaeledd a phris cynnyrch, mae'n werth ystyried bod hyn yn cynnwys nifer o grwpiau o chwaraewyr. Yn fwy cyffredinol, gellir rhannu'r rhain yn gynhyrchwyr a manwerthwyr. Gellir ystyried hefyd ei fod yn cynnwys amrywiaeth o

⁷⁴Ar gyfer arolygon tebyg, gweler er enghraifft - [Unchecked 2021 Attitudes-of-Welsh-voters-to-regulation-and-deregulation.](#)

gymdeithasau masnach. Er y dylid nodi yng nghyd-destun sefydliadau economaidd neo-ryddfrydol byd-eang enfawr, mae'r ffiniau hyn yn aml yn mynd yn fwyfwy aneglur.

- 8.9 Mae **Penodau 2, 3, a 4** yn crynhoi elfennau cyffredinol y polisi alcohol. Yn ogystal ag ystyriaethau craidd o ran argaeledd, marchnata a phris, rydym wedi nodi bod polisi alcohol effeithiol hefyd yn rhan o wleidyddiaeth yn ehangach. Yn y cyd-destun olaf hwn, ac er mwyn cael gwell dealltwriaeth o weithredu polisi MPA, mae hefyd yn dod yn bwysig nodi'r her a'r gwella polisiâu sy'n cael ei achosi gan dactegau ehangach y diwydiant alcohol o ran lobiö, symudiadau a rhwystro. Mae'r ffaith bod y diwydiant alcohol yn chwaraewr gwleidyddol mawr bellach wedi dod yn ystyriaeth polisi ac ymchwil sydd wedi hen ennill ei phlwyf, gyda chymariaethau o ymddygiad y diwydiant yn aml yn cael eu gwneud â rhai diwydiannau eraill sy'n ymwneud â thrafodaeth a pholisi iechyd y cyhoedd, fel bwyd, gamblo neu ysmegu.
- 8.10 Yn aml, tynnir sylw at adroddiad manwl o'r ymddygiad hwn gan grŵp penodol o academyddion ac ymchwilwyr. Ceir crynodeb o ystod o bapurau yn **Atodiadau 1.2 ac 1.3**. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi ceisio crynhoi'r deunydd hwn am ymddygiad y diwydiant alcohol i ddwy ystyriaeth graidd:
- rôl uniongyrchol mewn MPA; a
 - ymyriadau sy'n berthnasol i bolisi alcohol ehangach.
- 8.11 Mae'r diwydiant alcohol wedi cael yr effaith uniongyrchol amlwg o achosi oedi i weithredu deddfwriaeth MUP ac MPA drwy heriau cyfreithiol yn y llys. Roedd hyn yn sylweddol yn yr Alban, ond hyd yn oed ar ôl i'r profion yn y llysoedd ddigwydd, teimlwyd hefyd bod oedi byrrach o dri mis yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at greu bwlch sylweddol rhwng amharodrwydd gwleidyddion a rhewi o ran rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau polisi alcohol eraill a gweithgareddau polisi tebyg⁷⁵. Yn ogystal, awgrymwyd bod y pwysau i gyflwyno'r polisi gyda'r 'cymal machlud' anarferol⁷⁶ (y gofyniad i ofyn i Lywodraeth fynd ati i barhau â deddfwriaeth neu mae'n daw i ben) yn rhoi cyfle pellach i ddiwydiant ei herio. Y manylion ar gyfer cymal

⁷⁵ [Hawkins and McCambridge 2020 'Tied up in a legal mess': The alcohol industry's use of litigation](#)

⁷⁶ [Sunset Clauses in International Law and their Consequences for EU Law \(europa.eu\)](#)

machlud MPA Cymru yw bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad ar weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth (pum mlynedd ar ôl rhoi'r MPA ar waith) ac yna gyflwyno Rheoliadau, os ydynt yn dymuno i'r darpariaethau yn Neddf 2018 barhau⁷⁷.

- 8.12 Roedd oedi yn y llysoedd o ran gweithredu yn sicr yn sicrhau bod gan y diwydiant fwy o amser paratoi i aildrefnu ei weithgareddau masnachol. Roedd hyn yn cynnwys ymateb i isafswm prisiau drwy newid ystod o gynnyrch o ran ABV [Alcohol yn ôl Cyfaint], cryfder neu swm cyfaint⁷⁸ Er enghraifft, defnyddio'r botel wirod 50cl yn ehangach i sicrhau eu bod yn ddeniadol o fewn rhai pwyntiau pris sensitif (h.y. £9.99).
- 8.13 Mae'r diwydiant, yn ei wahanol ffurfiau, wedi bod ymysg y rhai mwyaf croch o ran lobiö, ysgogi a lleisio gwrthwynebiad i'r polisi mewn nifer o wledydd, yn enwedig Iwerddon, Cymru a'r Alban (gweler **Atodiad 1.3**). Mae'r gweithgaredd hwn wedi amlygu'r tactegau ehangach a amlinellir isod, sy'n cael eu defnyddio gan y diwydiant i herio dulliau polisi iechyd y cyhoedd ac yfed alcohol yn fwy cyffredinol.
- 8.14 Yn fwy cyffredinol, o ran mynd i'r afael â pholisïau alcohol penodol, mae nifer o ddulliau, strategaethau a thactegau'r diwydiant wedi cael eu nodi. Ymysg y rhain mae:
- datblygu cysylltiadau tymor hir ar gyfer gweithgareddau lobiö gwleidyddol a chynghreiriau o wrthwynebiad;
 - hyrwyddo naratifau amgen gan gynnwys tan-chwarae ac ail-fframio'r broblem a normaleiddio'r defnydd;
 - canolbwyntio ar leihau niwed yn hytrach na llai o ddefnydd;
 - herio cywirdeb a dilysrwydd y sylfaen dystiolaeth iechyd cyhoeddus;
 - beio yfwyr anghyfrifol a hyrwyddo yfed cyfrifol;
 - hyrwyddo'r diwydiant alcohol fel chwaraewr cyfrifol a dibynadwy ar gyfer hunan-reoleiddio; a
 - defnyddio diodydd dim alcohol ac alcohol isel i danseilio cyfyngiadau ar hysbysebu.

⁷⁷ [Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig \(llyw.cymru\)](#)

⁷⁸ [Anderson et al 2020 Impact of low and no alcohol beers on purchases](#)

- 8.15 Mae gweithgareddau corfforaethol felly'n cael eu defnyddio ar gyfer enillion yn y diwydiant i ddisodli polisi, gobeithio, rhoi effaith ar alcohol a'i ddiwydiant. Gellir crynhoi'r holl weithgarwch hwn yn y syniad o ganolbwyntio ar reoli bygythiadau i fuddiannau masnachol (h.y. elw⁷⁹). Er y dylid nodi bod rôl gymharol wan y diwydiant yng Nghymru, gyda'i ormod o bwyslais ar Holyrood (Yr Alban) a San Steffan (Lloegr), yn cael ei awgrymu fel ffactor cyfrannol a oedd yn galluogi Llywodraeth Cymru i weithredu MPA⁸⁰.
- 8.16 Dyma'r hyn y mae Wilt yn ei ddisgrifio fel '*commodification and deregulation by Big Alcohol*' which has successfully maintained self-regulation and offloaded responsibility for harm on 'problem' users 'especially through the discourse of "responsible drinking"'⁸¹.
- 8.17 Mae'n bwysig nodi bod y sylwadau hyn am y diwydiant alcohol yn cyfeirio at ddiwydiannau byd-eang corfforaethol mwy o ran cynhyrchu a manwerthu. Mae angen taro cydbwysedd mewn sgysiau o'r fath gan fod gan gynhyrchwyr alcohol cynaliadwy ar raddfa fach lleol a manwerthwyr lleol (tafarnau, siopau a bwytai) i gyd rôl gadarnhaol i'w chwarae ym mywyd cymunedol Cymru a'r diwydiant twristiaeth gwerthfawr.
- 8.18 Y casgliad yw bod gan y diwydiant alcohol ddylanwad ond nad yw heb ei gyfyngiadau. Byddai'r llenyddiaeth yn awgrymu bod hyn yn fwy amlwg (cronnus) yn flaenorol yn yr Alban ac yn fwy diweddar yn Iwerddon nag yng Nghymru efallai. Gallai hyn adlewyrchu llai o amlygrwydd gan nad yw llawer o'u meysydd gweithredol wedi'u datganoli'n llwyr i Gymru, ond maent yn digwydd yn San Steffan gymaint â Chaerdydd. Gall hefyd adlewyrchu pwysigrwydd cymeriad penodol sefydliadau gwleidyddol Cymru a chymuned polisi iechyd y cyhoedd sy'n cefnogi'r gwaith o fframio MPA⁸².

⁷⁹ [McCambridge et al 2018 Alcohol industry involvement in policymaking:](#)

⁸⁰ [Lesch and McCambridge 2021 Reconceptualising Alcohol Policy Decision Making](#)

⁸¹ Wilt, J. (2022). *Drinking Up the Revolution: How to Smash Big Alcohol and Reclaim Working-Class Joy*. Repeater Books.

⁸² [Full article: Policy communities, devolution and policy transfer: The case of alcohol pricing in Wales \(tandfonline.com\)](#)

Y Cyfryngau

- 8.19 Mae llawer o'r diwydiant alcohol yn ceisio atal neu wella (o'u plaid) polisi alcohol cyhoeddus, gan gynnwys datblygiadau prisio, ac mae wedi defnyddio'r cyfryngau i gyfleu ei safbwyntiau.⁸³⁸⁴ Cyfeirir at hyn yn aml fel rhan o'r cynnydd mewn polareiddio/gwleidyddoli, a llai o ddefnydd o newyddiaduraeth (gytbwys) sy'n seiliedig ar dystiolaeth, neu sydd weithiau'n cael ei dybio, fel dirywiad yn safonau'r cyfryngau. Fodd bynnag, er hynny gall y cyfryngau hefyd chwarae rhan gadarnhaol mewn negeseuon hybu iechyd llwyddiannus.
- 8.20 Roedd enghreifftiau diweddar o'r cyfryngau yn cael eu defnyddio i gwestiynu effeithiolrwydd MPA yn cynnwys rhai galwadau amlwg gan y Ceidwadwyr Cymreig, yn dilyn defnydd Fforwm Cyffuriau'r Alban o'r cyfryngau yn dilyn cyhoeddi ffigurau marwolaethau y gellir eu priodoli i gyffuriau yn yr Alban ar gyfer 2022.,⁸⁵⁸⁶
- 8.21 Dangoswyd bod safbwyntiau wedi'u polareiddio (diddordebau personol) yn aros yn gyson rhwng cefnogwyr a gwrthwynebwyr isafswm prisiau, gydag ychydig iawn o newid drwy drafod a lleoli ar gyfryngau cyhoeddus.⁸⁷

Trawsffiniol

- 8.22 Mae diffyg polisi MPA mewn awdurdodaethau cyfagos, ac yn enwedig ar gyfer Cymru a'r Alban, yn Lloegr, wedi codi'r pryder ynghylch effaith debygol unrhyw weithgarwch siopa trawsffiniol a'r effaith ar fanwerthwyr bach sy'n gweithredu ar unrhyw ffin o'r fath, gan y gallai yfwyr chwilio am alcohol rhatach yn eu cymunedau cyfagos.
- 8.23 Mae **Pennod 10** yn tynnu sylw at y ffaith bod siopa trawsffiniol wedi digwydd yn yr Alban. Fodd bynnag, mae nifer yr unigolion sy'n gwneud hynny'n fach

⁸³ [How did policy actors use mass media to influence the Scottish alcohol minimum unit pricing debate? Comparative analysis of newspapers, evidence submissions and interviews \(gla.ac.uk\)](#)

⁸⁴ [Implications for alcohol minimum unit pricing advocacy: What can we learn for public health from UK newsprint coverage of key claim-makers in the policy debate? - ScienceDirect](#)

⁸⁵ [Call for review of minimum alcohol pricing in Wales after link to drug deaths – Swansea Bay News](#)

⁸⁶ [Welsh Conservatives call for review of minimum alcohol pricing after links to drug deaths \(nation.cymru\)](#)

⁸⁷ [Implications for alcohol minimum unit pricing advocacy: What can we learn for public health from UK newsprint coverage of key claim-makers in the policy debate? - ScienceDirect](#)

iawn mewn perthynas â'r boblogaeth yn gyffredinol. Lle mae wedi digwydd, mae ond wedi digwydd ymysg y rheini sy'n byw'n agos at y ffin ac sydd hefyd â'r modd (h.y. car ac incwm) a chyfle (h.y. amser) i fanteisio ar unrhyw enillion ariannol posibl a gynigir gan y teithiau siopa trawsffiniol.

- 8.24 Yng Nghymru, mae'r adroddiadau sydd ar gael (**Pennod 6** yn benodol) yn awgrymu bod y darlun hyd yma yn debyg i'r darlun yn yr Alban. Mae siopa trawsffiniol yn amlwg, er ei fod wedi'i gyfyngu'n bennaf i'r rheini sy'n agos at Loegr a gyda'r cyfle a'r dulliau perthnasol i fanteisio ar unrhyw fantais o'r fath. Yn fwyaf nodedig, mae'n ymddangos mai cymunedau ar y ffin yng Nglannau Dyfrdwy/Wreccsam a Phowys yw'r rhain.

Cyllid a Marchnadoedd

- 8.25 Mae isafbris alcohol yn ymwneud â fforddiadwyedd. O'r herwydd, mae ystyriaethau economaidd cymdeithasol ehangach a phersonol yn ffactorau pwysig o ran effaith gymharol unrhyw bolisi prisio alcohol.

Economeg bersonol

- 8.26 Mae'r holl benodau blaenorol wedi nodi'n glir, er gwaethaf cyffredinedd polisïau isafswm prisiau (h.y. maent yn effeithio ar bris cynnyrch sydd ar gael i bawb ac sy'n cael ei brynu gan bawb), bod gwahaniaeth mewn incwm yn ffactor sylweddol o ran sut maen nhw'n cael eu teimlo. Yn syml iawn, maent yn bolisïau sy'n cael llawer mwy o effaith ar y rheini sydd ar incwm isel. Mae grwpiau incwm isel o'r fath hefyd yn cynnwys nifer fawr o'r yfwyr dibynnol a digartref sydd wedi dibynnu hyd yn ddiweddar ar gynnyrch alcohol rhad, yn enwedig seidr a lager, i wneud eu defnydd o alcohol yn fforddiadwy. O ystyried yr effaith hon, mae'r gwerthusiad hwn wedi tynnu sylw at yr angen i weld polisi prisio o fewn y darlun ehangach a nifer o ystyriaethau polisi eraill. Nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu bod polisi prisio alcohol yn beth drwg, ond yn hytrach mae'n pwysleisio'r angen am bolisïau cyfiawnder cymdeithasol ehangach sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o'r fath.

- 8.27 Mae canlyniadau cymdeithasol ac iechyd, gan gynnwys canlyniadau sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn gyson waeth i unigolion ac ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol.⁸⁸
- 8.28 Un o'r grwpiau incwm isel yw'r rhai sy'n defnyddio'r system fudd-daliadau. Mae nifer o newidiadau allweddol i Gredyd Cynhwysol a budd-daliadau tai wedi digwydd ers cyflwyno'r MPA. Mae'r penderfyniadau ar gyfer y rhain y tu hwnt i Lywodraeth Cymru, ond mae iddynt oblygiadau i unigolion yng Nghymru. Er enghraifft, mae'n ymddangos bod talu symiau misol dan Gredyd Cynhwysol neu fudd-dal tai yn uniongyrchol i unigolion wedi cael effaith negyddol ar yfwyr dibynnol. Er enghraifft, mwy o gyfleoedd i wario symiau mawr ar alcohol ac yna osgoi talu biliau eraill⁸⁹.⁹⁰ Dadleuwyd hefyd bod gweithredu'r systemau budd-daliadau hyn, yn enwedig gweithgareddau sy'n ymwneud â sancsiynau, wedi arwain at fwy o amddifadedd⁹¹⁹²⁹³.
- 8.29 Mae'r cynnydd diweddar yn y pwysau ar gyllidebau aelwydydd o ganlyniad i'r argyfwng 'costau byw' sy'n dod i'r amlwg hefyd yn cael effaith anghymesur ar y rheini sydd ar incwm isel. Yn benodol, mae'n ymddangos bod cost gynyddol nwyddau hanfodol, bwyd, gwres a biliau tai yn benodol yn cael effaith sylweddol. Mae penodau blaenorol wedi cadarnhau bod unrhyw wasgfa o'r fath ar yfwyr sydd ag angen neu ddibyniaeth dybiedig yn golygu y byddant yn blaenoriaethu alcohol dros y biliau hyn, a gyda'r holl ganlyniadau niweidiol posibl i iechyd eu hunain ac iechyd aelodau eraill o'r teulu.
- 8.30 Yn olaf, i rai, mae'r ddwy flynedd diwethaf a dylanwad COVID-19 wedi cael effaith niweidiol ar incwm personol, yn aml drwy golli cyflogaeth.
- 8.31 Mae lefelau incwm personol a gwahaniaethau cymharol (cyfraddau incwm isel neu dlodi) yn cael eu hachosi gan nifer o ffactorau, ond mae rhai o'r

⁸⁸ [University of Glasgow - Schools - School of Health & Wellbeing - Research - MRC/CSO Social and Public Health Sciences Unit - Research - Health Inequalities in Scotland: Epidemiological Trends Report](#)

⁸⁹ [Evaluating the impact of Minimum Unit Pricing in Scotland on people who are drinking at harmful levels - Publications - Public Health Scotland](#)

⁹⁰ Adroddiad interim gwaith ansoddol gyda gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth.

⁹¹ [In-work Universal Credit: Claimant Experiences of Conditionality Mismatches and Counterproductive Benefit Sanctions | Journal of Social Policy | Cambridge Core](#)

⁹² [Impact of Universal Credit in North East England: a qualitative study of claimants and support staff - PMC \(nih.gov\)](#)

⁹³ [Full article: Universal Credit, Lone Mothers and Poverty: Some Ethical Challenges for Social Work with Children and Families \(tandfonline.com\)](#)

datblygiadau diweddar allweddol wedi cael eu hamlygu yma. Gan ei bod yn ymddangos bod MPA yn effeithio'n anghymesur ar y rheini sydd ar incwm is, mae'n ymddangos bod y ffactorau cyd-destunol eraill hyn yn pwysleisio'r canfyddiad o bolisi sy'n targedu'r rheini ar incwm isel (gweler **adroddiad cyn-gweithredu ac adroddiad interim** o'r prosiect sy'n edrych ar yr effaith ar y boblogaeth ehangach a'r gwaith gyda gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau).

Economeg gymdeithasol

- 8.32 Yn fwy cyffredinol, mae'r argyfwng costau byw parhaus wedi ychwanegu pwysau sylweddol at y cyllidebau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau cymorth a thriniaeth, gyda rhagor o doriadau mewn gwariant yn cael eu cyhoeddi gan ganghellor llywodraeth y DU (Hydref 2022).
- 8.33 Mae'r argyfwng costau byw yn cynrychioli cyfnod o chwyddiant dwys (10% adeg drafftio'r adroddiad hwn). Er bod costau tanwydd yn ffactor cyfrannol sylweddol yma, mae hyn yn aml yn cuddio pwysau chwyddiant mwy cyffredinol. Mae'n werth ystyried bod cyfnod o godiadau chwyddiant ehangach yn golygu bod modd anghofio am gynnydd uwch mewn prisiau cynhyrchion gan gynnwys alcohol oherwydd y disgwyliad bod basged o nwyddau'n costio mwy beth bynnag.
- 8.34 Mae economeg bersonol a chymdeithasol, ynghyd â COVID-19, yn ffactor enfawr arall, yn enwedig mewn meysydd sy'n canolbwyntio ar bris cynnyrch a fforddiadwyedd. Daw'n amlwg ei fod wedi gwneud y dirwedd wleidyddol gyfan yn fwy cymhleth, ac yn sicr mae'n ychwanegu elfen ychwanegol (fwy anodd) at unrhyw sgrysiâu codi prisiau sylfaenol a/neu weithredu hynny.
- 8.35 Ceir hefyd lawer o lenyddiaeth berswadiol sy'n mynegi'r angen i ddeall defnydd hen ffasiwn a phroblemus o alcohol a chyffuriau eraill fel arwydd bwriadol o gymdeithasau cyfalafol a byd-eang mwy sy'n arwain at ddadleoli ac ymylu unigolion a chymunedau. Mae'r dadleuon hyn yn awgrymu bod llawer o gyfyngiadau yn perthyn i'r dulliau presennol o weithredu ym maes polisi alcohol a pholisïau cyffuriau eraill.⁹⁴

⁹⁴ Alexander, B. (2010). *The globalisation of addiction: A study in poverty of the spirit*. Oxford: Oxford University Press; Davies, J. (2021). *Sedated: How modern capitalism created our mental health crisis*.

Newidiadau mewn Treth

- 8.36 Mae isafbris am alcohol yn aml yn cael ei gymharu'n ffafriol â dulliau trethu uniongyrchol ar alcohol. Yn wir, roedd y gwaith modelu gwreiddiol yn dadlau, ar lefelau presennol y DU, bod angen newidiadau mawr mewn treth i gyfateb i effaith 50ppu.⁹⁵
- 8.37 Nid yw lefelau treth (tollau a TAW) y DU ar alcohol wedi cynyddu llawer yn y degawd diwethaf. Mae treth alcohol i fod i gynyddu'n flynyddol yn ôl cyfradd y Mynegai Prisiau Manwerthu. Fodd bynnag, yn ystod y deng mlynedd diwethaf, dim ond unwaith y mae hyn wedi digwydd, yn 2017/18, ac fel arall mae wedi cael ei rewi neu ei ostwng. Mae hyn yn cael yr effaith o wneud alcohol yn fwy fforddiadwy mewn termau real os, er enghraifft, addasir codiadau incwm neu chwyddiant^{96, 97}.
- 8.38 Ym mis Hydref 2022 cyhoeddodd y llywodraeth gynnydd o 12.3% (ar y RPI presennol) mewn treth alcohol, a fydd bron yn sicr yn lleihau fforddiadwyedd alcohol. Ym mis Awst 2023 bydd treth alcohol yn symud o gyfradd yn ôl cynnyrch i un yn seiliedig ar alcohol yn ôl cyfaint. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynyddu fforddiadwyedd ar gyfer rhai cynhyrchion⁹⁸.
- 8.39 O fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE) mae polisiâu trethu alcohol gwahanol iawn. Mae'r dystiolaeth yn gyfyngedig ynghylch lle mae'r trethi hyn wedi'u cynllunio i leihau niwed i iechyd y cyhoedd drwy sicrhau bod diodydd sy'n cynnwys mwy o alcohol yn cael eu trethu ar gyfraddau uwch. Yn hytrach, mae'n ymddangos bod cyfraddau treth yn adlewyrchu patrymau cynhyrchu ac yfed alcohol cenedlaethol.⁹⁹

Llundain: Atlantic; and Johnson, H.R (2016). *Firewater: How alcohol is killing my community (and yours)*. University of Regina Press.

⁹⁵ [Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisiâu Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: adroddiad terfynol](#)

⁹⁶ [Angus 2019 Modelling Alcohol Duty impacts](#)

⁹⁷ Institute for Alcohol Studies, Alcohol Alert, Hydref 2022, a datganiadau cysylltiedig ar Twitter.

⁹⁸ [Office for Budget Responsibility Alcohol Duties](#).

⁹⁹ [Comparing alcohol taxation throughout the European Union - Angus - 2019 - Addiction - Wiley Online Library](#)

Tueddiadau o un genhedlaeth i'r llall

- 8.40 Pan fydd polisi'n ymwneud â lleihau'r defnydd cyffredinol ymysg y boblogaeth, mae hefyd yn werth nodi bod y defnydd cyffredinol yn mynd drwy gylchoedd o newid rhwng cenedlaethau. Mae llawer o dystiolaeth sy'n awgrymu bod patrwm yn dod i'r amlwg o lefelau uwch o yfed llai neu ddim yfed o gwbl ymysg y boblogaeth o yfwr iau ¹⁰⁰¹⁰¹(mae hyn yn aml yn ymestyn i ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon). Fodd bynnag, mae adroddiadau eraill hefyd yn awyddus i nodi bod rhai patrymau yfed risg uchel yn parhau ymysg gwahanol grwpiau o bobl ifanc o fewn y tueddiadau hyn.

Casgliad

- 8.41 Er bod MPA yn ymwneud â fforddiadwyedd, polisiâu alcohol cyffredinol a lleihau niwed, mae hefyd yn ystyried yr angen i leihau argaeledd (gweler **Pennod 2**). Mae hefyd yn werth nodi bod nifer yr adeiladau sydd â thrwyddedau i werthu alcohol yng Nghymru a Lloegr wedi cyrraedd eu lefel uchaf ers i gofnodion cymaradwy ddechrau yn 2008, gan gynnwys cynnydd o 31% rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2022. Mae'n bosibl y gallai cynnydd o'r fath mewn argaeledd wrthbwysio ymdrechion i leihau fforddiadwyedd yn negyddol¹⁰².
- 8.42 Nid yw llawer o'r ffactorau a amlygwyd yn y bennod hon yn ymddangos yn amlwg yn unrhyw un o'r modelau Damcaniaeth Newid craidd ar gyfer MPA. Ar un ystyr, maent y tu hwnt i gysyniad syml achos ac effaith y rhesymeg dros y dulliau isafbris. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen iddynt fod yn ystyriaethau gweithredol, ac o'r herwydd maent wedi bod yn weithredol o fewn ein model rhesymeg ac ystyriaethau o dybiaethau (gweler **Pennod 5**).
- 8.43 Mae llawer o gynnwys y bennod hon wedi ein helpu i lunio un o'n casgliadau craidd, sef bod gwerthuso MPA yn faes anniben, a bod gweithgareddau dwys y blynyddoedd diwethaf, fel y disgrifir uchod, wedi dwysau'r

¹⁰⁰ [Oldham Holmes Youth drinking in decline FINAL.pdf \(sheffield.ac.uk\)](#)

¹⁰¹ [Long waves of consumption or a unique social generation? Exploring recent declines in youth drinking: Addiction Research & Theory: Vol 28, No 3 \(tandfonline.com\)](#)

¹⁰² [Alcohol and late night refreshment licensing England and Wales, year ending 31 March 2022 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

cymhlethdodau hyn. O ystyried hyn, rydym yn ymwybodol ein bod wedi dewis ychwanegu llawer ohonynt fel ffactorau yn ein sgysiau ynghylch casglu data sylfaenol newydd (gweler **Pennod 9**).

9. Data sylfaenol CA newydd

Crynodeb

- Dim ond y rheini sydd â ffocws penodol iawn ar weithredu polisiâu a ddywedodd eu bod yn ymwybodol iawn o MPA, neu eu bod yn ymwneud ag MPA yn eu swydd.
- Roedd llawer o bwyslais yn cael ei roi ar ddeall bwriad ac effaith polisi rhwng mathau o yfwyr, sef cymedrol, peryglus, niweidiol a dibynnol.
- Atgyfnerthwyd cymhlethdodau datganoli ac amgylcheddau polisi yn gyson.
- Cafwyd adborth cyson bod angen diweddarau'r lefel 50ppu, ond bod hyn yn debygol o fod yn benderfyniad gwleidyddol anodd mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol.
- Roedd yna adleisio'r negeseuon a glywyd yn y gwerthusiadau eraill ynghylch cydymffurfiaeth, newid ymddygiad a chynnyrch, effeithiau posibl ar droseddu ac iechyd, ac unrhyw newid i ddefnyddio cyffuriau eraill.

Cyflwyniad

- 9.1 Y dull cyffredinol ar gyfer y gwerthusiad hwn fu mabwysiadu methodoleg Dadansoddi Cyfraniad. Eglurir hyn uchod ym **Mhennod 3**. Mae'r fethodoleg yn nodi mai elfen bwysig yw ystyried unrhyw ddata neu safbwyntiau newydd ychwanegol y gallai fod eu hangen er mwyn helpu i ddeall rhai o'r cymhlethdodau cysylltiedig, esboniadau amgen, a bylchau a ganfuwyd. Felly, mae **Penodau 7 ac 8** wedi cyfrannu at y darlun cyffredinol yn hyn o beth. Ar ben hyn, rydym wedi casglu data sylfaenol newydd mewn cyfweliadau ansoddol gyda grŵp o unigolion wedi'u samplu'n bwrpasol. Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb byr o'r fethodoleg benodol ar gyfer yr elfen hon, ac yna'n cynnig dadansoddiad o'u cyfraniad at y negeseuon thematig allweddol.

Methodoleg

- 9.2 Mae'r data sylfaenol newydd ychwanegol rydym wedi'i gael wedi bod o natur ansoddol bwrpasol. Mae hyn naill ai wedi cael ei gynnal drwy gyfweiliadau un-i-un neu sgysiau mewn grwpiau.
- 9.3 Drwy fabwysiadu targedu amrywiaeth o unigolion a rolau yn benodol, roedd pob cyfweiliad o natur lled-strwythuredig iawn. Dilynwyd amserlen fras, ac roedd y pynciau o ddiddordeb yn cynnwys:
- i ba raddau yr oedd MPA wedi bod yn rhan weithredol o'u profiad gwaith;
 - unrhyw newidiadau amlwg ar ôl gweithredu;
 - archwilio canlyniadau anfwriadol;
 - agweddau a dealltwriaeth o'r polisi; a
 - ffactorau eraill sy'n cyfrannu at gyflwyno polisi alcohol yn effeithiol.
- 9.4 Mae'r adroddiad interim hwn yn adlewyrchu dau gyfnod penodol o gasglu data o gyfweiliadau.
- Yn gyntaf, tri chyfweiliad penodol cyn gweithredu i ychwanegu at y data a gasglwyd eisoes yn yr 'astudiaeth newid' a'r hyn a ragwelwyd y byddid yn ei gaffael yn ystod y casgliad llinell sylfaen ar gyfer y tri phrosiect arall a gomisiynwyd.
 - Yn ail, yn y cyfnod rhwng mis Ionawr 2022 a mis Awst 2022 er mwyn gallu cofnodi myfyrdodau ar y 18 mis cyntaf o weithredu'r MPA.

Sampl

- 9.5 Cyfwelwyd cyfanswm o 24 o unigolion mewn 13 o gyfweiliadau unigol a phedair sgwrs grŵp. Manylir ar y cyfweiliadau hyn yn **Nhabl 9.1** isod. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar **Atodiad 1.9**. Roedd gan unigolion rolau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a gofynnwyd amdanynt ymysg amrywiaeth o sectorau/sefydliadau a chyda nifer o safbwyntiau mewn golwg.
- 9.6 Mae'r disgrifyddion a ddefnyddir ar gyfer dyfyniadau wrth gyflwyno canfyddiadau a/neu yn **Atodiad 1.10** yn cael eu cadw mor amwys â phosibl er mwyn sicrhau rhyw elfen o gyfrinachedd. Mae disgrifyddion yn **Atodiad 1.9** yn rhoi blas o'r sector/rôl. Er hynny, roedd llawer o'r unigolion a gyfwelwyd mewn swyddi uwch ac yn aml yr unig un mewn unrhyw rôl o'r fath yng Nghymru, ac yn fodlon cael eu dyfynnu'n uniongyrchol. Fodd bynnag,

oherwydd nad oedd eraill yn fodlon, ac yn unol â'n cymeradwyaeth foesegol, mae'r dull anhysbysrwydd wedi cael ei atgyfnerthu yn yr ystyr ein bod yn defnyddio dull R1, R2, gydag unigolion gyda chyfweliadau grŵp yn cael yr un rhif (h.y. R1-R17 at ei gilydd). Nid yw'r drefn yn adlewyrchu'r drefn gronolegol y cynhaliwyd neu y rhestrwyd y cyfweliadau yn **Atodiad 1.9**.

- 9.7 Dadansoddwyd y cyfweliadau'n thematig. Yn gyson â'r fethodoleg Dadansoddi Cyfraniad, gwnaed hyn yn ddiweddarach yn y cam ysgrifennu adroddiad i sicrhau bod y gwaith o echdynnu canfyddiadau'n archwilio esboniadau amgen ar gyfer canfyddiadau data eraill, gan gyfrannu ymhellach at fylchau mewn dealltwriaeth, a chyfeirio at ffynonellau data eraill. Gwnaed y dadansoddiad yn erbyn fframwaith codio eang o fannau cychwyn gosodiadol hysbys yn hytrach na chodio rhydd ymddangosol.
- 9.8 Cedwir yr adroddiad o'r canfyddiadau isod, ac yn enwedig dyfyniadau enghreifftiol, i isafswm crynodol. Ceir enghreifftiau mwy manwl o ddata yn **Atodiad 1.10**.
- 9.9 Cafodd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr elfen hon o'r astudiaeth ei chymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Prifysgol Glyndŵr (id405 – 11-09-2019).

Negeseuon Thematig

- 9.10 Fel pob astudiaeth ansoddol, mae llawer mwy o ddata na'r hyn y gellir ei gyflwyno o fewn cyfyngiadau adroddiad cryno. Yn **Atodiad 1.10** darperir enghreifftiau ychwanegol i'r rhai a restrir isod. Mae'r atodiad hwn yn tynnu sylw at natur ailadroddus rhai o'r negeseuon thematig ar draws yr ymatebwyr. Y mater allweddol yw bod y cyfweliadau ar draws amrywiaeth o ystyriaethau yn rhoi sylw i fanylion a naws. Yn y drafodaeth gyhoeddus ehangach, yn ogystal â'r sgysiau a adlewyrchir yn arfarniadau Cymru a'r Alban (gweler penodau blaenorol), mae trafod MPA/MUP yn aml yn troi'n ddeuaidd ac yn lleihaol. Drwy gael sgysiau cyffredinol sy'n canolbwyntio ar bolisi ynghylch yr agendâu trawsbynciol, roedd y cymhlethdod a'r natur gynnil y mae angen eu harchwilio a'u deall yn cael eu hadrodd yn aml. Yn y drafodaeth derfynol, mae sut y gellir adlewyrchu a deall hyn fel cyd-destun polisi anhrefnus wedi cael ei fynegi.

Llunio Polisi

- 9.11 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r polisi MPA. Yn nodweddiadol o'r ymatebion hynny roedd teimladau fel

'I fod yn onest, roeddwn i'n gefnogol ac rwy'n dal i fod yn gefnogol.'

[R4]

A

'Oherwydd o safbwynt iechyd y cyhoedd rydych chi a minnau'n gwybod ei fod yn amlwg.' [R15]

- 9.12 Cyfeiriodd ymatebwyr yn aml at ddau fater craidd ynghylch anaddasrwydd alcohol rhad iawn ac effeithiau enfawr yfed yn drwm iawn ar iechyd.

'Ond dwi'n meddwl o safbwynt moesegol pur y dylai barhau, oherwydd dydw i ddim yn meddwl y dylai alcohol fod mor rhad â hynny.' [R9]

'Dwi'n meddwl ei fod yn beth da oherwydd bod llawer o broblemau iechyd yn gysylltiedig ag alcohol.' [R7]

- 9.13 I nifer dda o ymatebwyr, roedd yr angen a'r dystiolaeth ar gyfer MPA yn glir. Fe'i mynegwyd fel rhywbeth amlwg i'w wneud

'Ie. Dwi'n meddwl, mae'n rhaid i mi ddweud, mae'r wyddoniaeth am MUP wedi bod yno erioed. Mae'n rhyfedd iawn gweld yr Alban a Chymru bellach yn dweud, "Na, mae angen i ni wirio bod y data'n wir." Mae hynny fel dweud, "Ydy gwrthfotigau'n lladd heintiau bacteriol, pan fydd gwrthfotigau'n cael eu defnyddio?" "Na, yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw cynnal astudiaeth arbennig yn ein gwlad, oherwydd mewn gwirionedd mae gan ein gwlad wahanol heintiau.'" [R15]

- 9.14 Roeddem wedi nodi ambell eithriad i'r gymeradwyaeth hon ac roedd y rhain bob amser yn seiliedig ar y syniad nad oedd yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r rheini a oedd angen yfed.

'Oherwydd bod yfed yn angen corfforol, dydy? Os oes gennych chi ddibyniaeth a bod angen i chi yfed oherwydd eich bod yn mynd i ddioddef hebdo, yna rydych chi'n mynd i ddod o hyd i'r arian o rywle.'

[R17]

9.15 Aethom ati'n fwriadol i archwilio taith y polisi, ei gamau/targedau arfaethedig gydag unigolion, a'i effaith wirioneddol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn ofalus wrth archwilio naws y sgwrs hon. Roeddent hefyd yn awyddus i bwysleisio na allai'r polisi weithio fel polisi annibynnol ar gyfer problemau alcohol, ac na ddylid ei ystyried yn bolisi o'r fath ychwaith. Ar ben hynny, roeddent yn pwysleisio y dylai MPA fod o fewn amrywiaeth o bolisiâu alcohol ac iechyd/anghydraddoldeb ehangach. Yn aml, cafwyd cydnabyddiaeth mai'r bwriad oedd cael grŵp canol o yfwyr, ddim yn gymedrol nac yn ddibynnol, ond yn hytrach y rhai sy'n yfed yn beryglus ac yn niweidiol. Er hynny, dywedodd llawer eu bod yn sylweddoli bod ei effaith efallai'n cael ei themllo gan y rhai tlotaf o'r yfwyr trymaf.

'Mae'r isafbris uned yn fwy effeithiol ar y cyfan o ran targedu yfwyr trwm nag y mae ar gyfer targedu yfwyr tlawd.... Yr hyn y mae'n dda iawn am ei wneud yw targedu yfwyr trwm tlawd.' [R5]

"Y prif beth rydw i wedi bod yn ei feddwl am MUP yng Nghymru yw ein bod wedi treulio rhywbeth fel 10 mlynedd yn dweud, "Nid yw hyn yn ymwneud ag yfwyr dibynnol. Mae a wnelo hyn â'r boblogaeth o yfwyr yn gyffredinol. Mae'n ymwneud â'r grŵp hwnnw o bobl yn y canol sy'n yfed gormod." Yna edrychais ar yr hyn yr oedd yn ei wneud i brisiau ... Yn y bôn, roedd yn taro gwirodydd a seidr gwyn oddi ar y brand, ac ambell i lager cryf ... mae'n fesur wedi'i dargedu sy'n taro'r yfwyr trymaf.' [R10]

9.16 Roedd llawer o werth yn gysylltiedig â sut y bu i'r cyflwyniad polisi godi sgwrsiau buddiol am ystyriaethau iechyd y cyhoedd ac alcohol ehangach.

'Felly, rydych yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, darparu gwybodaeth am MPA ac o ran hynny, byddwn i'n dweud, "a nodau iechyd y cyhoedd y ddeddfwriaeth." [R3]

'Rwy'n meddwl ei fod yn dda iawn. Rwy'n meddwl bod achosi dadleuon a lleisio eu barn ar bethau yn beth iach iawn i'n cymdeithas, nid yn unig i gynnal y trafodaethau hyn ond hefyd pwy fydd yn gwrando, a beth arall y gellir ei wneud.' [R6]

'Ac ar lefel y boblogaeth, gall y gostyngiad bach hwnnw wneud gwahaniaeth yn ogystal i'n canlyniadau. Felly, mae ar y lefel unigol, mae

pob tamaid yn cyfrif yn ogystal ag efallai ar lefel y boblogaeth gyfan.’

[R16]

Disgwyliadau a phrofiadau cynnar

- 9.17 Er ein bod wedi mynd ati'n fwriadol i dargedu sampl yr oedd gan ei swyddi amrywiol gysylltiad uniongyrchol ag alcohol, ei ganlyniadau, polisi a darpariaeth gwasanaeth, clywsom yn aml nad oedd MPA wedi chwarae fawr ddim rhan yn eu gwaith. Roedd yn sgwrs nad oedden nhw'n ei chael (oni bai eu bod yn cael eu cymell).
- 9.18 At ei gilydd, roedd negeseuon y grŵp hwn o ymatebwyr yn atgyfnerthu llawer o'r negeseuon, sef y bu lefel dda iawn o gydymffurfio â'r polisi. Yn benodol, roeddent yn nodi: diffyg adrodd i awdurdodau; natur gynhenid gadarnhaol gweithredoedd sector y diwydiant manwerthu; a'r newid amlwg ym mhrisiau cynnyrch i fod yn uwch na'r isafswm o 50pcu.

‘Rwy'n deall, gyda'r math o blismona mewn masnach ar y polisi, fod busnesau'n gyffredinol yn ei ddeall, ac yn fodlon cydymffurfio ag ef’
[Arg8]

‘Does dim diddordeb mewn torri'r gyfraith, ac mae'n bosibl mewn rhai o'r siopau llai, ond wedyn rydw i wedi bod mewn nifer o siopau llai. Dydw i ddim yn meddwl bod gan neb y stumog ar ei gyfer.’ [R10]

- 9.19 Yn ystod y cyfnod ers rhoi'r MPA ar waith, mae Safonau Masnach Cymru wedi ymweld â 95% o'r safleoedd manwerthu hynny sydd â thrwyddedau i werthu alcohol. Roedd y rhain i gyd bron yn arolygiadau arferol a gynlluniwyd, ac anaml iawn y cawsant eu sbarduno gan unrhyw wybodaeth a oedd yn awgrymu pryder. Mae'r achosion prin o ddiffyg cydymffurfio yn aml yn cael eu hystyried yn wallau wrth gyfrifo isafswm pris ar sail cryfder alcohol neu gynhyrchion sydd wedi'u cynnwys mewn eitemau aml-bryniant. Fel arfer, roedd y camgymeriadau hyn yn cael eu cydnabod a'u cywiro ar unwaith. Dim ond chwe hysbysiad cosb benodedig y mae'r Safonau Masnach wedi'u cyhoeddi am beidio â chydymffurfio.
- 9.20 Ailadroddwyd y straeon am seidr cryf yn diflannu, addasiadau mewn cynnyrch a hyrwyddiadau yng Nghymru yn y cyfweiliadau hyn. Amlygwyd yr

arsylwadau hyn drwy gymharu gwahanol brisiau, hyrwyddiadau a chynnyrch sydd ar gael yn Lloegr.

'Felly, rwy'n ymwybodol o hynny. Ac rwy'n sylwi – ac rwy'n mynd i archfarchnad yng Nghymru ac nid yw yno.' [R16]

Newidiadau ymddygiadol

- 9.21 Roedd ein ymatebwyr yn ategu'r safbwynt nad yw MPA wedi arwain at unigolion yn newid ymddygiad yfed yn sylweddol, nac yn rhoi'r gorau i yfed i lawer o bobl, gan gynnwys yfwyr dibynnol hyd yn oed.

'Maen nhw'n tueddu i gadw at yr un diodydd maen nhw wastad wedi'u hyfed. Ond dyna fy mhrofiad i ohono. Ond dydw i ddim yn meddwl ei fod wedi newid eu harferion yfed'. [R17]

- 9.22 Yn hytrach, mae wedi arwain at addasu ymddygiad yfed ac mae'r rhain wedi bod yn fwyaf amlwg ymysg y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf.

- 9.23 Dywedodd yr ymatebwyr mai'r newid cynnil rhwng brandiau, maint a math oedd yr ymateb mwy safonol i'r ffaith nad oedd seidr rhad ar gael neu ei fod yn llai deniadol.

'Os oes gennych chi £10 a'ch bod chi'n wynebu'r dewis rhwng dwy botel o win neu seidr gwyn, efallai y byddwch chi'n dweud, "Wel, os bydd y naill neu'r llall yn costio £10 i mi, byddaf yn prynu'r gwin oherwydd ei fod yn ddiod mwy blasus," oherwydd mae gan yfwyr dibynnol, yn union fel yfwyr eraill, hoffterau hefyd.' [R10]

- 9.24 Roedd yr adroddiadau am newid i gyffuriau eraill yn debyg i'r rhai a gofnodwyd ymysg gwerthusiadau Cymru a'r Alban (gweler Pennod 7 a 10). Bod y defnydd o gyffuriau eraill yn fwyaf tebygol ymysg y rhai sydd â phrofiad blaenorol o ddefnyddio cyffuriau a bod hyn yn cynnwys defnyddio cyffuriau presgripsiwn 'stryd'. Nid oedd unrhyw awgrymiadau ynghylch y pryderon cyn gweithredu ynghylch unrhyw newid torfol i gyffuriau anghyfreithlon gan ddefnyddwyr alcohol.

'Does gan y sawl sy'n yfed ar y stryd ar gyfartaledd ddim diddordeb mewn heroin o gwbl.' [R9]

'...byddai'r mwyafrif [o'r rheini sy'n newid i gyffuriau eraill] eisoes wedi defnyddio rhywbeth.' [Arg12]

Cynnal fforddiadwyedd

9.25 Adroddodd y cyfweiliadau hefyd am lawer o'r un negeseuon ynghylch cynnal fforddiadwyedd ag a geir ym **Mhenodau 7 a 10**. Sef bod unigolion yn ymestyn y dulliau ymdopi presennol i wneud i alcohol barhau i fod yn fforddiadwy. Fel arfer, mae'r rhain yn cynnwys mynd heb fwyd, peidio â thalu, cael benthyg arian neu fynd i ddyled.

9.26 Roedd yr ymatebwyr hefyd yn ystyried i ba raddau y mae'r cynnydd mewn costau, yn enwedig bwyd a thanwydd, yn ychwanegu at fforddiadwyedd cymharol alcohol.

'Ifod yn onest gyda chi, tybed a fydd yr Isafswm Pris Uned mewn gwirionedd yn mynd ar goll yn yr holl gostau ynni rydyn ni'n eu gweld a chost tanwydd a phopeth.' [R11]

Lefel pris

9.27 Ar gyfer y grŵp penodol hwn o ymatebwyr, roeddem wedi gofyn cwestiynau uniongyrchol am eu safbwynt ar y lefel prisiau bresennol.

9.28 Roedd cyflwyno'r lefel pris 50ppu yn cael ei ystyried yn fan cychwyn realistig, yn ddealladwy, yn enwedig o ystyried yr heriau cyfreithiol. Fodd bynnag, roedd hefyd yn cael ei ystyried yn gyflwyniad gofalus, ac ar lefel y byddai'r effeithiau bob amser yn cael eu cyfyngu gan y lefel prisiau.

'Bydd y gwleidyddion mwy deallus ym Mae Caerdydd yn gwerthfawrogi hynny. Os byddwch yn pasio mesurau gofalus, byddwch yn cael canlyniadau gofalus. Dwi'n meddwl nad yw hynny'n neges wael i'w rhoi iddyn nhw.' [R10]

9.29 Gan ystyried y lefel prisiau bresennol, mynegodd ein ymatebwyr eu bod yn cydnabod y byddai'r lefel 50ppu yn cael effaith gyfyngedig, y byddai'n targedu rhai cynhyrchion ac yfwyr, ac nid o reidrwydd y boblogaeth gyfan.

‘Wel, fe ddylech chi allu fforddio 14 uned yr wythnos, ac os ydych chi eisiau mwy na 14 uned yr wythnos, dyma’n union bwrpas y polisi hwn. Felly, credaf ei fod yn cyflawni hynny. Mae’n mynd â’r fforddiadwyedd rhwydd oddi wrth bobl sy’n llyncu 200 uned yr wythnos, ond mae’n ei gwneud yn dal yn fforddiadwy i’r rhan fwyaf o bobl gael lefelau synhwyrol o alcohol.’ [R9]

‘Ar un ystyr, os mai’r hyn yr ydych am ei wneud yw cymryd fodca rhad a seidr cryf allan o’r farchnad, mae 50ppu yn iawn. Os ydych chi eisiau dechrau cael effaith fawr ar y boblogaeth yfed gyfan, mae angen i chi fynd yn uwch...’ [R10]

- 9.30 Roedd llawer yn gallu gweld yr angen am, a/neu ddadlau o blaid, cynnydd yn lefel y pris.

‘Mae angen iddo godi, a siarad yn blaen’. [R15]

‘Rwy’n dyfalu pan wnaethon nhw ei gynnig am y tro cyntaf ddeng mlynedd yn ôl, mae’n debyg mai 50c oedd y pegwn isaf ond mae’n debyg iddo ymddangos yn rhesymol. Ond erbyn iddo gael ei gyflwyno, beth rydych chi’n ei wneud? Pam nad ydych chi wedi newid hyn o gwbl? Roedd yn ymddangos fel...’ [R16]

- 9.31 Er y nodwyd bod codi pris alcohol bob amser yn sgwrs wleidyddol anodd.

‘Felly mae’n benderfyniad gwleidyddol.’ [R5]

‘Fel rhywun sydd wedi ymrwymo’n gyffredinol i ddweud y gwir yn gyhoeddus, rwy’n meddwl y dylem fod yn onest am hynny a dweud, “Mewn gwirionedd, gallem ei godi, ond gallai achosi problemau hefyd.” [R10]

Crynodeb o’r negeseuon i gloi

- 9.32 Pwrpas y casglu data sylfaenol newydd hwn oedd clywed gan leisiau eraill a negeseuon eraill nad ydynt yn cael eu cynnig mewn manau eraill. Mae’r sampl (**Atodiad 1.9**) yn tynnu sylw at gynnwys rhanddeiliaid eraill. Er enghraifft, trwyddedu, yr heddlu, seiciatreg, iechyd y cyhoedd a safonau masnach, nad yw eu safbwyntiau ar MPA wedi cael eu cofnodi mewn manau eraill eto. Er eu bod yn cynnig rhywfaint o dystiolaeth ychwanegol a

safbwyntiau newydd, roedd llawer o'u sylwebaeth yn atgyfnerthu negeseuon o werthusiadau eraill yn hytrach na darparu dehongliadau newydd radical.

9.33 Yr hyn a oedd yn wahanol oedd bod mwy o negeseuon ynghylch gweithredu polisïau ac effeithiolrwydd.

9.34 Roedd rhai awgrymiadau a oedd yn awgrymu, er bod yfwyr dibynnol yn cynnal arferion, efallai fod effaith fechan o ran lleihau cyfanswm yr unedau sy'n cael eu hyfed.

'Wel, mae wedi lleihau nifer yr unedau maen nhw'n eu hyfed.' [R15]

'Rwy'n meddwl y byddai – a hyd yn oed ar y lefel honno, yn gostwng y lefelau ychydig bach...' [R16]

9.35 Roedd ymatebwyr hefyd yn sylweddoli bod manteision posibl MPA yn rhai tymor hir ac na fyddent yn hawdd eu gweld yn y gwerthusiad polisi cychwynnol na'r amserlenni gwleidyddol nodweddiadol.

9.36 Roedd rhywfaint o gydnabyddiaeth bod penderfyniadau ynghylch gorfodi prisïau, materion yn ymwneud â fforddiadwyedd alcohol a lleihau niwed i iechyd yn aml yn rhywbeth gwleidyddol neu'n weithred o gydbwyso polisi

'Rwy'n meddwl bod llawer o hynny, mae'n debyg, oherwydd mae'r rhain yn faterion ehangach sy'n ymwneud â gwladoliaeth yn erbyn unigoliaeth'. [R10]

'Mae'n debyg mai'r neges iechyd cyhoeddus yw, fel y gwelwyd gyda'r pandemig, os ydych chi'n rhy gadarn a difrifol a bod popeth yn setlo, wel, dydy pobl ddim yn eich hoffi chi, ac os nad ydych chi'n ei wneud, dydy pobl ddim yn eich hoffi chi, felly rydych chi'n anghywir y naill ffordd neu'r llall, ond dyma'r peth iawn i'w wneud.' [R15]

9.37 Yn olaf, roedd cydnabyddiaeth sylweddol o sut mae COVID-19 a'r 'argyfwng costau byw' wedi bod yn annibendod enfawr (gwerthuso, adnoddau ac effaith) sydd wedi tynnu sylw.

'Yn amlwg, mae COVID wedi taro, ac mae hynny'n gwneud llanast go iawn o'r gwerthusiad iechyd.' [R5]

'Mae COVID yn bendant wedi chwarae rhan yn hynny, yr holl beth yn tynnu sylw'r cyhoedd.' [R11]

'Mae'n anodd ynghanol sŵn COVID.' [R15]

'...erbyn hyn o ran siop wythnosol pobl ac yn y blaen, ac mae pethau'n dechrau gwasgu, ... mae hynny'n mynd i fod yn ystyriaeth enfawr.'
[R11]

- 9.38 Yn y cyswllt hwn, roedd llawer yn atgyfnerthu'r ffaith bod llawer o elfennau, ystyriaethau a ffactorau yn gyfrifol am siapio arferion yfed ac yn fwy penodol yr MPA.

'Felly faint o effaith mae un peth yn ei chael ar y model yn hytrach nag ar unrhyw beth arall.' [R16]

'Dim ond rhan o newid ar raddfa eang yw hyn i'r ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau, y ffordd y mae pobl yn cael eu trin.' [R9]

Y Camau Nesaf

- 9.39 Byddwn yn cynnal rhagor o waith casglu data sylfaenol ffres, cyfweiliadau ansoddol, a sgysiau grŵp yn y cyfnod Chwefror 2023-Awst 2023 i hysbysu'r adroddiad terfynol. Bydd hyn yn cynnwys rhai cyfweiliadau eto gyda'r rhai a gyfwelwyd yn ystod y cyfnod hwn, a rhai cyfraniadau ychwanegol newydd.

10. Gwersi a ddysgwyd hyd yma – gwerthusiadau'r Alban

Crynodeb:

- Cafodd polisi MUP yr Alban ei roi ar waith yn llwyddiannus gyda chyfraddau cydymffurfio cryf.
- Mae arwyddion o ostyngiad cyffredinol mewn gwerthiant alcohol ers cyflwyno'r Isafswm Pris Uned, sydd ychydig yn is dros amser, ond er hynny mae wedi cael ei gynnal dros dair blynedd o werthuso.
- Mae'r hunan-adrodd ar yfed yn gymysg, gydag adroddiadau o ddim newid, llai a rhywfaint o gynnydd mewn yfed.
- Mae adrodd am effeithiau niweidiol fel newid i ddefnyddio cyffuriau eraill, troseddu neu gynnydd yn y galw am ofal iechyd a gofal cymdeithasol yn gyfyngedig iawn.
- Mae'r gwerth i Gymru o fyfyrion ar raglen werthuso'r Alban i'w weld drwy weithredu cynharach, a'r gallu i edrych ar effaith yn absenoldeb COVID-19 a graddfa fwy.

Cyflwyniad

10.1 Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r gwersi sydd wedi cael eu dysgu hyd yma o werthusiad yr Alban o'r MUP. Mae'n dechrau gydag amlinelliad o'r gwerthusiad cyffredinol a'r prosiectau a gynhaliwyd yn yr Alban, cyn crynodeb o'r prif negeseuon ynghylch:

- cydymffurfio;
- pris ac argaeledd;
- defnydd;
- ymddygiad yfed cysylltiedig; a
- niwed a normau cymdeithasol.

Gyda'r adroddiad ceir crynodeb ar ffurf tabl o'r prosiectau, cyllidwyr, timau ymchwil, a gwybodaeth am gyhoeddiadau.

Gwerthusiad cyffredinol o'r Alban

10.2 Mae'n bwysig ystyried y datblygiadau yn yr Alban am y rhesymau canlynol:

- Roedd polisi isafbris uned Llywodraeth yr Alban yn rhagflaenu polisi MPA Cymru ac felly mae gwerthusiadau ac ymchwil sy'n dod i'r amlwg hefyd yn digwydd cyn y rhai yng Nghymru, ac yn darparu dangosyddion a gwersi gwerthfawr.
- Fel y nodwyd yn hynt y bil, er nad yw data Cymru a'r Alban a gasglwyd yn ddigon tebyg i gefnogi cymhariaeth ystadegol uniongyrchol, mae'n amlwg bod nifer o gymariaethau pwysig sy'n caniatáu i gymariaethau a chasgliadau ehangach gael eu llunio rhwng profiad yr Alban, ac o brofiad yr Alban, i brofiad Cymru. Yn fwyaf nodedig, nad yw cyfansoddiad grwpiau o yfwyr yn sylfaenol wahanol rhwng y ddwy wlad, profiad cyffredin datganoli, dull y genedl gyfan, yr un lefel pris ar 50ppu â chyflwyno cychwynnol, ac ati.¹⁰³
- Dilynwyd y cam gweithredu yn yr Alban gan ffenestr 22 mis cyn i unrhyw gyfyngiadau COVID-19 gael eu gosod ac felly mae'n cynnig mwy o bersbectif heb COVID-19 ar effeithiau gweithredu cychwynnol.
- Mae seilwaith ac adnoddau Llywodraeth yr Alban i gefnogi'r gwerthusiad drwy raglen waith PHS (Iechyd Cyhoeddus yr Alban) MESAS (Monitro a Gwerthuso Strategaeth Alcohol yr Alban)¹⁰⁴ yn sylweddol uwch. Mae gan PHS yr adnoddau ariannol a'r adnoddau staff i gynnal, comisiynu a chefnogi llawer mwy o werthusiadau¹⁰⁵ (gweler **Tabl 10.1 ac Atodiad 1.11**) na'r pedwar gwerthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (**Atodiad 1.5**). Mae protocol gwerthuso MUP llawn yr Alban wedi cael ei gyhoeddi a'i ddiweddarau'n rheolaidd¹⁰⁶. Felly, mae gwerthusiadau'r Alban yn darparu llawer mwy o lawer o ddadansoddiadau ynghylch effaith gweithredu polisi isafbris unedau, ac yn fwy penodol o fewn cyd-destun presennol y DU'.
- Mae PHS yn cynnal adran MUP bwrpasol¹⁰⁷ ac mae'r holl adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi ac sydd i fod i gael eu cyhoeddi ar gael drwy linell amser un dudalen a dolenni cyfatebol.¹⁰⁸

¹⁰³Dywedodd Livingston/Perkins yn ystod y camau drafftio deddfwriaeth y dylai Llywodraeth Cymru, gyda llai o adnoddau ar gael iddi, ac o ystyried y lefel uwch hon o weithgarwch yn yr Alban, gynnal nifer llai o werthusiadau allweddol, a chyn belled bod y negeseuon o werthusiadau yng Nghymru yn cyd-fynd yn gryf â rhai'r Alban, gallent ddatblygu polisi Cymreig yn y dyfodol ar gyfuniad o werthusiadau yng Nghymru a'r Alban (yn ogystal â'r sylfaen dystiolaeth ymchwil ryngwladol ehangach).

¹⁰⁴ [Monitoring and Evaluating Scotland's Alcohol Strategy \(MESAS\) - Alcohol - Health topics - Public Health Scotland](#)

¹⁰⁵ [Protocol for the evaluation of Minimum Unit Pricing for alcohol \(healthscotland.scot\)](#)

¹⁰⁶ [Minimum unit pricing \(MUP\) evaluation - Publications - Public Health Scotland](#)

¹⁰⁷ [Evaluation of minimum unit pricing \(MUP\) - Alcohol - Health topics - Public Health Scotland](#)

¹⁰⁸ [Timeline of evaluation of MUP - Overview of evaluation of MUP - Evaluation of minimum unit pricing \(MUP\) - Alcohol - Health topics - Public Health Scotland](#)

- Roedd proffil rhyngwladol uchel cam gweithredu yr Alban (fel yr un cenedlaethol cyfan gyntaf) yn sicrhau ei fod yn denu diddordeb eang gan ymchwilyr. Felly, yn ogystal â'r gwerthusiadau a ariannwyd gan PHS, cafwyd gwerthusiadau ychwanegol wedi'u comisiynu'n annibynnol, rhai wedi'u cefnogi'n anuniongyrchol gan PHS (gweler **Atodiad 1.11**) ac eraill lle nad yw PHS wedi cymryd rhan.
- Mae PHS/MESAS yn darparu diweddariad chwarterol ar MUP ar ffurf adroddiad ffurfiol i Gynullydd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Senedd yr Alban. Y diweddaraf o'r rhain oedd ym mis Mehefin 2022¹⁰⁹. Cafodd y ddau ddiweddariad blaenorol eu cyhoeddi ym mis Mai 2020¹¹⁰ a mis Gorffennaf 2021¹¹¹.
- Mae MESAS yn parhau i ddarparu adroddiad blynyddol sy'n edrych ar ddangosyddion cyffredinol yfed alcohol a niwed iechyd a niwed cymdeithasol cysylltiedig, sy'n ymgorffori ystyriaethau MUP yn weithredol. Y diweddaraf a oedd ar gael, adeg drafftio'r adroddiad hwn, oedd fersiwn Mehefin 2022¹¹².
- Mae PHS wedi nodi ei fwiad i gyhoeddi adroddiad cyffredinol terfynol sy'n ymdrin â holl astudiaethau PHS ac astudiaethau eraill a gyhoeddwyd ar MUP yn yr Alban, ac wedi drafftio protocol sy'n amlinellu sut y byddant yn cyfuno'r dystiolaeth o astudiaethau a ariannwyd gan PHS, rhai a ariannwyd ar wahân, ac astudiaethau eraill.¹¹³ Disgwylir y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023 a bydd yn cael ei ddefnyddio i hysbysu'r adroddiad Dadansoddi Cyfraniad terfynol ar gyfer MPA yng Nghymru.

10.3 O ystyried y cyd-destun hwn, mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r negeseuon allweddol hyd yma sydd wedi cael eu cyhoeddi mewn astudiaethau sy'n cael eu hariannu gan PHS, ac sy'n cael eu hariannu ar wahân ac astudiaethau eraill. Mae'r negeseuon hyn yn cael eu coladu yn

¹⁰⁹ [MUP letter to the convenor of the Health, Social Care and Sport Committee \(publichealthscotland.scot\)](https://publichealthscotland.scot)

¹¹⁰ [MUP - Letter to Convenor of Scottish Parliament's Health and Sport Committee - Publications - Public Health Scotland](#)

¹¹¹ [MUP - Letter to Convenor of Scottish Parliament's Health, Social Care and Sport Committee - Publications - Public Health Scotland](#)

¹¹² [Monitoring and Evaluating Scotland's Alcohol Strategy \(MESAS\), 2022 \(publichealthscotland.scot\)](https://publichealthscotland.scot)

¹¹³ [MUP letter to the convenor of the Health, Social Care and Sport Committee \(publichealthscotland.scot\)](https://publichealthscotland.scot)

erbyn nifer o'r prif ystyriaethau sy'n ymwneud â damcaniaeth newid. Wrth ddod i gasgliad ynghylch y negeseuon hyn, defnyddiwyd y canlynol:

- adroddiadau cyhoeddedig gan MESAS/PHS;
- adroddiadau monitro blynyddol MESAS (fel y nodwyd uchod);
- erthyglau mewn cyfnodolion dilynol a adolygwyd gan gymheiriaid o'r gwerthusiadau hynny; a
- erthyglau cyfnodolion eraill sy'n benodol i MUP yr Alban.

Ceir crynodeb o'r deunydd cyhoeddedig ar ddiwedd y bennod hon. Mae manylion y deunydd cyhoeddedig ar gael yn **Atodiad 1.11** ac isod, lle rydym yn rhestru'r gwerthusiadau, y prif ffocws, dyddiad cyhoeddi, cyllidwr, tîm ymchwil, ac unrhyw allbynnau cyfnodolion. Mae **Atodiad 1.11** yn nodi ymhellach y gwerthusiadau hynny nad ydynt wedi adrodd eto.

- 10.4 Ar gyfer gweddill y bennod hon cyfeirir at astudiaethau gan god croes y cyfeirir ato yn y tabl crynodeb canlynol ac **Atodiad 1.11**..:

Tabl 10.1: Crynodeb o adroddiadau gwerthuso'r Alban ac erthyglau mewn cyfnodolion

Prif thema	Adroddiad	Dyddiad cyhoeddi	Math o ymchwil
Defnydd	• (S2) Defnydd sy'n cael ei hunan-gofnodi	<i>Erbyn diwedd 2022</i>	
	• (P2) Yfed ac ymddygiad Plant a Phobl Ifanc	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Ansoddol Pobl ifanc 13-17 oed • Sampl: 50 x Pobl Ifanc a 21 x Staff
	• (P3) Defnydd seiliedig ar Werthiant - Dadansoddiad Disgrifiadol	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Astudiaeth wreiddiol • Data gwerthu oddi ar y safle ar gyfer 12 mis ar ôl gweithredu
	• (P3) Defnydd seiliedig ar Werthiant -	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddiad Cyfres Amser

	Dadansoddiad ystadegol		
	<ul style="list-style-type: none"> (P3) Defnydd seiliedig ar Werthiant - Adroddiad Terfynol 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Data cyfres amser ag ymyriad ar atchweliad gwerthiant
	<ul style="list-style-type: none"> (P10) Adroddiad interim ar yfed ar lefelau niweidiol 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Dulliau Cymysg, grŵp mawr o yfwyr 'sy'n derbyn triniaeth' a darparwyr a samplwyd
	<ul style="list-style-type: none"> (P17) Data defnydd o werthiant gwahanol 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Dadansoddiad data eilaidd
	<ul style="list-style-type: none"> (P18) Data dibynadwyedd gwerthiant 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Dadansoddiad data eilaidd
	<ul style="list-style-type: none"> (P10) Yfed ar lefelau niweidiol - Adroddiad terfynol 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Dulliau Cymysg, grŵp mawr o yfwyr 'sy'n derbyn triniaeth' a darparwyr a samplwyd, yn ogystal â defnyddio data arolwg ar raddfa fawr iawn
Newid ymddygiadol	<ul style="list-style-type: none"> (S3) Newid ymddygiad ar lefel unigol yng nghydestun Isafbris Uned 	Rhag 2020	<ul style="list-style-type: none"> Astudiaeth wreiddiol Dulliau cymysg
	<ul style="list-style-type: none"> (S7) Gwariant y Cartref (gwariant ar fwyd a gwerth maethol) 	<i>Erbyn diwedd 2022</i>	
	<ul style="list-style-type: none"> (S4) Yfwyr Digartref 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Astudiaeth ansoddol 46 o unigolion â phrofiad

			uniongyrchol, 41 o Ddarparwyr Gwasanaeth a chyfweliadau grŵp rhanddeiliaid
	<ul style="list-style-type: none"> (P16) Prynu trawsffiniol 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Synthesis o lenyddiaeth a dadansoddiad data (eilaidd)
Niwed i iechyd a niwed cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> (P5) Niwed gan eraill - Plant a phobl ifanc 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Astudiaeth ansoddol Grwpiau ffocws gydag ymarferwyr gwasanaeth
	<ul style="list-style-type: none"> (S1) Asesu faint o alcohol sy'n cael ei yfed a phresenoldeb mewn adrannau brys sy'n gysylltiedig ag alcohol 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Dulliau cymysg gan ddefnyddio arolygon trawstoriadol mynych a grwpiau ffocws
	<ul style="list-style-type: none"> (S5) Galwadau Ambiwlans 	<i>Erbyn diwedd 2022</i>	
	<ul style="list-style-type: none"> (P14) Derbyniadau i Ysbytai a Marwolaethau 	<i>Erbyn dechrau 2023</i>	
	<ul style="list-style-type: none"> (S6) Rhagnodi 	<i>Erbyn diwedd 2022</i>	
	<ul style="list-style-type: none"> (P12) Trosedd ac anhrefn; diogelwch y cyhoedd a niwsans 	(Diwedd 2021)	<ul style="list-style-type: none"> Dadansoddiad data eilaidd
Gweithredu a chydymffurfio	<ul style="list-style-type: none"> (P1) Cydymffurfio 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Dulliau cymysg: cyfweliadau ansoddol a dadansoddiad ystadegol disgrifiadol
Arall (diwydiant a phris)	<ul style="list-style-type: none"> (P4) Effaith tymor byr ar y diwydiant diodydd alcohol 	Cyhoeddwyd	<ul style="list-style-type: none"> Dulliau cymysg: dadansoddi data meintiol, astudiaethau achos

		ansoddol a chyfweliadau dros y ffôn
• (P20) Adroddiad terfynol yr effaith economaidd ar y diwydiant	Cyhoeddwyd	• Dulliau cymysg: dadansoddi data meintiol, astudiaethau achos ansoddol ac adolygiad bwrdd gwaith
• (P6) Manwerthwyr bach	Cyhoeddwyd	• Dulliau cymysg: • Dadansoddiad o ddata Pwynt Gwerthu Electronig (EPoS) • Archwiliad o 20 o siopau manwerthu bach • Adolygiad o'r wasg masnach adwerthu
• (P9) Dosbarthiad pris	Cyhoeddwyd	• Dadansoddiad Data Disgrifiadol
• (P11) Cynnyrch Alcohol a Phrisiau	<i>Erbyn diwedd 2022</i>	
Arall	• (P8) Agweddau'r Cyhoedd at MUP	Cyhoeddwyd • Dadansoddiad data eilaidd

Nodiadau'r tabl:

Mae rhagor o fanylion am gwestiynau ymchwil, dulliau, ffynonellau data, mesurau canlyniadau a rhesymeg pob astudiaeth ar gael yn Atodiad **1.11**.

Cynhaliwyd y chwiliad systematig llawn diwethaf o'r data sydd ar gael yn yr Alban at ddibenion drafft cyntaf yr adroddiad hwn ar 09-08-2022. Mae adroddiadau a chyhoeddiadau dilynol wedi cael eu cyhoeddi, ac mae rhai o'r rhain wedi cael eu hychwanegu'n ad hoc ers hynny, mewn fersiynau drafft diwygiedig ers mis Awst 2022.

Tabl 10.2: Adroddiadau Cysylltiedig Public Health Scotland

Thema	Adroddiad
(P19) Effaith COVID-19	<ul style="list-style-type: none"> Richardson; E. Giles, L and Fraser. C. (2022) Alcohol sales and harm in Scotland during the COVID-19 pandemic. Edinburgh. Public Health Scotland..

Erthyglau Cysylltiedig mewn Cyfnodolion – Penodol i MUP yr Alban yn unig

Tabl 10.3: Erthyglau cysylltiedig mewn cyfnodolion (sy'n benodol i MUP yn unig)

Thema	Adroddiad
Dadansoddiad Cyfres Amser – Data Kantar	<ul style="list-style-type: none"> O'Donnell, A.; Anderson, P.; Jan-Llopis, E.; Manthey, J.; Kaner E and Rehm, J. (2019) et al. Immediate impact of minimum unit pricing on alcohol purchases in Scotland: controlled interrupted time series analysis for 2015-18 BMJ; 366
Dadansoddiad Cyfres Amser – Data Kantar	<ul style="list-style-type: none"> Anderson, P.; O'Donnell, A.; Kaner., E.; Jan-Llopis, E.; Manthey, J.; and Rehm, J. (2021) Impact of minimum unit pricing on alcohol purchases in Scotland and Wales: controlled interrupted time series analyses. Lancet6(8): 557-565.
Dadansoddiad Eilaidd o ddata cyhoeddiedig EMAS	<ul style="list-style-type: none"> Xhurxhi, I.P. (2020), The early impact of Scotland's minimum unit pricing policy on alcohol prices and sales. Health Economics, 29: 1637-1656.

10.5 Sylwch, ar gyfer P3 a P7, mae gwahanol gyhoeddiadau ac adroddiadau wedi'u rhestru yn **Atodiad 1.11** Mae'r rhain yn disgrifio ac yn diweddarau'r canfyddiadau mewn ffyrdd ychydig yn wahanol. Mae'r naratif canlynol yn defnyddio diweddariad mis Mawrth 2021 ar gyfer P3 ac ar gyfer yr erthygl yn y cyfnodolyn a gyhoeddwyd ar gyfer P7.

Cydymffurfio

- 10.6 Canfuwyd bod y cydymffurfio â'r MUP yn uchel ar y cyfan (P1; P4; P6). Roedd yr achosion o ddiffyg cydymffurfio yn fân ac ni nodwyd unrhyw gynnydd mewn gweithgarwch anghyfreithlon cysylltiedig ag alcohol. Priodolwyd cydymffurfiaeth lwyddiannus i statws gorfodol MUP, y nifer cymharol fach o gynhyrchion yr effeithiwyd arnynt ar lefel pris o 50ppu (sy'n ei gwneud yn haws i wirio) a chanllawiau a chymorth cyffredinol a ddarperir i fanwerthwyr. Mae gweithredu llwyddiannus (S1) a chydymffurfio yn gam cyntaf pwysig ar gyfer cyflawni'r canlyniadau polisi a fwriedir.
- 10.7 Roedd rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r polisi ymysg gwahanol boblogaethau o yfwyr yn yr Alban. Er enghraifft, awgrymodd astudiaeth gydag yfwyr digartref lefel uchel o ymwybyddiaeth yn gyffredinol (S4), tra nododd astudiaethau eraill fod gan yfwyr ymwybyddiaeth gyffredinol o gynnydd mewn prisiau yn hytrach na'r polisi ei hun (P5; P15), ac i yfwyr eraill nid oedd ganddynt fawr ddim ymwybyddiaeth o'r polisi na'r newid mewn prisiau (P15).

Pris ac Argaeledd

- 10.8 Mae nifer o newidiadau amlwg wedi bod o ran prisiau yn yr Alban ers cyflwyno'r Isafswm Pris Uned. Cododd pris gwerthu cyfartalog cynhyrchion alcohol fesul uned o 55c i 60c, yn y 12 mis ar ôl eu rhoi ar waith (P3, AR 2019). Rhoddwyd cyfrif am godiadau pris cyfartalog tebyg mewn astudiaethau eraill^{114, 115} O ganlyniad, roedd cyfran yr alcohol a werthwyd o dan 50ppu wedi gostwng (AR2019) ac roedd yna adroddiadau uniongyrchol am brisiau uwch am alcohol yn cael eu talu gan yfwyr (P15).
- 10.9 Roedd llawer o'r cynhyrchion alcohol a oedd yn cael eu hyfed eisoes yn uwch na'r pris gweithredu o 50ppu, ac felly ni effeithiwyd arnynt gan MUP (P2; P15).

¹¹⁴ [Immediate impact study, O'Donnell 2019](#)

¹¹⁵ [Early impact study, Xhurxhi 2020](#)

- 10.10 Gwelwyd rhai newidiadau amlwg yn argaeledd rhai cynhyrchion ar ôl cyflwyno MUP (P2; S3). Y fwyaf nodedig ymysg y cynhyrchion hynny (h.y. seidr gwyn), effeithiwyd yn fwyaf niweidiol ar ei bris gan MUP (P2; P15).
- 10.11 Roedd rhai adroddiadau'n awgrymu nad oedd llawer o ymwybyddiaeth na dealltwriaeth o weithredu'r polisi ymysg yfwyr penodol (P15; S1), ac roedd eraill yn awgrymu rhywfaint o ymwybyddiaeth o'r prisiau mewn cynhyrchion sy'n cael eu hyfed yn uniongyrchol (P2).

Prynu a gwariant

- 10.12 Roedd gwerthusiadau'r Alban yn nodi amrywiaeth o newidiadau mewn cynhyrchion alcohol a oedd ar gael ac a brynwyd.

Ymddygiad prynu

- 10.13 Dywedodd rhai manwerthwyr fod defnyddwyr, yn y ffenestr ôl-weithredu yn syth ar ôl hynny, wedi ymateb i'r cynnydd mewn prisiau mewn rhai cynhyrchion drwy newid i feintiau pecynnau llai, cynnyrch alcohol is, neu fwy o gynhyrchion premiwm nad oedd cynnydd mewn prisiau sy'n gysylltiedig ag isafbris uned yn effeithio'n uniongyrchol arnynt (P4). Mae MESAS yn nodi bod y 'premiwm' hwn wedi cyflymu tuedd a oedd yn bodoli cyn i'r MUP ddod i rym.¹¹⁶ Y pwynt perthnasol yma yw bod y gwahaniaeth pris rhwng cynhyrchion penodol wedi lleihau, a chynhyrchion 'premiwm' blaenorol yn dod yn fwy cystadleuol/atyniadol.
- 10.14 Ar gyfer yfwyr eraill, gwelwyd symudiad amlwg yn y math o gynnyrch alcohol (yn hytrach na defnydd), yn enwedig i ffwrdd oddi wrth seidrau neu gwrw cryfder uwch tuag at gynnyrch cryfder is neu wirodydd, yn enwedig fodca (P15).
- 10.15 Roedd adroddiadau am brynu alcohol anghyfreithlon neu ddefnyddio diodydd dialcohol yn brin ac yn eithriadol (P15).

Gwerthiant

¹¹⁶ [Letter to Convenor of Health and Sport Committee, Scottish Parliament \(publichealthscotland.scot\)](https://www.parliament.scot/parliamentary-business/committees/health-and-sport-committee/letter-to-convenor-of-health-and-sport-committee)

- 10.16 Daeth adroddiadau PHS i'r casgliad bod y cyfnod ôl-weithredu wedi arwain at ostyngiad (3.5%) yng nghyfanswm yr alcohol a brynwyd gan aelwydydd, yn enwedig ar gyfer seidr, gyda gostyngiad llai mewn gwirodydd a gwin (P3, P17). Canfu'r astudiaeth dair blynedd fod y gostyngiadau hyn wedi'u cynnal dros y cyfnod, i gynhyrchu gostyngiad net o 3.0% yng nghyfanswm gwerthiant fesul oedolyn yn y tair blynedd ar ôl ei roi ar waith; sbardunwyd hyn gan ostyngiad o 3.6% mewn gwerthiant drwy allfasnach (P13).
- 10.17 O ran dibynadwyedd data gwerthu alcohol, mae PHS wedi dangos rhywfaint o gymaroldeb rhwng gwahanol ffynonellau data manwerthu (P17) a bod data gwerthiant alcohol yn debygol o gynrychioli tanamcangyfrif, yn hytrach na goramcangyfrif, o ran yfed alcohol fesul oedolyn. (P18).

Gwariant

- 10.18 Roedd y cynnydd mewn prisiau ar gyfer rhai cynhyrchion yn golygu, i'r rheini a oedd yn prynu'n rheolaidd ar lefel oedd yn is na 50ppu cyn MUP, bod eu gwariant cyfartalog ar alcohol wedi cynyddu ar ôl rhoi MUP ar waith (P15).

Defnydd (gwerthiant ac adroddiadau)

- 10.19 Mae'r newidiadau mewn defnydd wedi cael eu gwerthuso gan EMAS mewn dwy ffordd wahanol. Yn gyntaf, drwy ddefnyddio gwerthiant alcohol fel mesur procsi ar gyfer defnydd (P17; P18), ac yn ail, gyda phrosiectau ymchwil yn mesur newidiadau a hunan-adroddir yn uniongyrchol o ran yfed.

Hunan-adrodd

- 10.20 Roedd amrywiaeth o wahanol adroddiadau ac astudiaethau wedi cymryd tystiolaeth uniongyrchol o newidiadau cyn ac ar ôl gweithredu ar gyfer yfwyr yn yr Alban. Roedd y rhan fwyaf o'r ymchwiliadau hyn yn canolbwyntio ar boblogaethau penodol o yfwyr (h.y. pobl ifanc, y digartref, neu'r rheini a oedd yn derbyn triniaeth).
- 10.21 Roedd yr hunan-adrodd am newidiadau mewn lefelau yfed yn dilyn isafbris uned yn amrywio. I lawer, lle nad oedd pris eu diod wedi newid a/neu lle'r oedd eu lefelau incwm yn ddigon uchel, nid oedd y cynnydd mewn prisiau wedi arwain at unrhyw newid mewn ymddygiad yfed. Nododd rhai

astudiaethau fod yfwyr yn yfed llai o unedau ar ôl gweithredu (S3; S4), er nad oedd unrhyw ostyngiad a gofnodwyd mewn unedau yn cyfateb yn awtomatig i ostyngiadau mewn patrymau yfed neu ddibyniaeth cyffredinol (S3; P15). Roedd nifer fach o bobl â chyllidebau cyfyngedig hefyd yn dweud eu bod yn yfed llai (P2). Ar gyfer dwy astudiaeth roedd unigolion a oedd yn yfed llai neu fwy, ond lle'r oedd y casgliad cyffredinol at ei gilydd yn nodi nad oedd unrhyw newid gwirioneddol.

- 10.22 Pan nodwyd unrhyw newidiadau mewn yfed alcohol, neu pan soniwyd am stopio neu dderbyn triniaeth, nid oedd MUP yn ystyriaeth allweddol mewn newidiadau o'r fath (P2; P15; S4). Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai bod MUP wedi cael rhywfaint o ddylanwad ar benderfyniadau o'r fath (P15). Mae amrywiaeth o adroddiadau sy'n awgrymu bod cymhellion dros yfed, a chanlyniadau yfed, yn adlewyrchu bywydau cymhleth ac ystyriaethau lluosog, ac nid dim ond pris (P15; P5). O ganlyniad, roedd unrhyw newidiadau mewn defnydd yn aml yn cael eu hystyried am resymau eraill yn hytrach na phris. Er enghraifft, ar gyfer pobl ifanc (P2), mynd yn hŷn, grwpiau ffrindiau gwahanol, newidiadau mewn blas neu oddefiant, newidiadau mewn arian (ar gael), neu amgylchiadau personol a nodwyd fel rhesymau pam fod newid wedi digwydd.

Newid ymddygiadol arall

- 10.23 Roedd gwerthusiadau'r Alban hefyd yn adrodd ar amrywiaeth o newidiadau ymddygiad eraill mewn ymateb i MUP, yn benodol; cynnal fforddiadwyedd, siopa trawsffiniol a gweithgarwch troseddol.

Cynnal fforddiadwyedd

- 10.24 Mae llawer o unigolion sydd ag arferion yfed neu ddibyniaethau sylweddol wedi datblygu dulliau o flaenoriaethu prynu alcohol a draul hanfodion gwario eraill (h.y. biliau'r cartref, bwyd neu rent), gyda MUP yn gwaethygu'r duedd hon (P15; S4). Roedd hyn hefyd yn cynnwys mwy o fenthyca gan deulu a ffrindiau a defnyddio banciau bwyd (P15). Roedd nifer o astudiaethau'n cyfeirio at effaith ariannol tlodi neu newidiadau i fudd-daliadau fel rhywbeth sy'n cael mwy o effaith ar amgylchiadau unigolion/teuluoedd na'r MUP (P15; M5).

Trawsffiniol

- 10.25 Ni fu unrhyw dystiolaeth ar raddfa fawr o brynu trawsffiniol sylweddol (P1; P3; P4; PH16). Er ei bod yn bosibl dangos rhywfaint o gynnydd posibl mewn gwerthiant yng Ngogledd Lloegr, o'i gymharu â gweddill Lloegr, mae hyn yn gymharol fach o'i gymharu ag ymddygiad prynu cyffredinol y boblogaeth (P16).
- 10.26 Roedd rhywfaint o gyfeirio manwl a chyson mewn cyfweiliadau ac arolygon am brynu trawsffiniol. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn wedi'u cyfyngu i'r rheini a oedd yn byw yn y ddau ranbarth yn yr Alban a oedd yn ffinio'n uniongyrchol â Lloegr (P10; P15; P16). Roedd siopa trawsffiniol yn golygu bod angen i unigolion ddefnyddio/cael gafael ar gerbyd preifat, ac roeddent yn aml yn symud eu siopa bwyd o archfarchnad yn yr Alban i archfarchnad yn Lloegr (P15), neu ymweliad at ddiben arall fel gwaith rheolaidd neu ymweld â theulu (P16). Cynhaliodd PHS (16) ddadansoddiad o'r galw a oedd yn awgrymu bod lefel y pryniant sydd ei hangen i fantoli'r gyllideb yn erbyn unrhyw gostau teithio ychwanegol yn sylweddol.

Newid i sylweddau eraill

- 10.27 Roedd rhai adroddiadau'n tynnu sylw at y ffaith nad oedd unrhyw dystiolaeth (neu fawr ddim) o unrhyw newid o alcohol i gyffuriau eraill (P15; S1; S3). Fodd bynnag, canfu rhai adroddiadau ychydig o dystiolaeth o newid i gyffuriau anghyfreithlon ymysg yr yfwyr hynny a oedd eisoes yn defnyddio cyffuriau, ond nid mewn defnyddwyr alcohol yn unig (M15, S4, S3, S1). Roedd dwy astudiaeth (Darparwyr Gwasanaethau yn M15 ac yfwyr stryd/digartref yn S4) a oedd yn dangos rhywfaint o bryder ynghylch y cynnydd yn y defnydd o bensodiasepin, yn enwedig yr hyn y cyfeiriwyd ato fel 'valium y stryd'.

Ymddygiad troseddol ac anghyfreithlon

- 10.28 Nid oedd llawer o dystiolaeth o unrhyw gynnydd eang mewn troseddu (P15), yn enwedig o ran dwyn neu drais, o ganlyniad i'r MUP (P15). Yn achos lleiafrif bach o yfwyr digartref nodwyd bod MUP wedi arwain at gynnydd yn eu hymddygiad blaenorol o ddwyn i gael alcohol (S4). Dylid nodi nad oedd

unrhyw dystiolaeth o unrhyw ostyngiad mewn troseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol ychwaith.

Niwed i Iechyd a Niwed Cymdeithasol

- 10.29 Yr ymdeimlad cyffredinol ar draws nifer o adroddiadau oedd nad oedd cyflwyno'r MUP wedi arwain at lawer o newidiadau amlwg mewn ystyriaethau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nid oedd unrhyw newid yn anghenion pobl ifanc o ran yfed a chymorth (P2), ac yn astudiaeth yr adrannau achosion brys (S1), nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith fuddiol o ganlyniad i isafbris uned. Pan gafodd darparwyr gwasanaethau cymorth a thriniaeth ar gyfer yfwyr eu cyfweld ynghylch effaith isafbris uned (ar y galw neu natur eu gwasanaeth), roedd y neges graidd yn dangos dim newid amlwg a busnes fel arfer (M15; S4).
- 10.30 Effaith ar fanwerthwyr – Nid oedd unrhyw effaith negyddol amlwg ar fanwerthwyr o ran cau na staff, ac roedd ymchwilyr yn crynhoi 'cydbwysedd newydd' lle roedd prisiau is a phrisiau uwch yn cael eu cydbwysu i raddau helaeth (P4, P20). Fodd bynnag, roedd yr effaith yn dibynnu ar y cynnig gwerthiant cyn MUP a ddarparwyd gan unrhyw adwerthwr penodol h.y. ar gyfer rhai manwerthwyr nid oedd unrhyw newid (ni werthwyd cynnyrch o dan 50pcu), ar gyfer rhai roedd y pris uwch yn gwrthbwysu'r y gostyngiad mewn gwerthiant, ac ar gyfer grŵp penodol eraill a oedd yn aml yn dibynnu mwy ar werthu cynnyrch o dan 50ppu, roeddent yn adrodd am golled.

11. Trafodaeth

Crynodeb

- Mae stori ddata sy'n dod i'r amlwg i'w hadrodd am gyflwyno MPA yng Nghymru. Nid yw hon yn stori achos ac effaith syml, ond mae'n stori amrywiol am manwl am dirwedd gymhleth.
- Mae'r broses o roi'r polisi ar waith wedi cael ei chroesawu'n gyffredinol a'i hategu gan lefelau uchel o gydymffurfio o ran adwerthu.
- Mae'n ymddangos bod cyflwyniad MPA yng Nghymru yn cynnig rhywfaint o gysondeb â disgwyliadau rhyngwladol ehangach. Mae hefyd yn cynnig rhai manylion penodol sy'n ymwneud â'r cyd-destun Cymreig.
- Mae MPA yng Nghymru wedi arwain at dynnu seidr rhad o'r siopau i raddau helaeth, gyda yfwyr yn newid yn bennaf i lager, gwirodydd neu win cryf.
- Mae'n ymddangos bod y rheini y mae MPA yn effeithio fwyaf arnynt yn yfwyr dibynnol ar incwm isel.
- Nid oes unrhyw swm o effeithiau negyddol disgwylidig a ofnid wedi dod i'r amlwg.
- Mae deall effeithiau posibl eraill MPA wedi cael ei gwneud yn anoddach gan ffactorau eraill, yn enwedig COVID-19 a'r argyfwng costau byw sy'n dod i'r amlwg, y mae llawer yn ei wynebu.
- Mae angen ystyried y lefel pris bosibl yn awr er mwyn cynnal unrhyw effeithiau a welwyd a sicrhau bod triniaeth ar gael a chymorth arall (ar sail ariannol) i yfwyr dibynnol ar incwm isel.

Cyflwyniad

- 11.1 Mae'r astudiaeth hon wedi syntheseiddio llawer o wahanol ystyriaethau. Wrth wneud hynny, mae wedi gallu dadansoddi chwe neges thematig sydd wedi cael eu hailadrodd ar draws ystod o'r penodau blaenorol. Mae'r rhain yn ymwneud â rhoi polisiâu ar waith yn llwyddiannus a groesawyd yn gyffredinol, gyda rhai effeithiau cyfyngedig amlwg i'w gweld. Yn hyn o beth, mae llawer o negeseuon sy'n cyd-fynd â'r gwerthusiad mwy cynhwysfawr o'r

Alban. Mae hwn yn bolisi sy'n adlewyrchu'r lefel 50ppu a fabwysiadwyd a myrdd o ffactorau cyd-destunol eraill mewn cyd-destun economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol cymhleth. Trafodir y rhain yn fanylach isod.

Gweithredu

- 11.2 Mae hanes llwybr Llywodraeth Cymru yn pasio deddfwriaeth er mwyn galluogi polisi isafswm prisiau a rhoi'r MPA ar waith yn llwyddiannus ym mis Mawrth 2020 wedi cael ei hen sefydlu (gweler **Pennod 2**). I gyd-fynd â'r gweithredu, cafwyd lefel uchel iawn o gydymffurfiaeth ymysg manwerthwyr (gweler **Penodau 6, 7 a 9**). Teimlir bod Llywodraeth Cymru i'w chanmol am achub ar y cyfle i wneud hynny cyn iddo ddiflannu, mae'n debyg, gyda dyfodiad Deddf Cymru 2017. Wrth wneud hynny, maent wedi ymateb yn gadarnhaol i'r lefel gynyddol o dystiolaeth ryngwladol sy'n dadlau bod polisiau prisio yn effeithiol, yn hanfodol ac yn rhan annatod o ddulliau Llywodraethol cyffredinol o fynd i'r afael â chanlyniadau niweidiol defnyddio alcohol (gweler **Pennod 4**).

Agwedd at Bolisi

- 11.3 Mae'r MPA wedi cael ei groesawu'n gyffredinol. Gyda llawer o werthusiadau'n adrodd bod gwahanol unigolion a grwpiau yn cefnogi anghysur ynghylch argaeledd cynhyrchion alcohol rhy rad, a'r budd posibl i genedlaethau'r dyfodol (gweler **Penodau 6 a 9**). Ochr yn ochr â'r gefnogaeth hon, mae rhywfaint o bryder cyson ynghylch yr effaith ar y boblogaeth benodol o yfwyr mwy dibynnol, yn enwedig y rheini ar incwm isel (gweler **Penodau 6 a 9**). Mae'r adroddiad interim o'r gwaith ansoddol gyda gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth yn benodol wedi nodi sut mae'r pryder hwn wedi dod yn gamddealltwriaeth sefydledig, a nododd Llywodraeth Cymru mai dyma'r poblogaethau targed adeg sefydlu'r polisi.

Effeithiau gweladwy ac a adroddir amdanynt

- 11.4 Wrth asesu natur unrhyw effaith, mae'n bwysig ein bod yn ceisio ystyried mor gyfannol â phosibl beth allai'r costau neu'r niwed fod o ganlyniad i ddefnyddio alcohol¹¹⁷. Er bod astudiaethau'n gallu adrodd am newidiadau mewn defnydd ac ymddygiad cysylltiedig (gweler **Penodau 6, 9 a 10**), mae data unigol (gweler **Pennod 7**) a ffactorau posibl eraill (gweler **Pennod 8**) yn ei gwneud yn anodd iawn awgrymu unrhyw achos ac effaith uniongyrchol.
- 11.5 Yr effaith fwyaf amlwg, fel y gwelir dro ar ôl tro yng Nghymru a'r Alban mewn perthynas â chynnyrch cymharol yn Lloegr, oedd yr un ar y cynhyrchion hynny a werthwyd gynt am brisiau oedd yn sylweddol is na 50ppu, yn enwedig seidr rhad. Cafodd y cynhyrchion hyn gynnydd enfawr mewn prisiau, a arweiniodd yn aml at eu diflaniad oddi ar silffoedd siopau a/neu gwsmeriaid yn newid i gynhyrchion alcohol eraill (gweler **Penodau, 6, 7 a 10**).
- 11.6 Nid effeithiwyd ar y rhan fwyaf o gynhyrchion ar 50ppu, ac o ganlyniad nid effeithiwyd ar y rhan fwyaf o yfwyr yn yr un modd (gweler **Pennod 6**).
- 11.7 Fodd bynnag, cafodd llawer o'r rheini a oedd yn yfed ar begwn unrhyw sbectwm niweidiol (h.y. ar lefelau sy'n gyson â thriniaeth neu ddibyniaeth), a oedd gynt wedi rheoli fforddiadwyedd drwy brynu'r cynhyrchion rhataf, eu heffeithio'n sylweddol gan weithredu'r MPA. Roedd hyn yn fwyaf amlwg ymysg y rheini a oedd hefyd â lefelau incwm isel (gweler **Pennod 6**). Roedd amrywiaeth o ffactorau eraill sy'n gysylltiedig ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol hefyd wedi cael effaith niweidiol ar fforddiadwyedd y grŵp hwn (gweler **Pennod 8**).
- 11.8 Roedd llawer o bryder cyn gweithredu ynghylch y posibilrwydd o MPA yn arwain at gynnydd mewn rhai ymddygiadau negyddol, fel dwyn o siopau neu newid i ddefnyddio cyffuriau eraill (gweler **Penodau 2, 4, a 6**). Dim ond ychydig o dystiolaeth o'r fath a ganfuwyd yn yr adroddiadau ôl-weithredu, yn bennaf ymysg y rheini sy'n cael gwir anhawster gyda fforddiadwyedd a phrofiad blaenorol o ddefnyddio cyffuriau eraill (gweler **Pennod 6**).

¹¹⁷ [Which cost of alcohol? What should we compare it against? - PubMed \(nih.gov\)](#)

Lefel Pris

- 11.9 Mae Cymru wedi mabwysiadu lefel pris o 50 ceiniog yr uned. Dyma'r un lefel ag a fabwysiadwyd gan yr Alban (gweler **Pennod 2**). Mae hyn ei hun wedi caniatáu i ni ystyried cymharu'r dystiolaeth o'r ddwy wlad (gweler **Pennod 5**). Mae'r adroddiad hwn wedi tynnu sylw at sut y gellid ystyried y lefel pris hon fel un cychwynnol gofalus a phragmataidd (gweler **Penodau 6 ac 11**). Roedd lefel y pris yn ddewis a drafodwyd gan Lywodraeth Cymru (gweler **Pennod 2**). Mae rhai o'r dadleuon o blaid hyn wedi'u crynhoi'n gynnil yn eu hasesiad effaith integredig.¹¹⁸
- 11.10 Mae'r lefel pris o 50pcu wedi'i briodoli i'r gweithredu llwyddiannus.¹¹⁹ Dadleuwyd bod y lefel gymharol fychan o ganlyniadau ac effeithiau amlwg yn adlewyrchu lefel y pris fel y'i mabwysiadwyd¹²⁰ (Millard, et al 2021). Cafodd rhywfaint o'r gwaith modelu gwreiddiol ei wneud ar y pris 50ppu dros ddegawd yn ôl. Yn y cyfnod ers hynny mae chwyddiant wedi codi, bu cynnydd sylweddol mewn costau byw ac amrywiaeth o godiadau bach a mwy mewn lefelau incwm. Wrth i'r pris o 50ppu aros yn ddigyfnewid, mae'r ffactorau hyn yn cynyddu fforddiadwyedd cymharol alcohol (gweler **Pennod 8**). Er, yn achos y rheini sydd ar incwm is, dadleuwyd bod incwm wedi gostwng o'i gymharu â chostau.
- 11.11 Gellir dadlau bod y pris o 50ppu, er mai hwn yw'r pris cychwynnol effeithiol sydd wedi'i sefydlu'n gyfreithiol, bellach yn bris 'sydd wedi dyddio' a bod angen i'r pris gynyddu er mwyn i MPA/MUP barhau i gael effaith. Hynny yw, mae'r bwch amddifadedd wedi cynyddu ac mae'n hysbys ei fod yn cael effaith niweidiol ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol (gweler **Pennod 8**).
- 11.12 Bu galwadau brwd am godiadau o'r fath, yn enwedig ymysg grwpiau ymgyrchu a'r proffesiwn meddygol.¹²¹ Mae llawer o'r galwadau hyn yn dweud bod 65c yn cynrychioli lefel pris fwy realistig a chyfredol.

¹¹⁸ [Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig \(llyw.cymru\)](#)

¹¹⁹ [Intended and unintended consequences of the implementation of minimum unit pricing of alcohol in Scotland: a natural experiment \(nhr.ac.uk\)](#)

¹²⁰ [Intended and unintended consequences, Millard et al 2021](#)

¹²¹ [Widespread support to increase MUP \(alcohol-focus-scotland.org.uk\)](#)

Cydnawsedd â llenyddiaeth a gwerthusiadau eraill

- 11.13 Yn ystod y broses o lunio'r ddeddfwriaeth a'r cyfnod cyn gweithredu, daeth yn fwyfwy amlwg bod Cymru'n dilyn ôl troed yr Alban (gweler **Pennod 2**). Hefyd, gan mai'r Alban oedd y wlad gyntaf i weithredu polisi isafswm prisiau ar lefel genedlaethol gyfan, roedd yn amlwg y byddent yn destun llawer iawn o graffu a byddai angen iddynt ymateb drwy werthusiad cynhwysfawr iawn (gweler **Pennod 5**). Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn effro i ddilyn proses o ymgysylltu â thimau gwerthuso eraill, yn enwedig PHS, a sefydlu a yw gwerthusiad Cymru yn rhoi darlun calonogol o werthusiadau rhyngwladol eraill neu'n tynnu sylw at yr angen i ehangu a mireinio gweithgarwch gwerthuso Cymru.
- 11.14 Yn ystod y camau cynnar a'r camau interim, mae wedi dod yn amlwg bod y prif negeseuon sy'n deillio o weithredu'r MPA yng Nghymru wedi cyd-fynd yn galonogol â'r negeseuon o lenyddiaeth, gwerthusiadau eraill, ac yn enwedig o'r Alban (gweler **Penodau 6 a 10**).
- 11.15 Nid oes dim negeseuon eraill arwyddocaol wedi dod i'r amlwg o werthusiad Cymru o'i gymharu â'r Alban a manau eraill. Yn y stori hon bu rhywfaint o fanylion mwy amrywiol sy'n adlewyrchu cyd-destun ac amseriad gweithredu yng Nghymru yn benodol (h.y. COVID-19, natur drawsffiniol fwy estynedig, a gwahanol bwerau llywodraethol datganoledig) (gweler **Penodau 6, 7, a 9**).

Dadansoddi cyfraniad – maes gwerthuso anniben

- 11.16 Mae'r fethodoleg Dadansoddi Cyfraniad a fabwysiadwyd wedi'i chynllunio'n fwriadol i ystyried sefyllfa lle mae ystod eang o ystyriaethau cymhleth a dylanwadol (gweler **Penodau 3 a 5**). Mae'r adroddiad hwn wedi tynnu sylw at y ffaith bod manylion gweithredu'r MPA yng Nghymru wedi bod yn fwy cymhleth nag yr oedd unrhyw un wedi'i ragweld Mae isafbris yn ymwneud â fforddiadwyedd a lleihau'r defnydd o alcohol i leihau niwed (gweler **Penodau 2, 4 a 5**). Yng ngoleuni hynny, mae 2020-2022 wedi cael ei ddominyddu gan bandemig byd-eang ac argyfwng economaidd (gweler **Pennod 7**). Mae'r rhain, ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau eraill, wedi arwain at yr ymchwilyr

yn clywed negeseuon cyson ynghylch pa mor anodd fu canfod pob un ond nifer penodol o effeithiau amlwg MPA (gweler **Penodau 6-10**).

- 11.17 Mae archwilio profiadau yfwyr yn y gwaith gyda gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth, a'r gwaith sy'n archwilio'r effaith ar y boblogaeth ehangach o yfwyr, yn gyson ag ymchwilwyr eraill, o ran bod y termau (yfed) *cymedrol*, *perylus*, *niweidiol a dibynnol* yn cyd-fynd â sgoriau AUDIT, ac yn cael eu diffinio ar sail sgoriau AUDIT¹²². Mae'n bwysig pwysleisio nad yw hyn, o ran samplu, yn gwahaniaethu rhwng y rheini yr oedd eu pryniant alcohol cyn-gweithredu naill ai'n uwch neu'n is na'r pris gweithredu MPA o 50ppu. Mae'r samplu'n cofnodi unigolion a oedd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth nad oedd MPA yn effeithio arnynt yn ei hanfod (neu wedi'u cyfyngu i raddau bychan) oherwydd nad oedd pris yr alcohol roeddent yn ei brynu (cyn ac ar ôl-MPA) wedi newid (neu ddim ond wedi newid ychydig). O ganlyniad, mae'r samplau felly'n seiliedig ar garfannau cyfan o yfwyr sydd naill ai'n derbyn triniaeth ac yfwyr yn y boblogaeth ehangach, yn hytrach na samplau sy'n seiliedig ar y rheini a oedd wedi profi newid (neu beidio) ym mhris yr alcohol maent wedi'i brynu ar ôl ei roi ar waith.

Cyfyngiadau

- 11.18 Rydym wedi amlinellu'r ystyriaethau fframwaith a'r broses fethodolegol glir ar gyfer y gwerthusiad (**Pennod 3 a 5**). Er hynny, mae dadansoddi cyfraniad yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwerthuswyr wneud synnwyr yn y pen draw o unrhyw 'stori perfformiad'. Wrth wneud hynny, rydyn ni'n ymwybodol ein bod ni fel tîm wedi ymdrwytho'n ormodol mewn ystyriaethau polisi isafswm prisiau ers blynyddoedd lawer. Mewn sawl ffordd, gall gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r fath gael eu hystyried yn gryfder. Fodd bynnag, gellid dadlau hefyd nad yw ein dadansoddiad yn ddigon gwrthrychol. Rydym yn ymddiried mewn cadw'r adroddiad i faint darllenadwy, a bod yr Atodiadau'n darparu digon o gyfeiriadau at y sylfaen dystiolaeth sylfaenol ar gyfer y casgliadau rydym wedi'u llunio.

¹²² [AUDIT : the Alcohol Use Disorders Identification Test : guidelines for use in primary health care \(who.int\)](http://www.who.int)

- 11.19 Rydym wedi nodi pa mor fach yw'r gwerthusiadau MPA pwrpasol yng Nghymru, o ran nifer yr astudiaethau a rhai o feintiau'r samplau a geir ynddynt. Mae'r cyfyngiadau o ran hynny yn hyn yn cael eu cydbwyso'n rhannol drwy adleisio'n gyson â'r set o werthusiadau mwy yn yr Alban.
- 11.20 Credwn fod nifer o **fylchau** yn y data, y gwerthusiadau, y dystiolaeth a'r llenyddiaeth, ac o ganlyniad efallai eu bod ar goll o'r adroddiad hwn, yn fwyaf penodol:
- data clir o Gymru a gasglwyd/sy'n adlewyrchu barn ac effaith plant, pobl ifanc ac aelodau o'r teulu; a
 - Ymchwil MPA Cymru yn benodol o leoliadau'r GIG (h.y. yn unol â'r astudiaeth yn yr Alban o 'Yfwyr Niweidiol')¹²³.

Sylwadau i gloi

- 11.21 Mae'r astudiaeth hon wedi gallu dadansoddi chwe neges thematig gyffredinol sydd wedi cael eu hailadrodd ar draws ystod o'r penodau blaenorol. Caiff y rhain eu hamlinellu a'u crynhoi yn y bennod nesaf ac yn y crynodeb gweithredol. At ei gilydd maent yn adrodd stori o roi polisiau ar waith yn llwyddiannus ac a groesawyd yn gyffredinol, gyda rhai effeithiau cyfyngedig amlwg i'w gweld. Mae'n ymddangos bod tystiolaeth glir sy'n cefnogi cydymffurfio da gan fanwerthwyr, a rhai cynhyrchion alcohol a oedd gynt yn rhad yn cael eu dileu. Mae'n ymddangos nad yw hyn wedi effeithio ar y rhan fwyaf o yfwyr (neu nad yw'n effeithio ar y cynnyrch o'u dewis, neu maent yn gallu ei fforddio), ond mae'n ymddangos bod effaith arbennig o niweidiol ar grŵp bach o yfwyr dibynnol ac incwm isel yn bennaf. Yn hyn o beth, mae llawer o negeseuon sy'n cyd-fynd yn galonogol â'r portffolio o werthusiadau mwy cynhwysfawr o'r Alban. Mae hwn yn bolisi sy'n adlewyrchu'r lefel 50ppu a fabwysiadwyd a myrdd o ffactorau cyd-destunol eraill mewn cyd-destun economaidd, gwleidyddol a chymdeithasol cymhleth. O'r herwydd, mae'n anoddach gweld effeithiau cadarnhaol neu negyddol helaeth.

¹²³Nodwn, fodd bynnag, fod y negeseuon a geir gan yfwyr dibynnol/sy'n cael triniaeth yn y GIG a'r sector gwirfoddol yn ymddangos yn debyg iawn.

Y camau nesaf

- 11.22 Mae'r astudiaeth hon yn cadarnhau bod darlun yn dod i'r amlwg erbyn hyn o'r hyn y gellir ei ddweud am weithredu polisiau prisio alcohol ar raddfa genedlaethol gyfan.¹²⁴
- 11.23 Mae'r darlun yn yr Alban yn un sydd â nifer o werthusiadau sydd bellach ar gael i'r cyhoedd. Byddwn yn cael dealltwriaeth lawnach a chyflawn o'r cam gweithredu yn yr Alban pan fydd gwerthusiad synthesis cyffredinol PHS yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023. Bydd hyn wedyn yn arwain at ystyriaethau Llywodraeth yr Alban ynghylch parhad y polisi o dan amodau ei chymalau machlud presennol ac ystyriaeth i lefelau prisiau yn y dyfodol. O ystyried rhywfaint o'r gyfatebiaeth amlwg yma rhwng mesurau Cymru a'r Alban, bydd hyn hefyd yn cynnig lefel newydd o ddealltwriaeth o effeithiolrwydd MPA o 50ppu y gellir eu defnyddio mewn camau gweithredu Llywodraeth Cymru o ran y camau nesaf ar gyfer ei pholisi a'i lefel pris ei hun.
- 11.24 Mae'r darlun Cymreig yn dod i'r amlwg hefyd¹²⁵. Mae hyn yn cynnwys effaith ar unwaith ar werthiant, ond efallai i raddau llai ar ddefnydd. Bydd ein dealltwriaeth yn cael ei llywio ymhellach gan y rownd derfynol o werthusiadau yng Nghymru a'r gwerthusiad cyffredinol terfynol (ail fersiwn yr adroddiad hwn) yn 2024.

¹²⁴ [Livingston 2022 Minimum pricing – what can we say so far?](#)

¹²⁵ [Evans 2022 Arferion yfed Cymru: faint sydd wedi newid ers cyflwyno'r isafbris am alcohol? \(senedd.cymru\)](#)

12. Negeseuon sy'n dod i'r amlwg ac ystyriaethau cynnar

Crynodeb

Chwe phrif neges gyffredinol

- Rhoi polisiâu ar waith yn llwyddiannus ar y cyfan
- Rhai effeithiau penodol amlwg hyd yma
- Cytundeb cyffredinol â'r polisi, ond pryder am rai poblogaethau
- Hyder mewn gwerthusiadau yng Nghymru o ganlyniad i gyfatebiaeth amlwg gyda gwerthusiadau o'r Alban
- Yr angen am godiadau rheolaidd yn yr isafbris, i gadw unrhyw werth o ran effaith
- Mae dealltwriaeth o MPA yn bodoli mewn gofod gwerthuso cymhleth ac anniben

Y prif argymhellion

- I Lywodraeth Cymru ynghylch; cynnal prosesau gwerthuso, rhagor o negeseuon am y polisi a sicrhau bod y polisi triniaethau ategol yn parhau'n effeithiol.
- Ar gyfer darparwyr gwasanaeth ynghylch; paratoi a chefnogi yfwyr dibynnol ac incwm isel yn well ar gyfer effaith y polisi

Cyflwyniad

- 12.1 Mae'r bennod flaenorol wedi amlinellu sut mae gennym stori sy'n dod i'r amlwg i'w hadrodd a bod honno wedi cyrraedd yr adroddiad interim hwn gyda chwe neges allweddol. Mae'r rhain wedi'u nodi isod. Mae gan bob un nifer o elfennau i'w cyfrannu at y neges allweddol gyffredinol honno.

Negeseuon Allweddol

Neges allweddol 1: Gweithredu polisi'n llwyddiannus

- Cafwyd lefel dda iawn o gydymffurfio â'r polisi. Mae manwerthwyr yn dweud eu bod wedi cael digon o wybodaeth ac yn gyfforddus wrth ei roi ar waith. Dywedodd Safonau Masnach Cymru mai dim ond chwe dirwy a roddwyd mewn ymateb i 3,000 a mwy o arolygiadau, ac mae archwiliadau prisiau drwy nifer o werthusiadau'n dangos bod yr isafbris yn cael ei fabwysiadu'n gyson. Er bod rhai o'r ymatebwyr yn y ddau brosiect ymchwil, a oedd yn cynnwys adborth gan yfwyr, wedi nodi bod rhywfaint o ddiffyg cydymffurfio, byddai'r darlun cyffredinol yn dangos hyn fel eithriad yn hytrach na'r norm.
- Mae newidiadau amlwg wedi bod mewn prisiau ar gyfer cynnyrch penodol. Mae archwiliadau cynnyrch ac adroddiadau uniongyrchol yn dangos bod rhai cynhyrchion wedi cael pwyntiau pris newydd ôl-50ppu ac mae rhai cynhyrchion o ganlyniad i hynny wedi diflannu neu'n brin i'w prynu. Mae rhywfaint o ail-lunio cynnyrch yn y diwydiant, h.y. gostyngiad mewn abv neu faint y cynnyrch i gynyddu fforddiadwyedd y cynnyrch.
- Achubodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle cyn Deddf Cymru 2017 i weithredu'r polisi. Mae hyn yn cyd-fynd â llywodraethau eraill y DU y tu allan i Loegr, llywodraethau byd-eang eraill, a Sefydliad Iechyd y Byd ac, o'r herwydd, dylid cymeradwyo'r penderfyniad hwn.

Neges allweddol 2: Effeithiau amlwg hyd yma

- Newidiadau i'r cynnyrch/argaeledd. Yn fwy penodol, roedd cyflwyno'r polisi'n codi pris nifer o gynhyrchion alcohol a oedd gynt yn arbennig o rhad, yn enwedig seidr.
- Effaith ar ddefnydd. Ar y cyfan, dim effaith amlwg, naill ai ddim yn yfed ar lefel ddigonol neu ddim effaith ar y cynnyrch ar lefel 50ppu.
- Ar gyfer yr yfwyr dibynnol mynych sy'n ceisio cynnal fforddiadwyedd, mae hyn wedi cael ei wneud yn bennaf drwy addasu ymddygiadau ymdopi/prynu/fforddiadwyedd oedd eisoes yn bodoli, yn enwedig mynd heb fwyd, neu beidio â thalu biliau.
- Materion sy'n ymwneud â throseddau/iechyd negyddol (yn fwyaf penodol mewn elfen fach o'r boblogaeth gyffredinol, yn enwedig y rhai sydd 'angen' alcohol)
- Mae hyn wedi'i gyfuno ag amrywiaeth o bryderon ynghylch argaeledd a'r effaith ar wasanaethau triniaeth, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac iechyd ehangach.

Neges allweddol 3: Cytundeb cyffredinol â'r polisi

- Mae'r polisi wedi'i groesawu'n gyffredinol. Tynnir sylw at hyn mewn llawer o'r gwerthusiadau a'r adroddiadau uchod, ac mae'n cynnwys ymateb cadarnhaol ym mhob grŵp, e.e. yfwyr, asiantaethau gorfodi, darparwyr a manwerthwyr. Mae hyn yn aml yn cyd-fynd â'r pryder y cytunwyd arno ynghylch argaeledd alcohol rhad ac amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol.
- Er gwaethaf hyn, bu rhywfaint o wrthwynebiad i'r polisi (yn enwedig ymysg rhai darparwyr ac yfwyr) a mynegwyd pryder cyson cyn ac ar ôl gweithredu'r MPA ynghylch yr effaith ar yr yfwyr trwm hynny sydd ar incwm isel.

Neges allweddol 4: Cyfatebiaeth amlwg â gwerthusiadau'r Alban

- Mae'r gwerthusiad yng Nghymru yn adleisio rhai o'r negeseuon (yn gadarnhaol) sy'n cyfateb i ganlyniadau gwerthuso'r Alban. Dylai hyn roi hyder mewn gwerthusiadau yng Nghymru ac unrhyw effeithiau tebygol MPA.

Neges allweddol 5: Pris gofalus

- Mae'r effeithiau cymharol gyfyngedig, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn adlewyrchu'r lefel pris 50ppu ac mae'n un gochelgar i ddechrau. Er mai hwn oedd y lefel pris a ddewiswyd yn fwriadol ar gyfer gweithredu, gan ei fod yn seiliedig ar amgylchedd economaidd sydd wedi newid yn gyflym, mae llawer wedi bod yn dadlau bod angen ei diweddarau'n awr.
- Mae unrhyw effaith bosibl o ganlyniad i'r isafswm pris yn cael ei herydu dros amser gan ffactorau fel chwyddiant neu gostau byw cynyddol.
- Mae'r hinsawdd economaidd-gymdeithasol bresennol yn un anodd i godi'r isafswm pris neu gost byw ychwanegol tybiedig.

Neges allweddol 6: Mae gan MPA yng Nghymru yn bodoli mewn gofod gweithredu a gwerthuso polisi anniben

- Mae natur benodol y ffiniau datganoli yn diffinio i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar faterion cymdeithasol-economaidd a pholisi perthnasol.
- Mae angen ystyried MPA yng nghyd-destun elfennau polisi alcohol effeithiol, yn enwedig darpariaeth triniaeth effeithiol.
- Mae llw o elfennau cyfrannol bosibl ar gyfer canlyniadau data ac unrhyw effaith amlwg ar MPA.

- Mae'n amlwg bod COVID-19 a'r argyfwng 'Costau Byw' sy'n dod i'r amlwg wedi dod yn ddylanwad mawr sy'n tynnu sylw.

Ystyriaethau Cynnar (argymhellion)

12.2 Gan mai gwerthusiad interim yw hwn yn hytrach nag adolygiad wedi'i gwblhau, mae'r adroddiad hwn yn darparu'r ystyriaethau allweddol canlynol, yn hytrach nag argymhellion pendant, i Lywodraeth Cymru weithredu arnynt o bosibl:

- Cynnal a chefnogi'r ymrwymiad presennol i werthuso a monitro'r polisi MPA.
- Ystyried adolygu'r lefel pris 50ppu bresennol. Mae'n ymddangos yn debygol bod angen codi'r pris i gynnal unrhyw effaith o ganlyniad i'r MPA a welwyd hyd yma. Bydd unrhyw gynnydd mewn pris yn gofyn am gyfathrebu a gweithredu wedi'i lunio'n dda yn y cyd-destun economaidd presennol.
- Parhau i ymgysylltu â PHS, monitro ei adroddiad terfynol ar ganlyniadau. Parhau i gymharu canfyddiadau'r Alban â rhai Cymru. Mae'r gymhariaeth hon, pan fydd yn gyson, yn galluogi hyder yn y gyfres o werthusiadau yng Nghymru.
- Lle bo angen, ystyried pa werthusiadau eraill y gallai fod eu hangen, er enghraifft effaith MPA ar blant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Atgyfnerthu'r cyfathrebu ynghylch pwy mae'r polisi'n ei dargedu. Gall hyn gynnwys yr angen i ail-lansio negeseuon am y polisi. Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o ymatebion strategol eraill ar gyfer cefnogi'r boblogaeth o yfwyr niweidiol sydd angen triniaeth a chymorth cysylltiedig. Mae angen deall y negeseuon am hyn yn well, ac o ganlyniad y negeseuon ynghylch pwy yw'r targed arfaethedig yng Nghymru ar gyfer MPA hefyd.
- O ystyried y pryder a fynegwyd am y polisi MPA a'r effaith ar yfwyr dibynnol sydd ar incwm isel, mae'n ymddangos yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod system driniaeth effeithiol yn cael ei darparu, ei hariannu a'i chefnogi, sy'n gyson â pholisïau/strategaethau eraill, h.y. y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.

- Lle bo'n bosibl, parhau i liniaru ar faterion tlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol, gan ei bod yn fwyfwy amlwg bod MPA yn effeithio'n fwyaf ar yr yfwyr trwm hynny sydd â lefelau is o incwm ac sy'n profi tlodi. Yn hyn o beth, ystyriwch hefyd sut mae'r cynllun cyflawni 'Camddefnyddio Sylweddau' nesaf yn gwneud mwy i integreiddio'r croestoriadau o ran cymorth ar gyfer bwyd, tai, incwm ac ystyriaethau nawdd cymdeithasol eraill, o fewn gwasanaethau triniaeth uniongyrchol. (Mae nodi anghydraddoldeb ac amddifadedd dilynol yn ffactor mor hanfodol mewn canlyniadau iechyd).

12.3 Rydym hefyd yn cynnig yr argymhellion canlynol ar gyfer darparwyr gwasanaethau/triniaethau:

- Hyrwyddo polisi'r MPA yn well a chynnig cyfeiriad clir at wasanaethau cymorth ar gyfer cymorth gyda chyllidebu, tai, banciau bwyd, cyngor ar berthynas, cwnsela, cyfeirio at ddiwenwyno.
- Bod yn glir wrth gynnig cyngor penodol ar leihau niwed ynghylch y niwed posibl o ganlyniad i newid o un cynnyrch alcohol i un arall a/neu i wirodydd neu sylweddau eraill